# Hwyluso'r Drefn

Adroddiad o argymhellion i Lywodraeth Cymru ar well rheoleiddio ym maes Ffermio

Rhagfyr 2011

Gareth J. Williams

Cynnwys:


Cyflwyniad Tudalen: 3

- Pennod 1: Crynhoi'r dystiolaeth a'r argymhellion 5
- Pennod 2: Trosolwg cryno o ffermio yng Nghymru heddiw 7
- Pennod 3: Sut mae busnes ffermio'n cael ei gynnal heddiw 11
- Pennod 4: Materion allweddol sy'n codi 15
- Pennod 5: Gwella dulliau cyfathrebu 16
- Pennod 6: Rheoli Cymorth y PAC 21
- Pennod 7: Lleihau nifer yr archwiliadau 26
- Pennod 8: Diogelu iechyd a lles anifeiliaid gan sicrhau hyblygrwydd wrth symud 32
- Pennod 9: Symleiddio cofnodion 40
- Pennod 10: Gwella'r ddealltwriaeth o Reoliadau amgylcheddol 42
- Pennod 11: Galluogi arallgyfeirio 46
- Pennod 12: Datblygu gwasanaeth cwsmeriaid 49
- Pennod 13: Cymharu 'Hwyluso'r Drefn' â'r adroddiad 'A report on better regulation in farming and food businesses' (adroddiad Richard Macdonald) 50
- Pennod 14: Annog twf busnesau 52
- Pennod 15: Sicrhau gwell rheoleiddio 55
- Pennod 16: Rheoli risgiau rhoi'r newidiadau ar waith 59
- Pennod 17: Mesur llwyddiant 60

**Atodiad 1: Aelodaeth Grwpiau Rhanddeiliaid a Phartneriaid Hwyluso'r Drefn**

**Atodiad 2: Rhestr o ffurflenni / canllawiau / llyfrau cofnodion**

**Atodiad 3: Amaethyddiaeth yng Nghymru: Y prif asiantaethau a chyrff allweddol**

**Atodiad 4: Rhestr o'r grwpiau rhanddeiliaid presennol**

**Atodiad 5: Swyddfeydd Materion Gwledig yng Nghymru**

**Atodiad 6: Cydnabyddiaethau**

## Cyflwyniad

Ym mis Awst 2011, gofynnodd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, Mrs Edwina Hart, a'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, Mr Alun Davies, am adroddiad erbyn canol mis Rhagfyr 2011 ar y baich rheoleiddio ar ffermwyr a rheolwyr tir yng Nghymru gyda'r nod o gyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ar sut i sicrhau gwell rheoleiddio o fewn fframwaith priodol, gwell gwasanaeth cwsmeriaid i'r ffermwyr a sector mwy proffidiol o safbwynt busnes. Mae yna sawl ffordd o ysgogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion hyn.

Yn gyntaf, un o brif themâu agenda diwygio'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, dan arweiniad y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, yw mynd i'r afael â biwrocratiaeth ddiangen a rhesymoli a symleiddio lle bo hynny'n bosibl. Yn ail, roedd *A report on better regulation in farming and food businesses* (adroddiad Macdonald), a gyhoeddwyd ym mis Mai gan y Tasglu Rheoleiddio Ffermio annibynnol yn Lloegr, yn cynnwys dros 200 o argymhellion i Defra ar leihau'r baich gweinyddol ar ffermwyr yn Lloegr. Yn drydydd, mae menter y Swyddfa Gwell Rheoleiddio Leol (LBRO) yn gorff cyhoeddus anadrannol gweithredol sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar symleiddio'r system reoleiddio, sicrhau bod llais byd busnes yn cael ei glywed a phwysleisio pwysigrwydd gorfodi.

Llwyddodd y Grŵp Adolygu Biwrocratiaeth yng Nghymru i wneud cynnydd sylweddol yn ei waith yn ystod Llywodraeth flaenorol Cymru, gan gynnwys rhesymoli archwiliadau ar ffermydd, datblygu dull ar sail risg a gwella dulliau o gyfathrebu er mwyn ymgysylltu â ffermwyr 'anodd eu cyrraedd'. Yn ogystal, cyhoeddwyd yr adroddiad *Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad* yn 2009. Adlewyrchir cynnwys y ddau adroddiad yng ngwaith yr adroddiad hwn.

Mae mwy o awydd nag erioed am well rheoleiddio yn bennaf oherwydd y posibilrwydd gwirioneddol y daw ail ddirwasgiad a bod twf busnes yn rhan annatod o'r ateb i hyn, ond hefyd am fod Gweinidogion yn awyddus i sbarduno newid. Mae rheoliadau'n angenrheidiol ac maent ar waith am reswm da, ond gallant fod yn rhwystr i arferion effeithlon a thwf busnes. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r rheoliadau sy'n effeithio ar ffermwyr ac yn nodi gwendidau mewn rheoliadau penodol ac yn y modd y cânt eu gweithredu. Mae'n gwneud argymhellion ar welliannau i alluogi busnesau i ddatblygu.

Mae'r dirwedd reoleiddio sy'n effeithio ar ffermio yn eang a thameidiog, ac yn ei chyfanrwydd mae'n mynd tu hwnt i gwmpas yr astudiaeth hon sy'n canolbwyntio ar y rheoliadau mwyaf trafferthus o safbwynt y cwsmeriaid. Mae enghreifftiau o feysydd rheoleiddio sydd wedi'u hepgor yn fwriadol yn cynnwys deddfau bwyd anifeiliaid, cludiant, tiroedd comin, allyriadau carbon ac iechyd a diogelwch ar y fferm. Nid yw hyn yn awgrymu y dylid rhoi llai o sylw i adolygu'r pynciau hyn.

Mae'r adroddiad yn mynd ymhellach na gwaith blaenorol: trwy nodi sut i roi'r argymhellion yn bwrpasol ar waith o fewn amserlenni'r Llywodraeth bresennol; trwy nodi mwy o gyfrifoldeb ar ran y diwydiannau ffermio ac amaethyddol; trwy annog Llywodraeth Cymru i weithio'n gynt yng nghyd-destun ei chyraeddiadau niferus ac i

beidio â chuddio weithiau y tu ôl i reoliadau'r CE neu'r addewid o adroddiadau newydd i osgoi newid; trwy nodi'r risgiau i lwyddiant; a thrwy ddisgrifio sut y gall pawb weithio mewn partneriaeth i gyflawni'r amcanion.

Yn y bôn, yr adroddiad hwn yw'r ddolen rhwng gwell rheoleiddio ym maes ffermio yng Nghymru o waith blaenorol a rhoi'r argymhellion ar waith erbyn 2015 mewn sector sy'n barod am newid - gyda phawb yn hwyluso'r drefn.

## 1. Crynhoi'r dystiolaeth a'r argymhellion

1.1 Mae fframwaith rheoleiddio'r diwydiant ffermio yn un amrywiol iawn o ran nifer ac ystod y rheoliadau a chymhlethdod y deddfwriaethau unigol. Yn ogystal â'r cymhlethdod hwn, mae llawer o reoliadau bellach yn deillio o'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) ac yn cael eu trosi i ddeddfwriaeth y DU ac yna i ddeddfwriaeth Cymru. Mabwysiadwyd proses drylwyr, agored a manwl mewn cyfnodau clir.

1.2 Er mwyn deall y fframwaith, roedd hi'n hanfodol o'r cychwyn cyntaf cyfarfod â'r awdurdodau cymwys ar y rheoliadau sef, yng nghyd-destun Llywodraeth Cymru, y swyddogion arweiniol. Ym mhob trafodaeth, darparwyd esboniad clir o'r hyn yr oedd y rheoliad yn ceisio'i gyflawni, lefel dylanwad Llywodraeth Cymru, gweithdrefnau gweithredu a rheoli a dulliau chyfathrebu â chwsmeriaid. Gwahoddwyd pob swyddog i wneud ei argymhellion ei hun ac i roi gwybod i dîm Hwyluso'r Drefn am ei gynlluniau i wella rheoleiddio yn y dyfodol.

1.3 Y bwriad o'r cychwyn oedd i'r adroddiad hwn gael ei arwain gan gwsmeriaid ac, o ganlyniad, mae barn a safbwyntiau cwsmeriaid wedi bod yn hollbwysig ac wedi'u crynhoi gydol y cyfnod casglu tystiolaeth. Cynhaliwyd trafodaethau mewn ffordd a oedd yn annog y rheini a oedd yn cymryd rhan i fod yn agored ac yn onest a, thrwy hynny, llwyddwyd i roi sylw i'r pynciau llosg. Cynhaliwyd trafodaethau gydag unigolion a grwpiau mewn swyddfeydd llywodraeth, ar ffermydd ac mewn marchnadoedd da byw. Hefyd, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda grwpiau rhanddeiliaid (ffermwyr, cynrychiolwyr ffermwyr) a phartneriaid (rheoleiddwyr). Mae manylion aelodaeth y grwpiau yn Atodiad 1. Cynhaliwyd tua 80 o gyfarfodydd gyda thua 250 o gyfranwyr. Hefyd, cafodd cyfeiriad e-bost ei greu a'i hysbysebu'n eang i roi cyfle i bawb gyfrannu.

1.4 Er mwyn ystyried gwahaniaethau sectorol a daearyddol, aethpwyd ati i gasglu tystiolaeth ar ffermydd ledled Cymru mewn perthynas â'r sectorau da byw, âr cymysg, llaeth, dofednod a garddwriaeth. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag undebau'r ffermwyr a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA), sefydliadau rheoleiddio, Llywodraeth ac asiantaethau annibynnol. Roedd ymweld â'r Ffair Aeaf 2011 yn gyfle gwerthfawr i gyfarfod â ffermwyr a'r sawl a oedd â buddiant.

1.5 Roedd hi'n bwysig rhoi sylw i'r gadwyn fwyd hyd at y pwyntiau prosesu cynradd ac, er mwyn gwneud hynny, cafodd ymweliadau â marchnadoedd da byw, lladd-dai a phroseswyr cig eu cynnwys.

1.6 Ddeufis ar ôl dechrau'r astudiaeth, roedd negeseuon cyffredin yn dechrau dod i'r amlwg a nodwyd saith mater allweddol a oedd yn crisialu elfennau annigonol y rheoleiddio. Gofynnwyd i saith grŵp ffocws, yn cynnwys ffermwyr a rheoleiddwyr a hwyluswyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru, gynnig atebion er mwyn ceisio datrys y materion hyn. Bu'r grwpiau hyn yn werthfawr ac roeddynt yn cynnig hygrededd gan fod eu cynigion yn dod yn uniongyrchol gan y rhai sy'n rheoli'r diwydiant o ddydd i ddydd.

1.7 Ar ei ffurf drafft, cafodd yr adroddiad hwn ei brawfddarllen gan arweinwyr polisi i sicrhau cywirdeb y ffeithiau a'r dehongliad, ond nid i gymeradwyo argymhellion, a chafodd ei brofi gyda chroestoriad o ffermwyr, undebau'r ffermwyr, swyddogion llywodraeth, asiantaethau'r llywodraeth a chyrff annibynnol cyn cyflwyno'r argymhellion terfynol i'r Gweinidog.

1.8 Cafodd Gweinidogion y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd yn ystod y broses 16 wythnos, gan gynnwys Mrs Edwina Hart (y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth), Mr Alun Davies (y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd) a Mr John Griffiths (Gweinidog yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd).

1.9 Mae fersiwn Saesneg o'r adroddiad hwn ar gael ar gais.

## 2. Trosolwg cryno o ffermio yng Nghymru heddiw

2.1 Mae ffermio'n ddiwydiant tameidiog. Mae tua 40,000 o ffermydd (daliadau) yng Nghymru; mae tua 18,000 ohonynt yn ffermio'r rhan fwyaf o'r tir ac mae nifer sylweddol yn Fusnesau Bach a Chanolig (BBaChau) neu'n ficrofusnesau.

2.2 Er mwyn rhoi gwybod i'r 40,000 o BBaChau am ofynion deddfwriaethol a chynlluniau cymorth, gallai tua 3,000 o dudalennau gwybodaeth (ffurflenni, canllawiau, cofnodion) gan reoleiddwyr ffermio gyrraedd fferm bob blwyddyn (gweler Atodiad 2). Mae gan oddeutu 50 o asiantaethau, gan gynnwys sefydliadau a ariennir gan y llywodraeth a Chyrff Anllywodraethol (NGOs), ddiddordeb gweithredol yn yr hyn sy'n digwydd ar ffermydd (gweler Atodiad 3). Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda 30 o grwpiau rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig â ffermio (a restrir yn Atodiad 4), er nad yw nifer ohonynt wedi cyfarfod ers cryn amser.

2.3 Mae arwynebedd y tir amaethyddol yng Nghymru'n dod i ryw 1.5 miliwn hectar; mae tua 86% ohono'n laswelltir; tua 5 i 10% yn dir âr a'r gweddill yn goetir yn bennaf.

- o Y sector defaid yw'r sector mwyaf, gydag 8.2 miliwn o ddefaid a 14,400 o ddaliadau. Mae niferoedd defaid wedi bod yn gostwng; mae'r ddiadell fagu bellach yn cynnwys 4.1 miliwn o ddefaid o gymharu â 5.5 miliwn ym 1996.


- o Mae'r sector eidion wedi cynyddu o 170,400 o wartheg ym 1996 i 242,000 yn 2010 ar 9,542 o ddaliadau.

- o Mae'r sector llaeth yn cynnwys 274,200 o wartheg ar 3,536 o ddaliadau, sy'n dod i ryw 1,900 o fusnesau ffermio llaeth, o gymharu â 257,700 ym 1996 ar 4,905 o ddaliadau; gellir priodoli'r gwahaniaeth i gynnydd ym maint cyfartalog buches o 53 o wartheg i 78.

- o Mae'r sectorau âr, garddwriaeth, moch a dofednod oll yn cael eu cynrychioli yng Nghymru ond maent yn llawer llai o ran maint o gymharu â'r prif sectorau.

2.4 Mae'r sefyllfa ffermio yng Nghymru yn gwella ar hyn o bryd eto. Mae prisiau tir yn codi, gan ychwanegu at werth asedau a sicrhau bod mwy o gyfalaf ar gael i ffermwyr o gymharu â sectorau eraill. Mae'r sectorau eidion a defaid yn elwa ar y galw cynyddol am gig coch, yn enwedig mewn marchnadoedd allforio, gyda'r ddiadell ddefaid sy'n lleihau yn yr hirdymor yng Nghymru yn cyfrannu at brisiau uwch o lawer. Fodd bynnag, mae yna broblemau o hyd; mae'r gwelliant yn y sector llaeth yn arafach, yn enwedig i'r busnesau bach a chanolig, ac mae'r costau cynhyrchu uwch (bwyd anifeiliaid, gwrtaith a thanwydd) yn crebachu'r elw ym mhob sector. Er gwaethaf y gwelliant cyffredinol, mae'r Taliad Sengl yn dal i fod yn gyfrifol am 80% o incwm busnesau fferm.

2.5 O ran cynnyrch amaethyddol crynswth, y sector llaeth yw'r un mwyaf.




Incwm cyfartalog busnes fferm yn ôl y math o fferm

**Tabl 1**

**Mewn termau real ar brisiau 2010-11**

| | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 (a) |
|---|---|---|---|---|
| Llaeth | 55,700 | 65,600 | 54,800 | 57,100 |
| Gwartheg a Defaid (ALFf) | 21,500 | 25,800 | 35,300 | 26,200 |
| Gwartheg a Defaid (Tir isel) | 20,600 | 25,700 | 33,900 | 29,700 |
| Pob math o fferm | 28,800 | 33,000 | 38,000 | 32,000 |

(a) dros dro

Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Fferm (FBS)

Noder: Disodlodd Incwm Busnes Fferm y mesur Incwm Fferm Net fel y prif fesur incwm fferm yn 2008.

2.6 Mae'n bwysig nodi bod tua 70% o gynnyrch amaethyddol yn dod o 30% o'r daliadau. Mae yna fwlch sylweddol rhwng y perfformwyr gorau ym mhob sector o gymharu â'r cyfartaledd. Mae Arolwg o Fusnesau Fferm (FBS) Cymru yn dangos yn gyson bod y busnesau mwyaf proffidiol yn tueddu i gynhyrchu mwy o gynnyrch a'i werthu am bris uwch, eu bod yn defnyddio mewnbynnau'n fwy effeithlon ac yn rheoli costau'n well. Nid oes amheuaeth y gellid gwneud gwelliannau sylweddol i berfformiad technegol llawer o fusnesau fferm ac mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod cymorth sylweddol ar gael i ddarparu help, yn bennaf trwy'r gwasanaeth Cyswllt Ffermio.

2.7 Mae ffermio'n dibynnu'n fawr ar arian cyhoeddus a hynny trwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Caiff gwariant y PAC ei sianelu i ffermwyr trwy'r system Colofn 1. Mae Colofn 1 yn cynnwys y Taliad Sengl. Mae hyn yn golygu bod tua £260 miliwn o arian trethdalwyr Ewrop yn cael ei dalu'n flynyddol i oddeutu 18,000 o ffermwyr Cymru, ar sail hawl hanesyddol. Dylid nodi nad yw nifer o ffermwyr actif yng Nghymru (nifer anhysbys) yn hawlio cymorthdaliadau.

2.8 Colofn 2 yw rhan Datblygu Gwledig y PAC ac mae wedi'i rhannu'n 4 echel. Mae Echel 1 (Cyswllt Ffermio, grantiau Prosesu a Marchnata a chynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi) ac Echelau 3 a 4 (Arallgyfeirio'r economi wledig) yn fuddiol ac yn cael eu hystyried felly, ond i lawer o ffermwyr, Echel 2 (Amaeth-amgylchedd) yw'r un sy'n peri'r dryswch mwyaf. Yn wahanol i Golofn 1, mae'r golofn hon yn cael ei hariannu'n bennaf (63%) gan Lywodraeth Cymru. Mae llif blynyddol y cyllid yn cael ei esbonio ymhellach yn y tabl canlynol:

**Tabl 2**

| **Ffynhonnell** | | **£ (miliwn y flwyddyn)** |
|---|---|---|
| PAC – Taliad Sengl | | 260 |
| PAC – Datblygu Gwledig | – Echel 1 | 14 |
| | - Echel 2 | 78 |
| | - Echelau 3 a 4 | 17 |
| YESS | | 1.75 |

***Noder:*** *Mae'r ffigurau (wedi'u talgrynnu) ar gyfer Datblygu Gwledig yn cynrychioli gwariant blynyddol cyfartalog rhaglen saith mlynedd.*

2.9 Mae'r Taliad Sengl yn gyfystyr â chymhorthdal incwm i ffermwyr. Nod cyllid datblygu gwledig yw: gwella pa mor gystadleuol yw'r sectorau ffermio a choedwigaeth, cyflawni buddiannau amgylcheddol a chefnogi arallgyfeirio yn yr economi wledig. Yn ogystal â'r PAC, mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'n llawn y Cynllun Cymorth i Newydd-ddyfodiaid (YESS), sy'n £1.75 miliwn y flwyddyn.

2.10 Mae costau rhedeg Adran y Dirprwy Weinidog tua £20 miliwn y flwyddyn. Mae nifer o aelodau staff Adran yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd (DES) hefyd yn ymwneud â pholisi a chymorth ffermio (timau amgylcheddol, Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol, yr Is-adran Tystiolaeth a Gwerthuso) ac amcangyfrifir bod eu costau tua £4 miliwn.

2.11 Mae demograffeg ffermio yn destun cryn ddadlau. Mae data arolygon yn awgrymu mai 59 yw oedran cyfartalog ffermwyr, ond mae'r arolygon hyn yn anwybyddu cyfansoddiad teuluoedd fferm; mae mwy o bobl ifanc yn actif ar ffermydd er efallai nad nhw yw'r prif ffermwr neu maent yn ffermio mewn partneriaeth. Mae mwy a mwy o bobl ifanc yn ymrestru ar gyrsiau amaethyddol mewn prifysgolion a cholegau ac mae'r sefydliadau addysg yn nodi bod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr sy'n gadael y colegau yn mynd i ffermio.

2.12 Ar hyn o bryd, mae sector bwyd-amaeth y DU yn cyfrannu hyd at 7 y cant (£79.4 biliwn) o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) y DU. Mae'r pwysigrwydd

cymharol yn uwch yng Nghymru ac mae'n rhan bwysig iawn o Gymru wledig o ran treftadaeth y fferm deuluol, y cyfraniad at fywyd y gymuned wledig a'r economi wledig.

2.13 Mae'r ffaith bod poblogaeth y byd yn tyfu, a'i bod newydd fynd y tu hwnt i 7 biliwn, yn codi pryderon dybryd ynglŷn â diogelwch bwyd byd-eang, a bydd y newid yn yr hinsawdd yn bygwth cynhyrchiant mewn ardaloedd cyhydeddol ac is-gyhydeddol yn y dyfodol. Mae amodau economaidd gwell yn Ne-ddwyrain Asia wedi arwain at fwy o alw am gynhyrchion cig a llaeth. Mae'r newidiadau hyn yn gyfle i'r diwydiant ffermio yng Nghymru sy'n annhebygol o gael ei heffeithio'n andwyol gan y newid yn yr hinsawdd. Yr her i'r Llywodraeth yw annog, cefnogi a galluogi busnesau fferm i ddatblygu, tyfu ac arallgyfeirio gan gydymffurfio â fframwaith rheoleiddio sy'n mynd yn fwy heriol o hyd, gyda'r rhan fwyaf o'r rheoleiddio hwn yn cael ei orfodi gan y Comisiwn Ewropeaidd.

2.14 Mae'r adroddiad hwn yn gwneud argymhellion cadarn ar well rheoleiddio a symleiddio er mwyn cael gwared ar unrhyw rwystrau i dwf y sector ffermio, boed yn rhwystrau real neu'n rhai canfyddedig, yng nghyd-destun polisïau Amaethyddol Llywodraeth Cymru.

## 3. Sut mae busnes ffermio'n cael ei gynnal heddiw

### Datblygu rheoleiddio

3.1 Mae'r rhan fwyaf o'r rheoliadau sy'n effeithio ar ffermwyr yng Nghymru'n deillio o'r CE. Nid yw'n hawdd i Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar y broses. Mae'r CE yn trafod yn uniongyrchol gyda'r 27 Aelod-Wladwriaeth, gan gynnwys y DU. I sicrhau dylanwad effeithiol, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu perthynas waith gynhyrchiol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, gyda Defra yn Lloegr a chyda gweinyddiaethau'r Alban a Gogledd Iwerddon lle mae cynigion polisi'n cael eu trafod yn fanwl a safbwynt y DU yn cael ei gytuno yn y pen draw. Gall fod yn anodd dod i gytundeb o ystyried y gwahaniaethau ym mlaenoriaethau a materion ffermio gwahanol weinyddiaethau'r DU. Mae ansawdd y perthnasoedd yn bwysig iawn ac yn cael ei gymhlethu gan drosiant rheolaidd swyddogion arweiniol a Gweinidogion ar lefel y DU a Chymru. Mae ymgysylltu ffurfiol a rheolaidd, yn enwedig rhwng y gwahanol Weinidogion, yn hollbwysig i hwyluso'r drefn.

3.2 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio dylanwadu ar y CE yn uniongyrchol trwy ei swyddogion yn swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel, a hefyd drwy swyddogion arweiniol yng Nghymru sy'n teithio i Frwsel i gymryd rhan mewn cyfarfodydd polisi rheolaidd gyda swyddogion y Comisiwn. Mae hyn yn rhan allweddol o'r broses ymgysylltu i sicrhau bod y CE yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am farn a blaenoriaethau Cymru sydd, mewn rhai achosion, yn wahanol i flaenoriaethau gweddill y DU.

### Ymgysylltu â rhanddeiliaid

3.3 Mae gan Lywodraeth Cymru hanes o lunio polisïau mewn ffordd gynhwysol. Mae llawer iawn o randdeiliaid neu bartïon â buddiant yn rhan o'r gwaith o lunio polisïau ffermio, gan gynnwys y ffermwyr eu hunain, undebau'r ffermwyr, asiantaethau'r llywodraeth a chyrff anllywodraethol. Yn ogystal, mae gan nifer o adrannau Llywodraeth Cymru fuddiant yn hyn o beth, gan gynnwys yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS), Adran yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd (DESD) a'r Adran iechyd. Mae Atodiad 2 yn rhestru croestoriad o gyrff allweddol yn y diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru.

3.4 Weithiau, mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn gallu bod yn waith anodd oherwydd nifer yr agendâu sy'n gorgyffwrdd; y Llywodraeth yn gofyn i gyfranwyr allweddol roi o'u hamser yn aml, yr her o roi sylw i ofynion pawb mewn trafodaeth a lobïo cryf gan grwpiau â buddiannau arbennig. Nododd adolygiad diweddar o randdeiliaid yn yr Adran Materion Gwledig 30 o grwpiau (heb gynnwys pysgodfeydd). Mae effeithiolrwydd gwaith grwpiau rhanddeiliaid yn amrywio'n fawr; yr enghreifftiau gwaethaf yw grwpiau a grëwyd ar frys, sy'n cyfarfod yn anaml, sy'n gorfod gwrando yn hytrach na chael dweud eu dweud a rhanddeiliaid sy'n teimlo nad ydynt yn gwneud mwy na chyfrannu at ymarfer 'ticio bocsys'. Rhaid pwysleisio bod llawer iawn o grwpiau'n gweithio'n effeithiol a bod y rhanddeiliaid yn gwerthfawrogi'r cyfle i ymgysylltu. Heb y cam hwn yn y gwaith o ddatblygu polisïau, byddai'r Gweinidog a swyddogion yn boddi o dan geisiadau am gyfarfodydd.

3.5 Mae undebau'r ffermwyr yng Nghymru yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at symud y diwydiant ymlaen. Mae eu ffigurau aelodaeth yn cael eu cadw'n gyfrinachol, ond maent yn cynrychioli'r mwyafrif o'r 18,000 sy'n derbyn cyllid o dan

y PAC, ond lleiafrif o'r 40,000 o ddaliadau. Mae rhai ffermwyr yn perthyn i'r ddau Undeb – nid yw llawer yn perthyn i'r naill na'r llall – felly mae'r matrics aelodaeth yn un cymhleth. Mae llawer o fewn y diwydiant a'r tu hwnt o'r farn bod yr Undebau hyn yn cynrychioli barn pob ffermwr, ond ni all hyn fod yn wir.

3.6 Mae lleisiau'r ddau undeb ffermio a Chymdeithas y Tirfeddianwyr yn gryf iawn o ran cyfleu barn y diwydiant ar bolisïau, boed hynny o blaid neu yn erbyn Llywodraeth Cymru. O ystyried y farn allanol, mae arddull a chynnwys y cyfathrebu'n allweddol. I rai aelodau a gwrandawyr neu ddarllenwyr, ystyrir eu bod yn darparu arweinyddiaeth. Fodd bynnag, os ydynt yn gwrthwynebu Llywodraeth Cymru, gall swyddogion, a hyd yn oed rai ffermwyr, deimlo bod y Llywodraeth yn dangos agwedd negyddol a'i bod yn erbyn unrhyw newid.

3.7 Mae ymgynghori ffurfiol ac anffurfiol yn rhan annatod o waith datblygu polisi pan fo dewisiadau i'w hystyried, ac mae'n rhoi cyfle i'r cyhoedd gynnig eu safbwyntiau. Mae gwerth hyn yn amrywio a chaiff ei ddylanwadu gan nifer ac ansawdd yr ymatebion; fel arfer, y rhanddeiliaid amlycaf eu proffil, gan gynnwys undebau'r ffermwyr a'r cyrff amgylcheddol, sy'n cynhyrchu'r ymatebion ysgrifenedig manylaf.

**Cyfathrebu rheoliadau a chefnogi cwsmeriaid**

3.8 Mae rheoliadau Ewropeaidd yn cael eu trosi i reoliadau'r DU a Chymru a'r nod yw bod mor syml â phosibl, er nad yw'r cwsmer bob tro'n gwerthfawrogi hynny.

3.9 Mae cyfathrebu safonol yn cynnwys cyhoeddi manylion y rheolau a'r canllawiau technegol sy'n gallu golygu ysgrifennu at bob cwsmer sy'n debygol o gael eu heffeithio, ynghyd ag ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd. Mae effeithiolrwydd y dull hwn yn amrywio gan y gall gormod o wybodaeth fod yn wrthgynhyrchiol. Yn ôl asesiad o'r taflenni gwybodaeth safonol (canllawiau, ffurflenni, llyfrau cofnodion ac ati) a allai gyrraedd fferm gan yr holl reoleiddwyr ffermio mewn blwyddyn nodweddiadol, gallai pob fferm dderbyn tua 3,000 o dudalennau, sy'n cyfateb i ryw ddeuddeg llyfr clawr meddal!

3.10 Rhoddir llawer o bwyslais ar gyfathrebu gofynion rheoleiddio i gwsmeriaid ac mae Defra a ffermwyr yn Lloegr yn edmygu sut mae Cymru yn mynd o'i chwmpas hi. Mae'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) yn darparu gwasanaeth 'siop un stop' sydd am ddim i ffermwyr ac sy'n cynnig cyngor ar gynlluniau, cymorthdaliadau a rheoliadau.

3.11 Mae cylchgrawn Gwlad, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, yn cael ei werthfawrogi gan ffermwyr fel adnodd llawn gwybodaeth sy'n hawdd ei ddarllen. Yn ddiweddar, mae Gwlad wedi lleihau o fod yn 11 rhifyn y flwyddyn i fod yn gyhoeddiad deufisol, yn rhannol oherwydd pwysau ariannol ond hefyd oherwydd sbardun parhaus i symud gwasanaethau ar-lein. Mae'n rhy gynnar i farnu faint o gwsmeriaid fydd yn dewis darllen y fersiwn ar-lein; mae llawer mwy o bethau'n hawlio sylw'r cwsmer ar-lein o gymharu â gweld copi caled yn dod yn y post. Bydd angen monitro'r sefyllfa hon gan na ddylid colli na dibrisio'r pwynt cyswllt llwyddiannus hwn.

3.12 Mae ffermwyr yn defnyddio llawer iawn o rwydwaith swyddfeydd Llywodraeth Cymru i gael cymorth mewn perthynas â chynlluniau a rheoliadau. Mae'r Swyddfeydd Rhanbarthol (Caernarfon, Caerfyrddin, Llandrindod ac Aberystwyth) yn cynnig gwasanaethau cymorth 'blaen swyddfa' dyddiol, ac mae nifer cyfyngedig o Swyddfeydd Ardal llai yn cynnig cymorth tebyg ond ar sail fwy cyfyngedig (diwrnod yr wythnos fel arfer, ond gyda rhywfaint o amrywio yn ôl y tymor). Mae'r gwasanaeth blaen swyddfa'n cynnig gwybodaeth gyffredinol am gynlluniau cymorth a rheoliadau gwasanaeth gwirio sylfaenol o'r Ffurflenni Cais Sengl (SAF) ac yn derbyn ceisiadau o dan gynlluniau eraill. Mae Taliadau Gwledig Cymru (RPW) yn cynyddu lefelau staffio mewn Swyddfeydd Blaen yn ystod cyfnodau prysur, megis adeg cyflwyno'r SAF/Glastir. Ar hyn o bryd, mae gan Taliadau Gwledig Cymru 24 o aelodau staff parhaol sy'n cyflawni dyletswyddau blaen swyddfa mewn pedair swyddfa ranbarthol (gweler Atodiad 5). Mae'r staff dan sylw yn cyflawni dyletswyddau eraill ar gyfer RPW yn ôl yr angen. Mae'r swyddfeydd llai yn defnyddio adnoddau staff y tair Swyddfa Ranbarthol.

3.13 Mae Cyswllt Ffermio (FC) yn wasanaeth cwsmeriaid rhagorol arall sy'n unigryw i Gymru. Mae'r gwasanaeth, a ddarperir trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig, yn crynhoi'r gwasanaethau sy'n fuddiol i ffermwyr, gan gynnwys cyngor busnes, trosglwyddo technoleg grwpiau, dysgu gweithredol (Agrisgôp) a chyrsiau hyfforddi ymarferol. Mae llawer o elfennau'r gwasanaeth hwn ar gael am ddim neu'n derbyn cymhorthdal sylweddol ac mae grantiau wedi'u darparu ar gyfer datblygu busnesau ac arallgyfeirio yn y gorffennol.

3.14 Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr (FAS) yn orfodol o dan y PAC i ddarparu cyngor amgylcheddol, yn enwedig mewn perthynas â'r Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da (GAEC), sef gofyniad rheoli tir ar y sawl sy'n derbyn y Taliad Sengl. Mae'r gwasanaeth yn tueddu i gael ei ddefnyddio gan gwsmeriaid sydd wedi torri rheolau'r GAEC. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) wedi cynnig ymestyn cylch gwaith y FAS yn dilyn cylch cyfredol diwygio'r PAC i gynnwys elfennau o gymorth a gynigir ar hyn o bryd o dan FLS ac FC. Bydd rhesymoli rhai gwasanaethau yn anochel yn sgil hyn.

3.15 Bydd sefydliadau partner, gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a chyrff sy'n cynrychioli ffermwyr, yn enwedig undebau'r ffermwyr, hefyd yn rhoi gwybod i ffermwyr am newidiadau i'r rheoliadau ac yn cynnig cymorth gyda chydymffurfiaeth – meysydd lle mae'n hanfodol sicrhau bod y neges yn gyson.

### Rheoli rheoliadau

3.16 Mae Llywodraeth Cymru a gwahanol asiantaethau yn rhannu'r cyfrifoldeb dros blismona rheoliadau yn dibynnu ar y rheoliadau dan sylw. Gall ffermydd unigol gael eu harchwilio sawl gwaith, ond efallai mai ychydig iawn o archwiliadau a gynhelir mewn ffermydd eraill. Mae yna lawer o ffactorau sy'n dylanwadu ar nifer yr archwiliadau, gan gynnwys natur y rheoliad.

### Safbwynt y Cwsmer

3.17 Er gwaethaf ymdrechion rheoleiddwyr a phartneriaid i gyfathrebu gofynion rheoleiddio a rheoli cydymffurfiaeth yn effeithlon, mae'n ymddangos bod yna

ddiwylliant o ofn ymhlith ffermwyr o ganlyniad i gymhlethdod rheoliadau a pha mor hawdd yw hi i dorri rheolau'n ddamweiniol a chael eich cosbi'n ariannol. Mae gan bob rheoleiddiwr agwedd wahanol at ei waith, ac nid yw natur 'ymyrgar' rhai archwilwyr (nid Arolygiaeth Wledig Cymru) yn helpu. Mae hyn wedi arwain at amharodrwydd i gysylltu â'r awdurdodau i gael cyngor oherwydd bod y ffermwr yn ofni y bydd yn cael ei dargedu ar gyfer archwiliadau, er nad oes unrhyw dystiolaeth bod hyn yn digwydd. Gall yr agwedd 'pen yn y tywod' hon greu mwy o broblemau i'r ffermwr a'r rheoleiddiwr yn y pen draw.

## 4. Materion allweddol sy'n codi

4.1 Roedd y broses o gasglu tystiolaeth yn effeithiol ac yn gyson o ran nodi nifer o ganfyddiadau cyffredin mewn perthynas ag ym mha feysydd yr oedd prosesau rheoleiddio a rheoliadau penodol yn peri pryder mawr ac yn rhoi baich ar gwsmeriaid.

4.2 Archwiliwyd y materion allweddol yn fanwl trwy gyfres o saith gweithdy yn cynnwys ffermwyr, cynrychiolwyr asiantaethau ac undebau'r ffermwyr, unigolion annibynnol a swyddogion Llywodraeth Cymru. Ceisiwyd cael ymatebion i'r cwestiynau isod:

- Cyfathrebu – Sut allwn ni wella dulliau cyfathrebu ymhellach?
- Cymorth y PAC – Sut allwn ni wella cyfradd ddilysu Ffurflen y Cais Sengl a'r broses cwsmeriaid ddilynol?
- Archwiliadau – Sut allwn ni leihau nifer yr archwiliadau a rhoi sylw digonol i'r risg ar yr un pryd?
- Iechyd a lles anifeiliaid – Sut allwn ni ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid a sicrhau hyblygrwydd symud da byw ar yr un pryd?
- Cadw cofnodion – Sut allwn ni leihau a symleiddio'r cofnodion ar gyfer adnabod, symud a meddyginiaethau?
- Rheoliadau amgylcheddol – Sut allwn ni wella'r ddealltwriaeth o reoliadau amgylcheddol, gan gynnwys dŵr, ynni a gwastraff, a sicrhau bod ffermwyr yn cydymffurfio â nhw?
- Arallgyfeirio – Sut allwn ni hwyluso arallgyfeirio ar ffermydd e.e. twristiaeth, prosesu bwyd?

Mae Penodau 5 i 11 bellach yn archwilio'r materion hyn yn fanwl, gan wneud argymhellion o fewn tair amserlen weithredu – enillion cyflym [**Q**] erbyn Gorffennaf 2012, tymor byr [**S**] erbyn Gorffennaf 2013 a thymor canolig [**M**] erbyn Gorffennaf 2015. Profodd y gweithdai hyn fanteision gwaith partneriaeth fel enghraifft wych o Hwyluso'r Drefn.

## 5. Gwella dulliau cyfathrebu

### Cyfathrebu â ffermwyr

5.1 Y gwendid mwyaf ar draws llywodraeth ac asiantaethau sy’n ceisio sicrhau gwell rheoleiddio yw methu â chyfathrebu’n glir ac effeithiol. Mae yna ddiffygion ar bob lefel; mewn Llywodraeth a rhwng Llywodraeth ac asiantaethau, ond y diffyg mwyaf niweidiol o bosibl yw’r diffygion rhwng Llywodraeth neu reoleiddiwr a’r cwsmer. Mae rheoliadau sy’n gysylltiedig â ffermio’n niferus ac yn aml yn gymhleth, sy’n gwneud cyfathrebu’n dipyn o her.

5.2 Mae gan Lywodraeth Cymru rai dulliau cyfathrebu/cymorth clodwiw sydd wedi hen ennill eu plwyf ar ffurf y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS), Cyswllt Ffermio, yr FAS, Swyddfeydd Blaen a Gwlad. Mae’r ffaith bod y mecanweithiau cyfathrebu tra effeithiol hyn, sy’n cael eu gwerthfawrogi’n fawr gan gwsmeriaid, yn wynebu toriadau yn eu cyllideb yn peri pryder mawr. Erbyn hyn, dim ond pum swyddog sydd gan yr FLS ar gyfer Cymru gyfan. Mae’r swyddogion yn gyfeillgar a hynaws ac yn wybodus ynglŷn â phob mater yn ymwneud â ffermio. Mae’r cyngor un-i-un a’r dulliau ‘grŵp’ a ‘chymhorthfa’ a ddefnyddir gan yr FLS yn cael eu gwerthfawrogi gan bawb. Mae’n siomedig bod yr FLS wedi’i leihau. Canlyniad lleihau cyllidebau yw hyn yn rhannol, ond mae hefyd yn cyd-fynd ag amcan y llywodraeth o ddarparu llai o gymorth ‘dal llaw’ i ffermwyr. Ond y gwir yw y gall buddsoddi ymlaen llaw mewn gwasanaethau cymorth fel yr FLS arwain at lai o gamgymeriadau a phroblemau’n ddiweddarach, a fydd yn golygu mwy o adnoddau a chostau ychwanegol. Gellid dadlau felly na fyddai lleihau’r FLS yn esgor ar unrhyw arbedion mewn gwirionedd.

5.3 Mae angen i bob swyddog yn yr Adran Materion Gwledig fod yn wybodus ynglŷn ag amrywiaeth eang o reoliadau a chynlluniau. Mae angen i’r aelodau staff hyn fod yn fwy gwybodus fyth a meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf os ydynt i ddarparu gwasanaeth rhagorol a chynhwysfawr i gwsmeriaid. Mae hefyd angen iddynt ddeall y ffiniau rhwng cynnig cymorth a dal llaw. Rhaid iddynt fod yn ofalus i beidio â chynnig cyngor y tu hwnt i’w gwybodaeth a’u cylch gwaith. Mae hyfforddiant a datblygiad parhaus priodol – gan gynnwys darparu cyfarwyddiadau desg – yn hollbwysig.

5.4 Er gwaethaf yr amrywiaeth o wasanaethau cymorth a mentrau cyfathrebu a werthfawrogir sydd ar gael, nid yw negeseuon polisi pwysig yn cael eu cyfathrebu’n effeithiol i ffermwyr bob amser. Mae yna ddiffyg dealltwriaeth ynglŷn â pham mae rheolau ar waith a’r rhesymau am y ffordd y defnyddir mesurau rheoli.

5.5 Mae Gwlad wedi lleihau o 11 i chwe chopi caled y flwyddyn, er ei fod bellach ar gael ar-lein. Mae Llywodraeth Cymru’n symud yn gyffredinol tuag at ddarparu mwy o wybodaeth ar-lein ac, yn ddiweddar, aeth ati i wella’i gwefan, er ei bod yn dal i fod yn gymharol anodd i we-lywio drwyddi. Rhaid monitro llwyddiant dulliau cyfathrebu ar-lein yn ofalus; mae’r boblogaeth sy’n ffermio’n tueddu i fod yn hŷn ac yn fwy traddodiadol, felly efallai na fydd y fenter hon yn gwbl lwyddiannus. Mae defnyddwyr newydd yn ei chael hi’n anodd gwe-lywio drwy wefan Llywodraeth Cymru; mae gwefan Netregs Asiantaeth yr Amgylchedd yn enghraifft dda iawn o sut i sicrhau bod pobl yn gallu dod o hyd i reoliadau a’u deall. Erbyn hyn, mae gan y rhan fwyaf o ffermwyr ffôn symudol, felly gall rheoleiddwyr ystyried defnyddio

negeseuon testun i ategu eu cyfathrebu. Mae rhaglen ar-lein Llywodraeth Cymru'n bwriadu ymgorffori'r gwasanaeth hwn.

5.6 Yn aml, anfonir gohebiaeth yn y post i roi gwybod i ffermwyr am ofynion rheoleiddio a newidiadau. Cyhoeddir llyfrynnau canllaw manwl, a chânt eu hanfon yn aml os oes mân newidiadau'n cael eu gwneud. Gall y rheoleiddiwr fod yn hyderus bod y cwsmer wedi derbyn yr holl wybodaeth briodol am y rheoliad, ac y dylai allu cydymffurfio. Y gwirionedd yw y gallai tua 3,000 o dudalennau o reoliadau gyrraedd fferm mewn blwyddyn ac, mewn llawer o achosion, nid yw'r ffermwr yn eu darllen neu nid yw'n eu deall yn iawn. Mae ffermwyr yn ddrwgdybus o reoliadau; mae angen y wybodaeth allweddol arnynt wedi'i hegluro mewn iaith syml a chyfeiriadau i ble y gallant gael rhagor o wybodaeth, naill ai ar-lein, ar ffurf copi caled neu wyneb yn wyneb, os bydd angen. Mae'n ymddangos bod y ffurflenni ar Drawsgydymffurfio wedi taro'r cydbwysedd cywir o safbwynt y cwsmer.

5.7 Mae anfon gohebiaeth at gwsmeriaid yn achosi pob math o broblemau. Yn aml, mae llythyrau'n rhy hir, gyda'r wybodaeth bwysig wedi'i chuddio ar waelod tudalen 4 – mae cwsmeriaid am gael gwybod y wybodaeth bwysig yn syth. Gall tôn llythyrau fod yn fygythiol neu beri gofid, yn enwedig llythyrau sy'n sôn am ddileu clefydau anifeiliaid. Nid yw peri straen i gwsmeriaid yn ffordd dda o ennill eu cefnogaeth ar gyfer ymgyrch bwysig. Mae sicrhau ansawdd wedi bod yn anghyson; ar ôl 'biwrocratiaeth', cafodd gwelliannau eu haddo ond nid ydynt wedi'u cyflawni'n gyson. Mae'r gwaith o rannu gohebiaeth ddrafft gydag undebau'r ffermwyr yn glodwiw, ond nid yw'n arfer safonol.

5.8 Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr a gyfwelwyd yn deall eu bod yn cael arian cyhoeddus a bod angen i reolau fod ar waith i sicrhau diwydrwydd dyladwy ac atebolrwydd, ond nid yw hyn yn golygu eu bod yn deall goblygiadau methu archwiliad y CE. Nid yw cosb ariannol a allai gostio £ miliynau i Lywodraeth Cymru yn golygu unrhyw beth iddynt, ac nid ydynt yn ystyried y byddai hyn yn cael effaith uniongyrchol ar unigolion. Mae yna lawer iawn o enghreifftiau lle mae'r Llywodraeth ac asiantaethau wedi methu ag esbonio rheolau a phenderfyniadau'n ddigonol e.e. nododd ffermwyr fod ceisiadau micro-hydro wedi methu oherwydd bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gwrthod caniatáu trwydded alldynnu dŵr, a'r farn oedd bod hyn yn ffwlbri llwyr: "Byddwn yn tynnu dŵr ond yn ei ddychwelyd yn uniongyrchol i'r afon". Mae'n amlwg nad oedd y rheswm wrth wraidd y penderfyniad wedi'i egluro'n effeithiol. Mae diffyg dealltwriaeth yn cynyddu'r ansicrwydd ymhlith ffermwyr: "Ni fyddaf yn cyflwyno cais i'r cynllun Glastir gan ei fod yn edrych yn gymhleth ac, os byddaf yn gwneud pethau'n anghywir, byddaf yn cael cosb ar fy nhaliad Glastir a'm Taliad Sengl".

5.9 Mae ffermwyr yn nodi dro ar ôl tro nad yw'r Llywodraeth fel petai'n gwrando arnynt - ond mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd. Roedd llawer o ffermwyr yn pwysleisio bod staff 'lleol' Llywodraeth Cymru yn gwrando ac yn gefnogol iawn, gan gynnwys y rheini yn yr FLS, rhai aelodau o staff Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW), staff Swyddfeydd Rhanbarthol a Swyddfeydd Ardal, yn wahanol i 'staff Caerdydd' sy'n cael eu hystyried fel pobl ar wahân heb fawr o ddealltwriaeth o ffermio a safbwynt y cwsmeriaid. Mewn ymateb i ymholiadau cwsmeriaid ynglŷn â gohirio'r Taliad Sengl, ystyrir bod ymateb Llywodraeth Cymru (fel y'i nodir gan nifer o gyfweleion), sef "does dim rhaid i ni eich talu tan fis Mehefin", yn gwbl

annerbyniol o ystyried bod llifau arian a chynlluniau busnes ffermydd yn cael eu strwythuro o amgylch y taliad hanfodol hwn. Mae llyfryn rheolau Ffurflen y Cais Sengl (SAF) yn cynghori ffermwyr i beidio â gwneud penderfyniadau busnes yn seiliedig ar daliad cynnar (o fewn y cyfnod talu) ond, mewn gwirionedd, dylai cyllidebu cywir fod yn seiliedig ar y dyddiad talu mwyaf tebygol. Cafodd y cynllun Glastir ei ddefnyddio dro ar ôl tro fel enghraifft o'r Llywodraeth yn methu â gwrando. Mae rhai ffermwyr yn teimlo nad yw swyddogion yn rhoi'r cyngor llawn a diduedd sydd ei angen ar Weinidogion wrth iddynt wneud penderfyniadau polisi. Waeth a yw'r sefyllfaoedd hyn yn bodoli ai peidio, nid dyna'r pwynt; mae'n allweddol eu bod yn cael sylw gan y Llywodraeth.

**Cyfathrebu o fewn y Llywodraeth a chydag asiantaethau ac unigolion annibynnol**

5.10 Mae gan nifer o Adrannau ac Is-adrannau mewn Adrannau fuddiant mewn polisïau penodol neu agweddau ar bolisïau. Nid yw'n ymddangos bod yna ffordd systematig o nodi pob parti â buddiant wrth ddechrau ar waith datblygu polisi. Mae'n ymddangos bod yr her hon yn ddibynnol ar wybodaeth swyddogion a'r dulliau datblygu rhwydwaith. Mae'r risg o ddatblygu polisïau mewn seilos yn uwch, mae amser yn cael ei wastraffu ac ni ddefnyddir adnoddau i'w llawn botensial. Mae'n bosibl rhoi mecanweithiau gwirio ar waith wrth ddechrau datblygu polisi er mwyn gwella dulliau cyfathrebu ac ystyriaethau cydgysylltiedig.

5.11 Ar y cyfan, mae asiantaethau ac unigolion annibynnol yn gallu cyflwyno'u hagendâu'n effeithiol i Lywodraeth Cymru gan sicrhau y gallant gyfrannu at waith rhanddeiliaid, a byddant yn ysgrifennu at Weinidogion os byddant yn teimlo eu bod yn cael eu gadael allan. Nid cyfathrebu yw'r broblem fel y cyfryw, ond ansawdd y cysylltiadau. Yr enghraifft orau efallai yw'r berthynas anesmwyth gydag undebau'r ffermwyr; mae'r diffyg ymddiriedaeth ar y ddwy ochr wedi arwain at densiwn ynglŷn â pholisïau, ac yn enwedig y cynllun Glastir.

**Cyfathrebu â Defra, gweinyddiaethau eraill yn y DU a'r CE**

5.12 Mae cydweithio'n agos â gweddill y DU yn hollbwysig i Lywodraeth Cymru o ystyried dylanwad y CE ar bolisïau a rheoleiddio ym maes ffermio. Mae'n amlwg bod swyddogion yn cyfathrebu ac yn gweithio'n dda ar draws ffiniau, er y gall agenda Whitehall fod yn wahanol iawn i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn enwedig oherwydd bod amlygrwydd a natur y sector ffermio yn wahanol, ym mhob agwedd, rhwng Cymru a Lloegr. Y PAC yw prif ffynhonnell ariannol ffermio yng Nghymru gyfraniad ariannol at ffermio yng Nghymru (y Taliad Sengl yw 80% o incwm busnesau fferm) ac, o ystyried bod gwaith diwygio sylweddol ar y gweill, rhaid i Lywodraeth Cymru fod yn hyderus yn ei sefyllfa, sydd wedi'i sefydlu trwy ddadansoddi effaith a thystiolaeth. Rhaid sicrhau cefnogaeth y diwydiant trwy onestrwydd, tryloywder a negeseuon clir, a siarad ag un llais wrth drafod gyda San Steffan a Brwsel. Bydd mynd ati ar wahân, er enghraifft gyda gwahanol negeseuon gan y Llywodraeth, undebau'r ffermwyr a swyddogion y Comisiwn, yn lleihau dylanwad Cymru'n sylweddol.

## Argymhellion

A.1 Rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ati'n fwy effeithiol i gyfathrebu a rhoi cyhoeddusrwydd i'w ffyrdd o gynorthwyo'r diwydiant, ymgysylltu â chwsmeriaid a gwirio'r rheoliadau [**Q**].

Mae eisoes wrthi'n ceisio gwella dulliau cyfathrebu ond, yn aml, mae cwsmeriaid yn llai ymwybodol o welliannau sydd eisoes ar waith. Er enghraifft:

- o Y gwelliannau diweddar i'r tudalennau ar ffermio ar wefan Llywodraeth Cymru.
- o Yr argymhellion a roddwyd ar waith yn llwyddiannus yn dilyn yr adolygiad o fiwrocratiaeth, megis archwiliadau ar y cyd a llai o ddyblygu cofnodion, a chydnabod y posibilrwydd o wneud gwelliannau pellach.
- o Camp Llywodraeth Cymru yn sicrhau nad aeth 98.5% o Ffurflenni'r Cais Sengl (SAFs) i apêl.
- o Mae dulliau cyfathrebu 'a gafodd gydnabyddiaeth' eisoes ar waith yng Nghymru mewn perthynas â dewis ffermydd i'w harchwilio yn seiliedig ar risg
- o Y gwahaniaeth mae YESS wedi'i wneud i ffermwyr ifanc yng Nghymru, gan gynnwys gwella olyniaeth yn y diwydiant
- o Llwyddiant Cyswllt Ffermio o ran gwasanaeth cwsmeriaid.

A.2 Cynyddu adnoddau'r FLS i gefnogi cwsmeriaid sy'n ffermio. Byddai dyblu'r adnoddau cyfredol yn gam cyntaf gwerth chweil [**S**].

A.3 Rhaid i swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n cyfathrebu'n uniongyrchol â ffermwyr fod â dealltwriaeth o'r diwydiant yn sgil eu profiad eu hunain a/neu hyfforddiant effeithiol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru - gan fanteisio ar brofiad undebau'r ffermwyr ac asiantaethau allanol eraill. Dylid datblygu cyfres o gymwyseddau ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid/ymgysylltu â chwsmeriaid sy'n ffermio. Dylid cyflwyno rhaglen hyfforddi a datblygu barhaus fel y gall staff ddatblygu sgiliau lluosog sy'n hollbwysig fel y gallant gyfathrebu'n effeithiol wyneb yn wyneb, ar bapur a thros y ffôn [**S**].

A.4 Er nad yw llawer o ffermwyr yn hyderus yn defnyddio cyfrifiadur, mae gan y rhan fwyaf ohonynt ffonau symudol. Rhaid i strategaeth gyfathrebu Llywodraeth Cymru ddefnyddio negeseuon testun i gyfathrebu gwybodaeth amserol a hanfodol i ffermwyr. Dylai systemau sbarduno negeseuon perthnasol i atgoffa ffermwyr o ddyddiadau pwysig yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, dylid atgoffa ffermwyr o ofynion Dyfeisiau Adnabod Electronig (EID) defaid cyn arwerthiannau defaid yr hydref. Gellid hefyd ddefnyddio negeseuon testun amserol i gyfeirio ffermwyr at y wefan [**M**].

A.5 Gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a phartneriaid eraill i addasu'r system Netregs i gyfathrebu rheoliadau i gwsmeriaid mewn fformat sy'n hawdd ei ddeall a'i ddefnyddio [**S**].

A.6 Dylid ymchwilio a datblygu modelau busnes i bwysleisio i gwsmeriaid pa mor fanteisiol yw cydymffurfio â rheoliadau. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r farn gyffredin bod rheoliadau'n achosi anghyfleustra i'r ffermwr a chost i'w fusnes. Trwy ddefnyddio enghreifftiau, eglurwch dermau arwyddocaol fel 'cosb ariannol' a 'thordyletswydd' i ffermwyr mewn iaith syml i ddangos y gost bosibl i ffermwyr unigol, y diwydiant ffermio a'r trethdalwr [**M**].

A.7 Dylai gwefan Llywodraeth Cymru gynnwys rhestr o dermau, acronymau a diffiniadau fel bod cwsmeriaid yn gallu deall yn well. Gall termau fel cynaliadwyedd a bioamrywiaeth olygu gwahanol bethau i wahanol ddarllenwyr [**Q**].

A.8 Dylai'r fewnrwyd/rhyngrwyd ddefnyddio cyfleuster rhybudd i nodi pob datblygiad a chynnig polisi newydd ac fe ddylai fod modd i'r sawl sy'n darllen y rhybudd fynegi bod ganddo ddiddordeb yn y pwnc dan sylw er mwyn hwyluso'r gwaith o adnabod partïon â buddiant [**S**].

A.9 Rhaid i bob datblygiad polisi newydd gynnwys cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu cynhwysfawr, gydag amserlen y polisi newydd hwnnw – gan ddefnyddio pob corff sydd â diddordeb mewn amaethyddiaeth i sicrhau negeseuon cyson [**S**].

## 6. Rheoli Cymorth y PAC

### Colofn 1: Y Taliad Sengl

6.1 Mae'r diwydiant ffermio yn ddiwydiant dibynnol a chymorth y PAC yw ei asgwrn cefn. Mae ffermwyr yn wynebu llawer o ansicrwydd, gan gynnwys cylch cyfredol diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a fydd yn arwain at ailddosbarthu'r Taliad Sengl pan ddaw'r taliad yn seiliedig ar ardal yn 2014. Yn nodweddiadol, y Taliad Sengl yw 80% o incwm busnesau fferm a bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio'n galed i drafod trefniadau pontio fel bod y newidiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol er mwyn rhoi amser i fusnesau addasu.

**Elfennau Incwm Busnesau Fferm yng Nghymru 2009-10 (£)**

**Tabl 3**

| Math o Fferm | Incwm a ddaw o Amaethyddiaeth | Y Taliad Sengl | Taliadau Eraill | Taliadau Tir Mynydd ac Amaeth-amgylchedd | Incwm yn sgil Arallgyfeirio | Incwm Busnesau Fferm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llaeth | 13,500 | 31,500 | 4,000 | 2,400 | 800 | 52,200 |
| LFA Pori Da Byw | - 4,900 | 28,900 | 400 | 7,800 | 1,300 | 33,600 |
| Pori Iseldirol | 1,400 | 26,600 | 800 | 2,300 | 1,200 | 32,300 |
| Pob Math o Fferm | -1,500 | 29,300 | 1,000 | 6,100 | 1,300 | 36,200 |

*Ffynhonnell: Arolwg o Fusnesau Fferm Cymru*

*Noder*
1. *Mae ffigurau wedi'u talgrynnu i'r £100 agosaf, felly efallai na fydd y cyfansymiau'n fanwl gywir.*
2. *Mae 'Taliadau Eraill' yn cynnwys iawndal Twbercwlosis Buchol a thaliadau iawndal eraill.*

6.2 Mae ffermwyr yn cynhyrchu bwyd ac yn rheoli adnoddau amgylcheddol hanfodol (dŵr, pridd, aer, bywyd gwyllt) sydd eu hangen ar y cyhoedd. Y farn gyffredinol yw bod rheoliadau ffermio'n feichus ond maent yn angenrheidiol gan fod ffermwyr yn derbyn llawer o arian cyhoeddus ac yn darparu bwyd a nwyddau amgylcheddol sy'n hanfodol i fywyd. Nid yw ffermwyr bob amser yn deall y berthynas hon na'r angen am reoliadau. Ni allant fforddio gwneud camgymeriadau ar Ffurflen y Cais Sengl (SAF), torri'r rheolau a chael eu cosbi.

6.3 Cyflwynwyd y Taliad Sengl yn 2005 ac mae bellach wedi hen ennill ei blwyf; mae cwsmeriaid yn deall y broses, yr amserlen, y ffurflenni, y gofynion trawsgydymffurfio a'r protocol archwilio ffermydd yn eithaf da. Mae gan Lywodraeth Cymru enw da iawn yn hyn o beth; eleni, mae wedi talu 90% o ffermwyr o dan Gynllun y Taliad Sengl, gyda chyfanswm o £214 miliwn wedi'i rannu rhwng 14,596 o ffermwyr ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod talu. Mae rheoliadau'n nodi y gellir gwneud y taliad unrhyw bryd hyd at fis Mehefin y flwyddyn ganlynol. Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu ei meincnod heriol ei hun trwy wneud taliadau cynnar. Byddai symud yr holl daliadau i ddyddiad yn ddiweddarach yn y cyfnod talu'n achosi llawer o drafferthion i ffermwyr y mae eu llif arian a'u cynlluniau busnes yn seiliedig ar dderbyn y Taliad Sengl ym mis Rhagfyr. Mae'r gadwyn fusnes i fyny ac i lawr

hefyd yn dibynnu ar ffermwyr yn talu eu biliau yr adeg yma o'r flwyddyn. Mae'r anawsterau gyda'r Taliad Sengl o safbwynt y cwsmer yn cynnwys y canlynol:

- Mae cyfnod ymgeisio Ffurflen y Cais Sengl yn dod i ben ar 15 Mai bob blwyddyn. Y CE sy'n pennu'r dyddiad hwn, sy'n cyd-ddigwydd ag adeg brysur iawn i ffermwyr da byw (ŵyna a lloia).

- Mae newidiadau bach yn cael eu gwneud i Ffurflen y Cais Sengl bron bob blwyddyn.

- Y cymhlethdod tybiedig yn sgil cyhoeddi canllawiau llawn y cynllun bob blwyddyn – byddai'n well gan rai ffermwyr gael y diweddariadau ar newidiadau'n unig. Mae'r ffurflen yn faith, a chredir bod Ffurflen y Cais Sengl yn Lloegr yn symlach gyda mwy o wybodaeth wedi'i hargraffu ymlaen llaw. Mewn gwirionedd, mae Ffurflenni'r Cais Sengl yn wahanol iawn yng Nghymru gan fod hawliadau amaeth-amgylchedd yn rhan o'r ffurflen, tra bod 'Natural England' yn rheoli proses hawliadau ar wahân yn Lloegr. Yng Nghymru, gofynnir am wybodaeth am dda byw ar y Ffurflen er mwyn crynhoi data dadansoddi risg i fodloni gofynion rheoli, ac mae'n fanylach nag unrhyw beth sydd ar gael yn uniongyrchol gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS). Mae'n ymddangos bod yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn Lloegr yn gallu dibynnu ar ddata'r BCMS yn unig.

- Ofn gwneud camgymeriadau a methu'r prawf dilysrwydd, gan arwain at ohirio neu golli taliadau. Yn y rhan fwyaf o flynyddoedd, mae 60% o Ffurflenni'r Cais Sengl yn pasio rownd gyntaf y dilysu (yn 2011, dim ond 40% a basiodd oherwydd ailfapio), yn aml oherwydd mân newidiadau fel diwygio maint caeau. Mae yna sawl ffordd o lenwi'r ffurflen; mae llawer o ffermwyr yn ei llenwi eu hunain, ond mae rhai'n defnyddio asiantau, ymgynghorwyr ac undebau'r ffermwyr. Mae llawer o ffermwyr yn ciwio yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn y pythefnos olaf (hyd at 15 Mai) i gyflwyno'r ffurflen a chael un o'r swyddogion i'w gwirio'n fras. Ar yr olwg gyntaf, mae'r busnesau mwy 'proffesiynol' yn fwy tebygol o ofyn am gymorth arbenigol i lenwi'r ffurflen.

- Ofn archwiliadau oherwydd y farn gyffredinol bod y rhan fwyaf o ffermwyr yn cael eu harchwilio ac yn cael eu cosbi. Mewn gwirionedd, mae'r gyfradd archwilio'n cael ei rhagnodi ac mae wedi bod yn gostwng (archwiliwyd 1% o ryw 17,000 o hawlwyr mewn perthynas â thrawsgydymffurfio, 3% i 5% mewn perthynas â gwartheg a 3% mewn perthynas â defaid, 5% mewn perthynas ag amaeth-amgylchedd mewn parth targed), ac mae torri rheolau'n gyffredin mewn perthynas â rhifau adnabod a symud gwartheg.

- Mae camgymeriadau'n asgwrn cynnen rhwng cwsmeriaid a Llywodraeth Cymru. Mae yna gategori 'Camgymeriad Amlwg' a allai fod yn wall clerigol syml ar ffurflen, fel anghofio ticio parseli tir ar Ffurflen y Cais Sengl. Efallai y bydd y sawl sy'n hawlio yn sylweddoli'r camgymeriad cyn i'r cais gael ei ddilysu ac yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Ranbarthol. Yna, bydd yn dod yn 'Gamgymeriad Hysbysadwy' a gellir ei gywiro heb gosb. Caiff camgymeriadau amlwg nad yw'r sawl sy'n hawlio yn rhoi gwybod i'r Swyddfa Ranbarthol amdanynt eu trin yn unol â chanllawiau'r CE, sy'n cynnwys cosbau penodol. Mae dogfen weithio ddiweddar yn cynnig mwy o

ganllawiau ar y dehongliad o gamgymeriadau amlwg, ond mae yna ansicrwydd ynglŷn â'r maes hwn o hyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei beirniadu gan archwilwyr y CE am fod o blaid ffermwyr yn rhy aml o gymharu ag Aelod-Wladwriaethau eraill h.y. mae Cymru'n adrodd mwy o gamgymeriadau amlwg nag unrhyw Aelod-Wladwriaeth arall. Mae ffermwyr yn poeni y bydd gwallau clerigol ar y ffurflen gais yn arwain at gosb, ac efallai y gall Llywodraeth Cymru gyflwyno mesurau amddiffyn pan fyd modd gwneud ceisiadau'n electronig.

6.4 Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda grŵp rhanddeiliaid y PAC sydd fel arfer yn cyfarfod cyn dechrau'r cyfnod ymgeisio i drafod newidiadau i'r ffurflen, ond nid yw'r dulliau ymgysylltu'n berffaith o bell ffordd. Yn ôl y sôn, weithiau gwneir newidiadau i'r ffurflen a'r rheolau ar ôl y cyfarfod hwn a gall cyfarfodydd gael eu cynnal yn anaml iawn. Un agwedd fwy cadarnhaol yw bod Llywodraeth Cymru'n darparu hyfforddiant i asiantau ac ymgynghorwyr sy'n helpu ffermwyr drwy'r broses, i esbonio newidiadau i'r ffurflen a'r rheolau.

6.5 Bydd proses ymgeisio Ffurflen y Cais Sengl yn newid yn fawr pan fydd ceisiadau ar-lein yn cael eu cyflwyno yn 2014. Bydd hyn yn gwella'r gyfradd ddilysu a phroses y cwsmeriaid trwy leihau gwallau dynol; gwella effeithlonrwydd mynediad i hawliadau a chofnodion cwsmeriaid a'r cyfle i'w diweddaru; gwella hwylustod a chyflymder y gwaith dilysu hawliadau; ac yn darparu strwythur cyfathrebu a fydd yn gynt, yn fwy amserol ac effeithlon.

**Colofn 2: Amaeth-amgylchedd**

6.6 Mae i Golofn 2 4 echel. Mae tua 80% o'r gyllideb datblygu gwledig yn cael ei gwario ar gynlluniau amaeth-amgylchedd Echel 2. Mae'r gwaith o gyflwyno'r cynllun newydd, Glastir, wedi bod yn anodd. Mae'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn yn cynnwys dileu cynlluniau poblogaidd (Tir Gofal, Tir Mynydd), cymhlethdod tybiedig dewisiadau a rheolau Glastir, y dybiaeth sydd fod taliadau'n is a'r diwylliant gelyniaethus sydd yn anffodus wedi datblygu rhwng Llywodraeth Cymru ac undebau'r ffermwyr. Yn y pen draw, mae'r cynllun yn ddelfrydol o ran gofynion y CE ar yr amgylchedd ond mae'n ymddangos ei fod wedi'i gyflwyno'n rhy gynnar ac yn frysiog cyn bod cyfle i ddatblygu manylion polisi'r rhaglen yn iawn mewn partneriaeth go iawn gyda rhanddeiliaid.

**Apelau'r PAC**

6.7 Gall ffermwyr ddefnyddio proses apelio sy'n cynnwys 2 gam ac sy'n cwmpasu amrywiaeth o gynlluniau, o gynllun y Taliad Sengl i daliadau iawndal TB is. Cynhelir yr adolygiad cam 1 gan y Swyddfa Ranbarthol a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol, a chynhelir yr adolygiad cam 2 gan banel annibynnol sy'n gwneud argymhellion i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am Daliadau Gwledig, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Cyn yr adolygiad cam 2, bydd yr Uned Apelau yng Nghaerdydd yn adolygu'r achos i weld a oes unrhyw beth y gellir ei wneud i alluogi taliad. Mae'r uned hefyd yn tynnu sylw at heriau posibl i bolisi cyfredol ar ffurf Adolygiadau Barnwrol, sydd yn y gorffennol wedi arwain at newid polisïau/arferion ar draws Taliadau Gwledig a ffyrdd o osgoi ymgyfreitha drud.

6.8 Derbynnir tua 300 o apelau cam 1 bob blwyddyn o gymharu â thua 30,000 o daliadau ar draws pob cynllun, a chânt eu prosesu'n gyflym fel arfer er bod

ansawdd yr ymatebion yn amrywio'n fawr. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r Uned Apelau dreulio cryn amser yn ymchwilio i apelau a'r polisi sylfaenol cyn amddiffyn barn Llywodraeth Cymru mewn gwrandawiad panel cam 2. Mae tua 60 o apelau'n mynd ymlaen i gam 2 bob blwyddyn ac, ar hyn o bryd, nid oes angen i 23% o'r apelau cam 2 fynd gerbron y panel oherwydd daethpwyd o hyd i ffordd o alluogi taliad llawn neu rannol. Mae tua 14% o'r gweddill wedi llwyddo gerbron y panel oherwydd gwybodaeth newydd a ddaeth i law yn ystod y gwrandawiad.

6.9 Nid oes swyddogion unigol yn y Swyddfeydd Rhanbarthol sy'n gwbl gyfrifol am waith apelau gan mai eu prif ddyletswydd yw dosbarthu'r taliadau ar amser i'r rhan fwyaf o ffermwyr yng Nghymru. Mae eu diffyg profiad o apelau'n golygu nad ydynt bob amser yn gwybod pa gwestiynau i'w gofyn na pha faterion sydd angen mynd i'r afael â nhw ac nid yw eu sgiliau drafftio bob amser cystal ag y gallent fod. Mae hyn yn ei dro yn cael effaith ar gam 2 y broses.

**Argymhellion**

A.10 Dylid talu arian cyhoeddus i ffermwyr ar sail contract ffurfiol ym mhob achos. Mae contractau da yn fwy ystyrlon o ran datblygu rhanberchenogaeth a chyfrifoldeb. Fodd bynnag, rhaid i gontractau fod yn hawdd eu deall ac yn dryloyw, a dylent gynnwys y wybodaeth hanfodol yn unig. Dylai undebau'r ffermwyr, ynghyd â chyrff perthnasol eraill, gefnogi Llywodraeth Cymru'n llawn pan fydd yn cymryd camau yn erbyn y rhai sy'n torri amodau rheolau eu contractau [**M**].

Noder: Mae pob un o'r 40,000 o ffermwyr yn agored i gael eu cosbi os ydynt yn torri'r gyfraith mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid a'r amgylchedd.

A.11 Gofalwch fod y gwaith o ddatblygu'r systemau ar-lein ar gyfer holl gynlluniau'r PAC, gan ddechrau gyda'r Taliad Sengl a Glastir, yn cynnwys pob parti â buddiant trwy'r Grŵp Rhanddeiliaid Systemau Ar-lein. Ni ddylai 'ar-lein' olygu dim mwy na lanlwytho Ffurflen y Cais Sengl fel y mae, gyda'i diffygion presennol. Rhaid sicrhau bod y wybodaeth wedi'i hargraffu /ei chofnodi ymlaen llaw a bod y wefan yn hawdd ei defnyddio – mae system PAYE ar-lein yn enghraifft dda. Rhaid tynnu sylw clir at ofynion deddfwriaethol a dylid sicrhau bod dull o gofnodi gwybodaeth ychwanegol ar gael i ffermwyr sy'n gwerthfawrogi gwybodaeth fel enwau caeau. Bydd y treialon arfaethedig ym mlwyddyn 1 a'r hyfforddiant cynhwysfawr yn hanfodol a hwyrach y gellid ystyried ffyrdd o gymell ceisiadau ar-lein e.e. hyfforddiant am ddim [**M**].

A.12 Dylai Ffurflen y Cais Sengl ganolbwyntio ar gasglu gwybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y ddeddf yn hytrach na gwybodaeth ychwanegol a gesglir / sydd ar gael trwy systemau data eraill [e.e. Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS)]. Rhaid i systemau ddod yn fwy integredig fel y gellir rhannu data [**M**].

A.13 Rhaid i Lywodraeth Cymru adolygu ei hagwedd at lefel y gosb am gamgymeriadau trawsgydymffurfio 'bwriadol' [**S**].

A.14 Dim ond bob yn ail flwyddyn y dylid anfon canllawiau ar Ffurflen y Cais Sengl at ffermwyr. Dylid anfon diweddariadau, yn rhoi manylion y newidiadau'n unig, at ffermwyr bob blwyddyn. Dylid gwneud mwy o ymdrech i groesgyfeirio'r diweddariad i'r canllawiau llawn ar gyfer cwsmeriaid sydd am gael mwy o fanylion [**S**].

A.15 Gofalwch fod y gwaith o ddatblygu ceisiadau ar-lein yn cynnig y cyfleuster i ymgeiswyr groesgyfeirio cais y flwyddyn bresennol (e.e. Ffurflen y Cais Sengl) gyda cheisiadau’r blynyddoedd blaenorol fel y gallant wirio’r ffurflen eu hunain a lleihau’r risg o gamgymeriadau [**M**].

A.16 Dylid gwella dulliau o gydweithio â Grŵp Rhanddeiliaid y PAC trwy drefnu cyfarfodydd yn rheolaidd ac yn amserol (cyn gwneud newidiadau), gan sicrhau bod pryderon y grŵp yn cael eu trafod a bod yr holl newidiadau i reolau Ffurflen y Cais Sengl a’r Taliad Sengl yn cael eu hesbonio’n glir a’u deall [**Q**].

A.17 Ddiwedd mis Tachwedd, dylid anfon llythyrau at hawlwyr Ffurflen y Cais Sengl na fyddant yn derbyn y taliad ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod talu (1 Rhagfyr bob blwyddyn), gan nodi, pan fo’r rheoleiddio’n caniatáu hynny, yr amserlen ar gyfer datrys y broblem, , enw cyswllt (rheolwr achos) a’r rheswm dros yr oedi [**S**].

A.18 Dylid gwneud yn siŵr bod mwy o hyfforddiant ar gael i filfeddygon preifat ac archwilwyr Gwarant Fferm fel eu bod yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt, a’u bod yn hyderus i gyfathrebu arferion gorau ar ofynion rheoleiddio (trawsgydymffurfio, Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da, iechyd anifeiliaid ac ati) [**S**].

A.19 Dylai Taliadau Gwledig Cymru sefydlu tîm apelau arbenigol yn un o’r Swyddfeydd Rhanbarthol i fynd i’r afael â’r holl apelau Cam 1 er mwyn gwella gwybodaeth a chymhwysedd staff, cysondeb yn gyffredinol, ansawdd yr apelau Cam 1 ac amserau ymateb i gwsmeriaid [**S**].

## 7. Lleihau nifer yr archwiliadau

### Y gred a'r gwirionedd

7.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ei gorau glas i leihau nifer yr archwiliadau fferm ac i weithio'n agosach gyda phartneriaid i'w symleiddio. Mewn gwirionedd, dim ond canran fach o ffermydd sy'n cael eu harchwilio o dan y PAC. Mae ffeithiau hanfodol archwiliadau Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW) wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

**Tabl 4**

| **Mesur** | **Hawlwyr Ffurflen y Cais Sengl (%)** | **Archwiliadau sy'n cydymffurfio (%)** |
|---|---|---|
| Archwiliadau trawsgydymffurfio | 1 (tua 200 o ffermydd) | 93 |
| Archwiliadau gwartheg RIW | 3 i 5 (tua 750) | 65 |
| Archwiliadau defaid RIW | 3 (tua 750) | 80 |

7.2 Rhaid i bob buches gael ei phrofi yn ôl rheoliadau TB buchol yng Nghymru, bob blwyddyn o leiaf a chyn eu symud, ar gyfer TB buchol, sy'n gallu cael effaith andwyol ar fusnesau, yn enwedig os deuir o hyd i wartheg adweithiol neu anifeiliaid dan amheuaeth. Ni fydd profion yn arwain at gosbau os bydd ffermwyr yn cydweithio ac mae taliadau iawndal ar gyfer gwartheg adweithiol wedi'u graddio i annog ffermwyr i gydymffurfio (100% o'r taliad os bydd y ffermwr yn cydymffurfio'n llawn). Cynhelir archwiliadau Gwarant Fferm bob 18 mis ac fe'u gwelir fel dull o farchnata. Yn aml, cynhelir archwiliadau amgylcheddol am reswm penodol a allai fod yn gysylltiedig â chynllunio neu safle dynodedig penodol. Mae archwiliadau safonau masnach yn seiliedig ar risg yn bennaf.

7.3 Mae archwiliadau'n rhan annatod o fesurau rheoli rheoleiddio ac er y dylid gallu mynd ati mewn ffordd fwy trefnus, gan gynnwys lleihau ac osgoi dyblygu, ni fydd hyn yn lleihau'r angen i gynnal archwiliadau.

7.4 Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn cwyno am nifer yr archwiliadau a'r ffaith ei bod yn ymddangos bod yna lawer o orgyffwrdd rhwng y gwahanol awdurdodau. Er enghraifft, mae Safonau Masnach Awdurdodau Lleol yn archwilio cofnodion symud a meddyginiaethau a fydd hefyd yn cael eu harchwilio gan FAWL. Bydd y ddau sefydliad yn archwilio gwahanol agweddau ar y system gynhyrchu, ond y gorgyffwrdd sy'n naturiol yn cythruddo'r cwsmer.

7.5 Mae'r tabl canlynol (tudalen 27) yn rhoi manylion y gwahanol archwiliadau y gellid eu cynnal ar fferm da byw cymysg, a'r rheini, o bosibl, yn cael eu cynnal un ar ôl y llall.

**Tabl 5**

| Archwiliad | Corff Archwilio |
|---|---|
| Trawsgydymffurfio (yn cynnwys: GAEC, adnabod gwartheg ac adnabod defaid) | Arolygiaeth Wledig Cymru |
| System Integredig Gweinyddu a Rheoli (IACS) | Arolygiaeth Wledig Cymru |
| Lles anifeiliaid | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol (AHVLA) |
| Prawf TB (rheolaidd a chyn symud) | Milfeddygon Swyddogol sy'n gweithio ar ran yr AHVLA, neu Swyddogion Milfeddygol yr AHVLA |
| Gwarant fferm | FAWL a/neu brosesydd bwyd a/neu adwerthwr mawr |
| Symudiadau/ meddyginiaethau da byw | Safonau Masnach |
| Iechyd a Diogelwch | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) |
| Cais cynllunio | Swyddog Cynllunio Lleol ac efallai syrfëwr bywyd gwyllt (e.e. arolwg ystlumod) |
| Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| Trwydded amgylchedd (e.e. tynnu dŵr) | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Cyswllt Ffermio | Swyddog Llywodraeth Cymru |
| Trawsgydymffurfio/ GAEC | Archwilydd yr UE (ail-gynnal archwiliad blaenorol) |

7.6 Llwyddodd Adolygiad Llywodraeth Cymru o Fiwrocratiaeth i gyfuno rhai archwiliadau, fel archwiliadau TB buchol a thrawsgydymffurfio (adnabod gwartheg), ac ymweliadau gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ac Arolygiaeth Wledig Cymru, ond nid yw hyn yn digwydd bob tro'n ddi-ffael oherwydd arferion rhannu data anghyson a pheth gwrthwynebiad gan asiantau. Mae datblygiadau technolegol hefyd wedi lleihau'r angen am rai archwiliadau; erbyn hyn, cynhelir y rhan fwyaf o archwiliadau trawsgydymffurfio sy'n gysylltiedig â'r tir trwy ddull synhwyro o bell.

7.7 Ar wahân i amharu ar fusnes, mae archwiliadau yn codi braw ar ffermwyr, yn enwedig archwiliadau'r PAC sy'n gallu arwain at gosbau, ac mae llawer dan y camargraff nad oes modd osgoi cael eu cosbi. Pe baent ar gael, byddai canllawiau a rhestri gwirio cyn archwilio yn helpu ffermwyr i baratoi, yn lleihau straen ac yn cynyddu cydymffurfiaeth.

## Rheoli risg

7.8 Rhagnodir pa mor aml y cynhelir archwiliadau mewn perthynas â chynlluniau'r PAC, ond nid yw hyn yn wir i'r un graddau gydag archwiliadau fferm Awdurdodau Lleol. Mae yna fwy o gyfle yn gyffredinol am ddulliau seiliedig ar risg / cydnabyddiaeth a enillir ac mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn. Mae Rheoliadau'r CE yn caniatáu i asiantaethau sy'n talu ddefnyddio gwybodaeth, lle mae yna dystiolaeth o lefelau cydymffurfio uwch, o ffynonellau eraill fel gwarant fferm wrth benderfynu ar asesiad seiliedig ar risg. Nid yw cyrff Gwarant Fferm yn defnyddio'r un cosbau â chyrff swyddogol eraill ac mae rhai cyrff o'r farn nad yw archwiliadau Gwarant Fferm â'r un lefel o archwilio gan drydydd partïon. O 2012 ymlaen, bydd yr AHVLA yn defnyddio canlyniadau archwiliadau FAWL wrth wneud eu dewisiadau seiliedig ar risg. Yn ôl astudiaeth gan Brifysgol Warwick, mae ffermydd sydd wedi derbyn gwarant fferm yn llawer llai tebygol o dorri deddfwriaeth iechyd a lles anifeiliaid. Mae FAWL wrthi'n paratoi dull seiliedig ar risg a fydd yn arwain at lai o archwiliadau i fusnesau sy'n cydymffurfio'n llawn ac yn canolbwyntio mwy ar aelodau trafferthus. Mae hefyd yn ystyried defnyddio archwiliadau ar-lein o bell ar gyfer rhai agweddau ar yr archwiliad. Mae archwiliadau hylendid llaeth gorfodol wedi'u cyfuno ag archwiliadau Gwarant Ffermydd Godro. Mae Arolygiaeth Wledig Cymru yn defnyddio ei data ei hun ar gwsmeriaid, megis cofnodion archwiliadau boddhaol blaenorol mewn dull archwilio seiliedig ar risg.

7.9 Mae rhannu data'n broblem gyffredin; mae Arolygiaeth Wledig Cymru'n rhannu rhywfaint o ddata gyda FAWL ond mae yna rai materion cyfrinachedd a chyfreithlondeb i'w datrys. Mae Arolygiaeth Wledig Cymru'n rhannu gwybodaeth gydag Awdurdodau Lleol, er bod ALlau yn ei chael hi'n anodd dehongli'r data. Mae rhywfaint o ddata BCMS ar gael y gall Arolygiaeth Wledig Cymru ei gynnwys yn yr asesiad risg, gan gynnwys data ar geisiadau hwyr am basbortau gwartheg ac ystadegau ar farwolaeth gwartheg. Mae'r BCMS yn cynnal yr asesiad risg Gwartheg a Defaid ar ran Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r broses yn cael ei hadolygu'n flynyddol a gwneir newidiadau i wella effeithiolrwydd yr asesiad risg. Rhaid i benderfyniadau ar newidiadau gael eu cytuno gyda Lloegr a'r Alban. Mae gan y BCMS lawer o ddata, gan gynnwys data ar efeillio gwartheg, newid tagiau a data geni'r un diwrnod, a allai wella dull archwilio llawer o gyrff archwilio pe bai ar gael iddynt. Nid yw'r data hwn ar gael ar hyn o bryd; nid yw'n glir ai rhesymau yn ymwneud â diogelu data sy'n gyfrifol am hyn.

7.10 Gall cyfuno archwiliadau leihau nifer yr ymweliadau archwilio, ond ni fydd yn ateb i bob dim. Fel rhan o'r Adolygiad o Fiwrocratiaeth, anogwyd milfeddygon i roi gwybod i Arolygiaeth Wledig Cymru cyn cynnal profion TB er mwyn ceisio cynnal y ddau archwiliad ar yr un diwrnod. Cafwyd ymateb cymysg gan filfeddygon preifat gan fod rhai yn amharod i gael eu cysylltu ag archwiliadau Arolygiaeth Wledig Cymru. Fodd bynnag, mae rhai ffermwyr yn nodi bod yr archwiliad 'dwbl' yn rhoi gormod o straen arnynt ac y byddai'n well ganddynt gael archwiliadau ar wahân.

## Cymhwysedd archwiliadau

7.11 Mae'r holl reoliadau sy'n effeithio ar ffermwyr yn cael eu rheoli gan amrywiaeth o reoleiddwyr sy'n anfon eu harchwilwyr eu hunain i'r ffermydd. Mae eu dulliau'n amrywio'n fawr, ond yr un yw eu cymhwysedd o ran archwilio. Rôl

blismona sydd gan archwilwyr yn anochel, ond mae'r archwilwyr mwyaf effeithiol yn cael eu parchu gan ffermwyr ac yn fwy tebygol o gyflawni lefelau cydymffurfio uwch. Pan fyddant yn cael eu defnyddio i'w llawn botensial, gall archwilwyr fod yn gynghorwyr yn ogystal â gorfodwyr a dylent fod yn warchodwyr arferion gorau. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi gweithio'n galed i ddatblygu fframwaith datblygu technegol er mwyn hyfforddi, monitro ac achredu staff rheoleiddio ar allu a phrofiad sydd wedi gwella cysylltiadau cwsmeriaid a'r profiad archwilio i'r cwsmer.

7.12 O ganlyniad i'r Adolygiad o Fiwrocratiaeth, crëwyd yr Operational Delivery Partners Forum (OPDF) a roddodd gyfle i'r holl archwilwyr rannu profiadau, arferion gorau, protocolau a phryderon. Ar ôl dechrau da, mae'n ymddangos bod yr OPDF wedi datblygu'n fforwm 'arbenigol' gyda chylch gwaith cul ac, o bosibl, ffocws ar iechyd anifeiliaid.

7.13 Mae'r LBRO wedi cael profiad o gynnal seminarau arweinyddiaeth llwyddiannus i reoleiddwyr sy'n eu galluogi i weld sut beth yw rheoleiddio o safbwynt y cwsmer. Mae hefyd wedi cynnal gweithdai busnes lle mae rheoleiddwyr lleol a chenedlaethol a busnesau lleol yn dod ynghyd i drafod materion a chytuno ar y ffordd ymlaen tuag at well rheoleiddio. Mae'r LBRO yn barod i helpu Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r dull hwn gyda ffermwyr.

**Cosbau**

7.14 Mae ffermwyr yn ofni cosbau ariannol, a dyma sy'n bennaf wrth wraidd eu gofid ynglŷn ag archwiliadau Arolygiaeth Wledig Cymru. Cred llawer o ffermwyr fod cosbau'n bethau cyffredin, eu bod yn rhy fawr ac yn llenwi coffrau Llywodraeth Cymru. Mewn gwirionedd, mae llawer o'r cosbau sy'n berthnasol i ddwy Golofn y PAC yn cael eu disgrifio'n fanwl yn y ddeddfwriaeth. Caiff gwallau trawsgydymffurfio eu diffinio fel gwallau Esgeulus neu Fwriadol. Mae'r rheoliadau'n diffinio'r matrics cosbau, sy'n amrywio o 1% (mân wall) i 5% (difrifol) ar gyfer gwallau esgeulus ac o 15% i 100% ar gyfer gwallau bwriadol, tra bydd gwneud gwall esgeulus dro ar ôl tro yn arwain at dreblu'r gosb. Dim ond os bydd tystiolaeth glir yn dangos bod yr hawlydd yn ymwybodol o'r gwall y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r gosb fwriadol; er enghraifft, os yw'n ddeiliad Cytundeb Amaeth-amgylchedd ac yn torri'r GAEC neu os yw wedi cael llythyr sy'n nodi ei fod wedi methu â gosod tagiau clust newydd o fewn 28 diwrnod. Rhaid i'r rhan fwyaf o gosbau ariannol (75%) gael eu dychwelyd i'r Comisiwn Ewropeaidd, ond bydd y Comisiwn yn sicrhau bod y gweddill ar gael i Lywodraeth Cymru i'w helpu i ariannu'r mesurau rheoli.

**Archwiliadau hylendid cig**

7.15 Mae archwiliadau cig yn haeddu sylw arbennig oherwydd cryfder y safbwyntiau a fynegwyd ar y pwnc hwn wrth gasglu tystiolaeth. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) sy'n gyfrifol am sicrhau mesurau rheoli swyddogol ar gynhyrchu cig er mwyn dilysu bod gweithredwyr busnesau bwyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid mewn sefydliadau cig cymeradwy. Mae mesurau rheoli swyddogol yn cynnwys gwiriadau ar anifeiliaid byw ac archwiliadau ar ôl lladd, ac archwiliadau i sicrhau bod gweithredwyr busnesau bwyd yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros gynhyrchu cig yn ddiogel. Mae'r

diwydiant cig yn gwerthfawrogi'r angen i warantu cynnyrch ond mae'n poeni am y gost ychwanegol i fusnesau.

7.16 Ar hyn o bryd, mae'r diwydiant yn poeni y bydd gweithredwyr graddfa fach sy'n derbyn cymhorthdal yn gorfod aros yn y maes cynhyrchu ar raddfa fach gan y bydd hi'n anymarferol iddynt ehangu. Mae'r FSA yn nodi y bydd yn gweithredu cyfartaledd treigl bob blwyddyn fel y gellir nodi newidiadau yn y cyfraddau lladd a phrosesu, ac yna bydd y cymhorthdal yn cael ei weithredu fesul haen. Mae proseswyr canolig eu maint yn poeni y bydd costau'n codi 300 i 400% mewn rhai achosion, ac mae gweithredwyr mawr yn poeni y byddant yn gorfod ysgwyddo cyfran anghymesur o'r costau er mwyn gwrthbwyso cymorthdaliadau mewn meysydd eraill. Mae'r FSA wedi cadarnhau na fydd rhaid i unrhyw weithredwr dalu mwy na'r gost adennill lawn. Mae'r diwydiant amaethyddiaeth yn teimlo nad oes digon o dryloywder mewn perthynas â chyfrifiadau costau rhedeg yr FSA ac mae anghytuno ynglŷn â'r costau sy'n briodol i'w cynnwys. Mae'r FSA o'r farn ei bod yn gwbl dryloyw a'i bod yn cael ei harchwilio'n allanol. Mae'r FSA yn contractio cyflogaeth archwilwyr milfeddygol i gwmnïau sydd hefyd yn ychwanegu cost, ac mae contractau cyflogaeth y milfeddygon hefyd yn peri pryder i broseswyr cig. Mae yna bryder ynglŷn â gwaith archwilio annibynnol yr FSA a ffioedd archwiliadau cig sydd, o'u mesur ar sail niferoedd, yn uwch na'r ffioedd yn holl Aelod-wladwriaethau eraill yr UE.

7.17 Mae Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) wedi cyhoeddi adroddiad ar foch sy'n nodi y dylai'r archwiliad o garcas ar ôl lladd gael ei ddisodli gan system archwilio a fydd yn galluogi gweithredwyr busnesau bwyd (FBOs) i gyflawni rhai o'r swyddogaethau archwilio sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan staff yr FSA. Byddai'r FSA yn dal i archwilio eu perfformiad. Mae'r protocolau archwilio hefyd yn cael eu hystyried er mwyn sicrhau eu bod yn ymateb i'r risgiau gwirioneddol mewn perthynas â pheryglon iechyd yr anifeiliaid penodol sy'n cael eu lladd. Ychydig iawn o fudd sydd i archwiliadau carcas bellach gan nad yw hi'n hawdd canfod achos o halogi bacteriol trwy archwiliad gweledol. Bydd yr EFSA yn cyflwyno adroddiad ar wartheg a defaid yn 2012.

7.18 Argymhellodd adroddiad Richard Macdonald i Defra y dylid caniatáu i ladd-dai sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau gael eu harchwilio gan drydydd partïon, yn unol â'r hyn a ganiateir gan Reoliadau'r CE. Ni fyddai trydydd partïon o'r fath â gorbenion Adran o'r Llywodraeth a gallai arwain at y ffioedd yn gostwng 30%.

7.19 Mae yna lawer o gwestiynau i'w hateb cyn y gellir mynd ati i fwrw ymlaen â chynigion yr FSA ar archwilio cig ac adennill costau llawn. Ni ddylai trefn archwilio gostus ac amhriodol roi diwydiant cig Cymru o dan anfantais.

## Argymhellion

A.20 Dylai gwaith yr Operational Delivery Partners Forum gael ei gyflawni gan Grŵp Cynghori Gorchwyl a Gorffen newydd sy'n cwmpasu archwiliadau a chofnodion. Bydd hyn yn rhoi cyfle rheolaidd i reoleiddwyr ddysgu gan ei gilydd, rhannu protocolau archwilio, datblygu dulliau rhannu data gan gynnwys dileu rhwystrau, cynnal mwy o archwiliadau seiliedig ar risg i leihau lefel gyffredinol a pha mor aml y cynhelir archwiliadau a lledaenu arferion gorau [**Q**].

A.21 Pan fo'r rheoliadau'n caniatáu hynny, rhaid i Lywodraeth Cymru arwain partneriaid i ddatblygu cydnabyddiaeth a enillir fel ffactor allweddol wrth benderfynu pa ffermydd i'w harchwilio. Ni ddylai'r ffermwyr hynny sydd â hanes o gydymffurfiaeth lawn ac sy'n manteisio ar yr hyfforddiant a'r cymorth sydd ar gael iddynt gael eu harchwilio cyn amled â ffermwyr llai diwyd [**S**].

A.22 Dylai Taliadau Gwledig Cymru weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu a chyflwyno fframwaith cymwyseddau cyffredin ar gyfer pob archwilydd fferm; yn cynnwys hyfforddi, monitro ac achredu [**S**].

A.23 Dylai Taliadau Gwledig Cymru gyflwyno – o fewn gofynion rheoleiddio – rhestr wirio syml (gyda fersiwn ar-lein) i ffermwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer archwiliad. Gallai asiantaethau eraill ddilyn y dull hwn hefyd [**Q**].

A.24 Dylai Taliadau Gwledig Cymru weithio gyda'r FLS i drefnu digwyddiadau i esbonio archwiliadau i ffermwyr, gan eu helpu i baratoi a lleddfu eu hofnau [**Q**].

A.25 Yn y dyfodol, pan fydd milfeddygon preifat yn cael eu cyflogi gan y llywodraeth i gynnal profion am bTB / archwiliadau eraill, bydd yn ofynnol i'r milfeddygon preifat roi gwybod ymlaen llaw i Arolygiaeth Wledig Cymru fel y gellir ystyried penderfyniadau ar ymweliadau ar y cyd ym mhob achos [**Q**]. Yn y tymor canolig, dylai'r trefniadau hyn ddod yn rhai contractol.

A.26 Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r LBRO i ddarparu seminar blynyddol ar arweinyddiaeth yng Nghymru wledig ar gyfer cyrff archwilio, i ddechrau yn 2012 [**Q**].

A.27 Rhaid gweithio gyda'r LBRO i dreialu Gweithdy Busnes gwledig yn 2012 i annog rheoleiddwyr a busnesau fferm i weithio gyda'i gilydd tuag at well rheoleiddio [**Q**].

A.28 Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda Defra a Llywodraeth yr Alban i roi pwysau ar yr FSA i ganiatáu asesiad annibynnol a thryloyw o'u costau rhedeg ac i arfarnu'n llawn modelau archwilio cig amgen a fydd yn adeiladu ar argymhellion Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) [**S**].

A.29 Dylai pob rheoleiddiwr ddefnyddio dull y ffeithlen ar Drawsgydymffurfio i gyfathrebu elfennau hanfodol yr holl reoliadau i ffermwyr mewn fformat syml [**M**].

## 8. Diogelu iechyd a lles anifeiliaid gan sicrhau hyblygrwydd wrth symud

### Atal a rheoli clefydau

8.1 Mae mesurau rheoli adnabod a symud anifeiliaid wedi esblygu dros amser i fynd i'r afael â her sy'n mynd yn fwyfwy cymhleth. Mae yna gymorth ar bob lefel – er nad yw'r gweithredu'n effeithiol bob amser – yn y diwydiant i ddiogelu iechyd a lles anifeiliaid, yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl, i atal clefydau endemig ac ecsotig rhag lledaenu. Mae argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau (FMD) yn 2001, a'r argyfwng llai yn 2007 yn ogystal â phroblem y Tafod Glas yn yr un flwyddyn, yn parhau'n fyw yn y cof. Profodd argyfwng 2001 yn enwedig pa mor andwyol y gall clefyd ecsotig ei fod i dda byw, busnesau fferm, yr economi wledig ehangach a chymunedau, a pha mor gostus y gall hynny fod i lywodraeth. Mae clefyd endemig fel bTB yn fwy llechwraidd o bosibl, ond mae'n gallu bod yr un mor andwyol i ffermydd ac yn gostus iawn i Lywodraeth Cymru o ran rhoi rhaglen ddileu ar waith.

8.2 Mae mwy o bwerau, ynghyd â'r cyllidebau cysylltiedig, wedi'u datganoli ers 2001 ac, ym mis Ebrill 2011, trosglwyddwyd £16 miliwn o Defra i Lywodraeth Cymru i dalu'r costau blynyddol sy'n gysylltiedig â gwaith rheoleiddio'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol (AHVLA) yng Nghymru. Mae'r cyfrifoldeb yn ymestyn i dalu costau mewn perthynas ag achosion o glefydau ecsotig yn y dyfodol, felly mae'n hawdd deall y flaenoriaeth i leihau risg yn y polisi iechyd a lles anifeiliaid. Yn 2001, costiodd yr argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau yng Nghymru £102 miliwn i Defra. Nid yw clefydau anifeiliaid yn cymryd unrhyw sylw o ffiniau gweinyddol neu ddaearyddol ac mae agwedd gydgysylltiedig at bolisi ar y naill ochr i'r ffin a'r llall yn hanfodol.

8.3 Mae 'Rhannu Cyfrifoldeb a Chost' yn cael llawer o sylw wrth ystyried risgiau ym myd ffermio yn gyffredinol, ond yn enwedig mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r diwydiant ffermio dalu o leiaf ran o'r gost pe bai clefyd ecsotig neu argyfwng iechyd mawr yn taro Cymru yn y dyfodol. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yn y dyfodol gan fod y cyfrifoldeb dros y gyllideb wedi'i drosglwyddo'n gyfan gwbl i Lywodraeth Cymru. Crybwyllodd y CE fater rhannu costau wrth ddiwygio Archwiliad Iechyd y PAC yn 2008 ac mae'r mater wedi cael ei drafod cryn dipyn ers hynny, ond ni chafwyd unrhyw eglurder ar y ffordd ymlaen. Efallai y bydd yswiriant a chronfeydd cydfuddiannol yn bosibiliadau. Mae llacio'r rheoliadau'n dibynnu ar ymddiriedaeth a chydnabyddiaeth a enillir ond, yn y pen draw, mae hyn yn codi lefel y risg ac mae'n rhesymol disgwyl i'r diwydiant dalu rhan o'r gost os bydd problemau'n codi.

8.4 Mae'r gwaith o ddarparu polisïau iechyd a lles anifeiliaid yn gymhleth; cânt eu darparu'n bennaf trwy'r AHVLA gyda mewnbwn gan gyrff/sefydliadau eraill. Mae rhai ymchwiliadau ac erlyniadau ynghylch lles ac archwiliadau marchnad yn cael eu cynnal gan swyddogion Safonau Masnach Awdurdodau Lleol. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd sy'n gyfrifol am archwiliadau cig cyn ac ar ôl lladd mewn ffatrïoedd prosesu. Mae gan yr AHVLA femorandwm cyd-ddealltwriaeth (MOU) gyda llawer o filfeddygon preifat fel Milfeddygon Swyddogol i gynnal profion TB, cyhoeddi tystysgrifau i allforio, cynnal ymchwiliadau anthracs ac ystod o swyddogaethau eraill ar ran y Llywodraeth. Mae'r trefniant MOU yn destun adolygiad ac mae'n debyg mai dull tendro contract a ddefnyddir i sicrhau

gwasanaethau yn y dyfodol. Gan fod y cyfrifoldeb cyllidebol dros wasanaethau'r AHVLA a ddarperir yng Nghymru wedi'i drosglwyddo i Lywodraeth Cymru, dylem weld perthynas waith fwy integredig ac effeithiol.

8.5 Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) sy'n arwain ar ddatblygu polisïau ar faterion iechyd a lles anifeiliaid ac mae ganddi berthynas waith agos gyda'r diwydiant. Mae Grŵp Llywio'r Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid yn bartneriaeth diwydiant gyda'r llywodraeth sy'n cynghori ac adrodd ar bolisïau. Mae'r polisi dileu TB buchol wedi cael derbyniad gwresog gan ffermwyr, er gwaethaf y cyfyngiadau masnach. Mae tri Bwrdd Rhanbarthol Dileu TB wedi galluogi cymunedau ffermio i nodi atebion lleol sy'n cyd-fynd â pholisi'r llywodraeth. Mae Bwrdd y Rhaglen Dileu TB a Grŵp Cynghori'r Diwydiant ar gyfer Ardal Triniaeth Ddwys TB Buchol yn y Gorllewin wedi hen ennill eu plwyf. Fodd bynnag, hoffai ffermwyr gael mwy o dryloywder mewn perthynas â hanes buchesau sydd wedi'u heintio â TB er mwyn llywio penderfyniadau ynglŷn â phrynu. Mae proses wedi'i chyflwyno yng Nghymru sy'n galluogi ffermwyr i roi sticer ar basbort buwch yn nodi pryd oedd y tro diwethaf i'r fuwch honno gael prawf bTB. Mae hyn yn gam i'r cyfeiriad iawn o fynd i'r afael â'r pryderon nad yw ffermwyr yn cael digon o wybodaeth. Fodd bynnag, oherwydd y ddeddf diogelu data, nid yw hi'n bosibl rhoi hanes llawn y clefyd i berchnogion buchesau eraill.

8.6 Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2011, rhannwyd y portffolio Materion Gwledig a chafodd Is-adran yr OCVO ei hadleoli yn Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (DESD) o dan ofal y Gweinidog John Griffiths. Fodd bynnag, mae materion sy'n berthnasol i iechyd a lles anifeiliaid, gan gynnwys rhannu cyfrifoldebau a chostau, adnabod a symud anifeiliaid a rheoli'r berthynas ag Awdurdodau Lleol, yn dal i fod yn gyfrifoldeb yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (BETS) a'r Dirprwy Weinidog Alun Davies. Mae'r gwahanu hyn yn her ychwanegol i waith cydgysylltiedig.

**Y rheol ar wahardd symud 6 niwrnod**

8.7 Yn ystod yr astudiaeth hon, gwelwyd mai'r rheoliad mwyaf amhoblogaidd oedd y rheol ar wahardd symud 6 niwrnod. Ni ellir ystyried y rheoliad ar ei ben ei hun gan ei fod yn rhan o grŵp rhyngberthynol o reoliadau sy'n cynnwys adnabod anifeiliaid, adnabod daliadau ac olrhain symudiadau. Cyn yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn 2001, nid oedd cyfnodau gwahardd symud yn bodoli ac roedd symud pell yn gyfrifol am ledaenu llawer o glefydau. Mae'r rheol ar wahardd symud 6 niwrnod wedi esblygu ers yr adeg honno pan fu'r cyfnodau gwahardd symud yn allweddol yn atal y clefyd rhag lledaenu. Roedd y diffyg gwybodaeth am symudiadau defaid yn golygu bod y clefyd yn gallu lledaenu'n ddilyffethair; roedd y mesurau rheoli'n gorfod 'dal i fyny' a chafodd y rhaglen ddileu ei gohirio'n sylweddol. Yn dilyn yr achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn 2001, parhaodd y gofyniad mewn grym, gyda'r cyfnod o 21 diwrnod yn newid i gyfnod o 6 niwrnod ar gyfer y rhan fwyaf o anifeiliaid cnoi cil (20 niwrnod ar gyfer moch). Mae'r rheol 6 niwrnod ar waith yn Lloegr hefyd ond, ers sawl blwyddyn, mae'r Alban wedi bod yn defnyddio cyfleusterau ynysu hunanardystiedig ar ffermydd sy'n ymgorffori gwaharddiad 13 diwrnod. Mae llawer o dda byw yn croesi'r ffin ym Mhrydain, yn enwedig rhwng Cymru a Lloegr, ac ni fyddai'n ymarferol rhoi gwahanol gyfyngiadau symud ar waith ar y naill ochr a'r llall i'r ffin. Mae'n hanfodol bod y ffiniau'n parhau'n agored er mwyn hwyluso symud a masnachu.

8.8 Roedd ‘gwahardd symud’ yn gwbl briodol adeg argyfwng clefyd ac mae milfeddygon yn cefnogi’r bwriad i barhau i’w ddefnyddio gan fod clefydau fel Clwy’r Traed a’r Genau’n lledaenu cyn i symptomau ddod i’r amlwg. Mae ffermwyr yn cwestiynu manteision cyfnodau gwahardd symud mewn ‘cyfnodau tawel’ gan fod dulliau gweithredu a rheoli’n amrywio’n fawr. Mae’r rheol wedi’i difetha y tu hwnt i bob rheolaeth, mae’n cael ei thorri’n rheolaidd, nid yw’n cael ei rheoli’n berffaith ac nid yw llawer o ffermwyr yn ymddiried ynddi nac yn ei chefnogi.

8.9 Mae’r rheol 6 niwrnod yn cyfyngu ar fasnachu arferol ac, o ganlyniad, caniateir diwygiadau a rhanddirymiadau, gan gynnwys caniatáu defnyddio cyfleusterau ynysu yn yr hydref fel y gellir prynu hyrddod a theirw bridio. Ar y llaw arall, mae’r rhanddirymiad i hwyluso masnachu da byw hefyd yn tanseilio ffydd ffermwyr yn y rheol; roedd sylwadau nodweddiadol yn cynnwys: “Os yw cyfleusterau ynysu’n dderbyniol ar gyfer stoc bridio, pam na allwn ni eu defnyddio drwy’r flwyddyn?” Mae consesiwn pellach i fasnachu mwy rhydd yn cynnwys y cyfle a oedd gan ffermwyr tan yn ddiweddar i gael Rhif(au) Daliad ychwanegol fel y gellir symud gwartheg, defaid a moch rhwng gwahanol barseli tir o fewn pellteroedd penodol. Mae hyn wedi cymhlethu pethau ymhellach gan fod gwahanol bellteroedd yn berthnasol i wahanol rywogaethau. Mae amrywiadau pellach yn cynnwys Daliadau Cyswllt a Chytundebau Meddiannaeth Unigol (SOA), sy’n galluogi ceidwad da byw i symud da byw bellteroedd diderfyn fwy neu lai.

8.10 Nid yw llawer o’r ffermwyr a gyfwelwyd yn ystod yr astudiaeth hon yn deall yn iawn yr hyn sydd wedi datblygu’n gyfres o reolau cymhleth iawn. Maent yn gyflym i nodi bylchau sylweddol, fel y cyswllt rhwng da byw newydd eu prynu (yn amodol ar y rheol 6 niwrnod) a da byw cymdogion dros wrychoedd ar ffiniau’r fferm y gellir yn gyfreithlon eu gwerthu’n syth. Mae ffermwyr yn gyfrifol am weithredu ‘bioddiogelwch go iawn’ a ddylai atal hyn rhag digwydd ond, mewn gwirionedd, mae’n anghyson. Un peth sy’n peri pryder yw bod ffermwyr yn cyfaddef iddynt ffugio cofnodion i sicrhau bod y dyddiadau’n cydymffurfio â’r rheoliad ac, o’u herio ar y mater, maent yn egluro bod “rheolau’n gwneud cnafon o ddynion gonest”.

8.11 Rhaid gofyn y cwestiwn a ellir trwsio rheol sydd wedi’i difetha’n enbyd neu a ddylid ystyried dewis arall. Mae yna ddewisiadau eraill posibl. Mae astudiaeth a gefnogir gan Defra, ac a sbardunwyd gan adroddiad Macdonald, yn ystyried y defnydd o gyfleusterau gwahanu fel ffordd arall o fynd ati. Mae cyfleusterau ynysu wedi hen ennill eu plwyf yn yr Alban ac fe’u caniateir yng Nghymru a Lloegr yn ystod yr hydref a phan fo anifeiliaid yn dychwelyd o sioeau. Efallai y byddai cyfleuster dan do / awyr agored wedi’i ardystio gan filfeddyg, ac archwiliadau fferm ar hap dilynol gyda chosbau sylweddol am ddiffyg cydymffurfiaeth, yn ffordd ymlaen synhwyrol. Byddai angen ystyried yn ofalus sut byddai’r dull hwn yn cyd-fynd â’r rhaglen o ddileu bTB. Ni ellir datrys y broblem hon heb ystyried mesurau rheoli symudiadau ac adnabod anifeiliaid mewn modd integredig, ynghyd â gweithio’n agos gyda Defra i gytuno ar ddull a all weithio’n synhwyrol ar draws ffiniau.

**Rhoi gwybod am achos o symud gwartheg o fewn 3 diwrnod**

8.12 Mae hyn yn rhan o’r mesurau rheoli clefydau anifeiliaid, sydd hefyd yn amhoblogaidd ymhlith cwsmeriaid. Ar yr olwg gyntaf, nid yw’r rheol hon yn gofyn rhyw lawer h.y. rhoi gwybod am bob achos o symud gwartheg o fewn 3 diwrnod i’w symud. Ar gyfer stoc a fasnachir, mae’n ofynnol i’r gwerthwr a’r prynwr roi gwybod

am y symud. Mae'r rhyngrwyd, negeseuon testun, ffôn a chyflwyniadau ar bapur i'r BCMS yn gwneud y dasg o roi gwybod yn un ddigon hwylus ac mae tua 80% o symudiadau bellach yn cael eu nodi trwy ddulliau nad ydynt yn ysgrifenedig. Mae yna ddryswch ymhlith cwsmeriaid, gyda rhai'n meddwl am derfyn 3 diwrnod calendr yn hytrach na'r gofyniad go iawn o 3 diwrnod gwaith. Maent hefyd yn poeni am oedi yn y gwasanaeth post dros y penwythnos. Mae'n well gan lawer o ffermwyr, yn enwedig y genhedlaeth hŷn, ysgrifennu i'r BCMS er gwaethaf y perygl o oedi yn y gwasanaeth post, ac mae cosbau am adrodd hwyr yn gymharol gyffredin. Mae rhai yn poeni na fydd yna gofnod cywir o neges ffôn neu neges destun os bydd problemau'n codi. Y feirniadaeth fwyaf yw bod Llywodraeth Cymru'n defnyddio gofynion trawsgydymffurfio caeth ar sail gofyniad adrodd 3 diwrnod, er mai 7 diwrnod yw gofyniad adrodd y CE. Nid felly yn Lloegr a'r Alban. Rhagdybir bod y gofyniad gorfodi 3 diwrnod yng Nghymru'n cael ei orfodi'n drylwyr er mwyn cynnal y record ragorol mewn perthynas â chosbau ariannol. Mae'r rhan fwyaf o Aelod-wladwriaethau'n defnyddio gofyniad adrodd 3 diwrnod ac ni fyddai ymestyn y terfyn hwn i 7 diwrnod yn datrys y broblem o reidrwydd. Byddai ymestyn y terfyn i 7 diwrnod yn arwain at fwy o oedi o ran adfer rhai symudiadau anifeiliaid pe bai argyfwng clefyd anifeiliaid, gan fod yr Asesiad Risg milfeddygol angenrheidiol yn dibynnu ar ddarlun cywir a chyfredol o symudiadau. Fodd bynnag, efallai y byddai'r diwydiant ffermio'n fodlon ymdopi â'r oedi hwn. Gallai'r oedi hwn hefyd achosi problemau wrth olrhain clefydau anifeiliaid pe bai clefyd yn dod i Gymru.

**Rhif y Daliad (CPH)**

8.13 Mae Rhif y Daliad yn sail i nifer o systemau rheoli ac fe'i defnyddir i adnabod daliadau sy'n cael eu hamaethu. Ei brif ddiben yw nodi lle mae da byw'n cael eu cadw, fel sy'n ofynnol gan Reoliad Ewropeaidd ar gyfer gwartheg, defaid, geifr a moch. Mae trefniadau cofnodi symudiadau da byw yn defnyddio cod adnabod y Daliad i ddarparu system sy'n gallu olrhain da byw trwy bob lleoliad ar y gadwyn gyflenwi.

8.14 Mae Cymru wedi etifeddu system cofnodi symudiadau da byw nad yw'n addas i'r diben, sy'n golygu nad yw hi bob amser yn hawdd gwybod i le nac o le mae anifeiliaid wedi symud. Mae llawer o brosiectau ym Mhrydain wedi gadael y rheolau fel ag yr oeddent, er gwaethaf y galw cyson i'w symleiddio. Erbyn hyn, mae Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol atebol am unrhyw feirniadaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd, a allai arwain at gosbau ariannol yn sgil gallu cyfyngedig i nodi daliadau'n gywir fel rhan o'r gallu i olrhain da byw.

8.15 Mae'r gwaith o drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros Rif y Daliad o Daliadau Gwledig Cymru i'r AHVLA wedi dechrau. Nod Prosiect Trosglwyddo Rhif y Daliad yw cynllunio a datblygu proses dyrannu Rhif y Daliad effeithlon o fewn yr AHVLA. Bydd angen rhoi ail gam ar waith i weithredu'r rheolau newydd. Caiff nifer o ffactorau eu hystyried, gan gynnwys y gallu i ddileu cysylltiadau â'r System Olrhain Gwartheg (CTS), SOAs ac ymestyn y defnydd o gyfleusterau ynysu, er y byddai angen mewnbwn a phenderfyniadau gan yr OCVO ar waharddiadau symud. Mae'n ymddangos bod y prosiect hwn yn fan cychwyn tuag at newid a gwelliant mawr yn y gwaith o reoli symudiadau da byw, ac mae hynny'n galonogol. Bydd y gwaith yn mynd rhagddo law yn llaw â datblygiadau Macdonald ar yr un mater.

**Materion adnabod gwartheg**

8.16 Rhaid cofrestru genedigaethau gwartheg gyda'r BCMS o fewn 27 diwrnod i'w geni; mae methu â chofrestru genedigaethau o fewn 27 diwrnod yn ddigwyddiad cyffredin a all arwain at gosbau ariannol. Mae pa mor angenrheidiol yw'r rheol hon wedi bod yn fater trafod ar sail y ffaith bod angen i bob buwch sy'n gadael daliad fod â phasbort beth bynnag. Fodd bynnag, mae'n mynd yn anoddach asesu'r union ddyddiad geni wrth i anifail fynd yn hŷn, sy'n cynyddu'r perygl o 'glocio' gwartheg (cyfnewid gwartheg).

8.17 Yn ôl y rheoliadau, mae'n ofynnol i geidwaid gwartheg newid tag(iau) coll o fewn 28 diwrnod i gael gwybod (mewn archwiliad) am y tag(iau) coll. Er mawr syndod, methu ag aildagio cyn y dyddiad terfyn yw un o'r rhesymau mwyaf cyffredin dros gosb ariannol. Mae'n anodd cydymdeimlo â'r ffermwr yn y sefyllfa hon, er efallai bod angen ailystyried gohebiaeth gysylltiedig gan Lywodraeth Cymru.

8.18 Caniateir cofnodi gan drydydd partïon yng Nghymru a'r DU fel y gall lladd-dai a marchnadoedd da byw gofnodi symudiadau oddi ar y fferm ar ran eu cwsmeriaid, ac ni fyddai hyn yn golygu llawer o waith ychwanegol iddynt o ystyried eu gwaith cofnodi eu hunain. Fodd bynnag, ychydig iawn o 'drydydd partïon' sy'n gwneud hyn, os oes rhai o gwbl. Byddai cronfa ddata amser real sy'n cofnodi symudiadau ac sydd wedi'i hintegreiddio gyda lladd-dai a marchnadoedd da byw yn ddatblygiad gwerth chweil i gronfa ddata'r System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid (AMLS) o ran olrhain symudiadau, rheoli clefydau ac ychwanegu gwerth at y gwaith o reoli buchesau. Mae'r AMLS a'r CTS yn cael eu datblygu tuag at gofnodi amser real ac mae'r pasbortau gwartheg newydd a gyflwynwyd y llynedd yn fan cychwyn da.

8.19 Mae yna gynigion i gyflwyno rhifau adnabod gwartheg electronig (EID) a fyddai'n golygu na fyddai angen llyfrau cofnodion ar ffermydd pe bai'r gronfa ddata ganolog yn cael ei diweddaru o fewn 24 awr. Mae'r EID yn debygol o fod yn llai trafferthus mewn gwartheg o gymharu â defaid oherwydd y gwahaniaeth yn yr anifail, y systemau a'r dulliau o reoli gwartheg.

**Adnabod defaid**

8.20 Mae rheoleiddio rhifau adnabod defaid wedi mynd yn waith cymhleth a beichus. Mae ffermwyr yn deall y gofyniad i olrhain anifeiliaid yn gywir o ystyried y ffaith mai defaid oedd y fector mwyaf sylweddol o ran lledaenu Clwy'r Traed a'r Genau yn 2001. Yn sgil adroddiadau beirniadol yn dilyn archwiliadau'r CE yn y DU nid oedd fawr o gyfle i newid y sefyllfa a chafodd y ddadl ei thanseilio. Erbyn hyn, mae'n ymddangos nad oes modd trafod y Dyfeisiau Adnabod Electronig (EID). Fodd bynnag, nid yw llawer o'r agweddau ar weithredu'r dyfeisiau'n gweithio ac mae angen eu hailystyried. Mae problemau adnabod defaid yn niferus ac yn cynnwys y canlynol:

- o Mae'r rheoliadau a'r rhanddirymiadau'n gymhleth, gan gynnwys manylion penodol gwahanol liwiau a thagiau adnabod ar gyfer defaid o wahanol oedran, lleoliadau ac amgylchiadau colli tagiau a rhanddirymiadau'n cynnwys darllen gan drydydd parti ac ŵyn i'w lladd.

- o Nid yw'r dechnoleg wedi ennill ei phlwyf o'i defnyddio i adnabod da byw; mae hyd yn oed y gweithredwyr mwyaf effeithlon yn ei chael hi'n anodd darllen / cofnodi pob rhif, pa bynnag fath o feddalwedd / darllenydd a ddefnyddir.

- o Pennodd y CE bolisi 'dim goddefgarwch' sy'n golygu y bydd unrhyw un na fydd yn darllen tagiau 100% yn gywir yn torri rheolau ac yn ddarostyngedig i gosb gysylltiedig.

- o Mae defaid yn colli tagiau pa bynnag fath o dag a ddefnyddir a beth bynnag yw cymhwysedd y gweithredwr tagio. Mae diadellau mynydd mawr yng Nghymru / y DU yn fwy tebygol o golli tagiau. Mae hirhoedledd tagiau mewn defaid bridio, mewn cyflwr darllenadwy, yn ansicr.

- o Mae'n ymddangos bod llwyddiant gwneuthurwyr/mathau o dagiau'n amrywio'n fawr. Mae gwneuthurwyr tagiau'n darparu canllawiau ar gyfer eu cynnyrch eu hunain, ac mae Llywodraeth Cymru'n darparu canllawiau cyffredinol. Os bydd yna dystiolaeth o broblemau gyda thagiau penodol, bydd yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) yn codi pryderon gyda'r cwmni dan sylw. Rhaid i dagiau basio prosesau cymeradwyo'r DU, yr UE a'r ISO (Sefydliad Safoni Rhyngwladol).

- o Mae yna wrthwynebiad i dagio defaid cyn iddynt fod yn 9 mis oed, fel y nodir yn y rheoliad, ac mae yna ffafriaeth i dagio pan fydd defaid yn gadael y daliad oherwydd y broblem colli tagiau.

- o Mae'r rhanddirymiad ar gyfer ŵyn wedi'u gorffen (sy'n gofyn am dag confensiynol yn nodi rhif y ddiadell yn unig) wedi creu dryswch. Mae arwerthwyr yn beirniadu'r rhanddirymiad 'darllenydd trydydd parti' oherwydd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â gorfod cael mwy o staff mewn marchnadoedd.

8.21 Mae'r EID ar ei ben ei hun, hyd yn oed os yw'n 100% ddibynadwy ym mhob ffordd, yn anghyflawn o ran monitro a chofnodi symudiadau defaid yn effeithlon. Nid oes yna gronfa ddata ddefaid genedlaethol; mae angen cwblhau llawer iawn o waith papur wrth symud defaid. Mae arwerthwyr a lladd-dai a Safonau Masnach yn mynnu cael y Trwyddedau Symud Anifeiliaid (AMLs) hyn. Mae'r holl waith papur yn golygu oedi diangen ac yn creu cyfleoedd am wallau. Nid yw llawer o ffermwyr yn ymwybodol y gellir e-bostio a ffacsio trwyddedau. Mae Llywodraeth yr Alban yn mynd ati i ddatblygu ei chronfa ddata ei hun, ac argymhellodd adroddiad Macdonald y dylid cael un gronfa ddata. Mae asiantaethau a chyrff y diwydiant wedi nodi'r angen i bawb fynd ati yn yr un modd a pharodrwydd i weithio mewn partneriaeth. Mae'r diwydiant yn awyddus i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda Defra i sicrhau bod pa bynnag system neu systemau a ddefnyddir yn cyd-fynd â symudiadau trawsffiniol. Mae angen gwerthuso'n drylwyr yr opsiynau o gael cronfa ddata i Brydain a chael cronfa ddata i "Gymru yn unig".

8.22 Gallai Llywodraeth Cymru a'r DU drwyddi draw fod yn agored i gosbau ariannol oherwydd y rheoliad EID defaid, sy'n cael ei ystyried yn eang yn wallus. Gallai archwiliad gan yr UE amlygu methiant i gydymffurfio 100%.

## Gwaredu stoc sâl

8.23 Mae rheoliadau sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn gwahardd claddu stoc trig ar dir fferm oherwydd pryderon ynglŷn â lledaenu clefydau, yn enwedig Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy (TSE). Mae'n ymddangos bod y risg o TSE wedi lleihau'n sylweddol mewn perthynas â'r risg o ddefaid yn dal BSE. Yr unig ddewis ymarferol sydd bellach ar gael i'r rhan fwyaf o ffermwyr yw talu am wasanaeth casglu trwyddedig. Mae sawl agwedd ar y gwasanaeth hwn o dan y lach yn cynnwys y gost, oedi a'r risgiau bioddiogelwch o ganlyniad i arferion gwael y casglwr (cerbydau'n gollwng ac ati). Nid yw'n anarferol mewn systemau ffermio mynydd llai dwys i stoc sâl fynd heb ei ganfod hyd nes bod y carcas wedi dechrau pydru cryn dipyn, a gall fod yn anymarferol i'w gludo i'r man casglu, a hynny heb ystyried y risg bioddiogelwch gysylltiedig. Yn dilyn lobïo effeithiol gan Lyowdraeth Cymru, mae'n debygol y bydd y CE yn caniatáu defnyddio systemau ynysu ar ffermydd penodol yn y dyfodol agos a fydd yn gwella'r sefyllfa, er nad yw'r dewis hwn yn debygol o fod yn ymarferol o safbwynt ariannol oni bai bod yn ffermydd yn fawr neu fod nifer o ffermydd cyfagos yn cyfuno eu hadnoddau.Ar hyn o bryd, dim ond o dan amgylchiadau eithriadol nad ydynt yn berthnasol yng Nghymru y mae rheoliadau'n caniatáu claddu.

## Argymhellion

A.30 Rhaid i'r OCVO barhau i weithio gyda'r diwydiant ffermio i sicrhau bod defnyddio'r system sticeri pasbort bTB yn dod yn arfer cyffredin er mwyn helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau prynu [**Q**].

A.31 Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gyda Defra, y CE a'r diwydiant ffermio i benderfynu ar system deg ac ymarferol o rannu cyfrifoldebau a chostau mewn achos difrifol o unrhyw glefyd i sicrhau nad yw'r gwaith o symleiddio rheoliadau'n peri gormod o risg i gyllideb Llywodraeth Cymru [**M**].

A.32 Rhaid i Lywodraeth Cymru fwrw iddi'n ddi-oed gyda'r prosiect trosglwyddo Rhif y Daliad er mwyn pennu system o fesurau rheoli symudiadau sy'n synhwyrol, yn gredadwy, yn syml ac yn hawdd ei deall. Rhaid i'r prosiect geisio cael gwared ar y cysylltiadau di-ri rhwng Rhif y Daliad, y SOA a'r CTS a'r holl amrywiadau cyfredol sy'n ychwanegu at gymhlethu'r system yn ddiangen ar hyn o bryd [**S**].

A.33 Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant ffermio weithio gyda'i gilydd i roi sylw i, a datrys, y materion yn ymwneud â'r rheol ar wahardd symud 6 niwrnod. Rhaid ystyried pob dewis, gan gynnwys model adroddiad Macdonald ar gyfleusterau gwahanu ac ynysu, symudiadau rhwng ffermydd a dull Llywodraeth yr Alban. Rhaid i'r atebion ganiatáu symudiad trawsffiniol effeithlon ac mae'n rhaid i ffermwyr fedru eu deall yn hawdd [**Q**].

A.34 Dylai Llywodraeth Cymru arwain trafodaethau gyda Defra a Llywodraeth yr Alban i bennu maint y broblem mewn perthynas â rhoi gwybod am symudiadau o fewn 3 diwrnod ac achosion y broblem. Rhaid ystyried y sefyllfa ddeddfwriaethol gyda Defra a Llywodraeth yr Alban a holi pam mae'r matrics trawsgydymffurfio yn cael ei ddefnyddio'n fwy deddfol yng Nghymru. Rhaid trafod yn llawn gyda'r diwydiant yr anfantais bosibl yn sgil oedi ychwanegol wrth adfer symudiadau anifeiliaid mewn achos o argyfwng [**S**].

A.35 Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r gweinyddiaethau eraill yn y DU i barhau i lobïo'r CE i adolygu'r ddeddfwriaeth ar EID defaid gan fod sawl agwedd ar y rheoliad hwn yn anymarferol i ffermwyr [**S**].

A.36 Mae angen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid yn y diwydiant gynnig canllawiau a hyfforddiant gwell i ffermwyr ar ddefnyddio tagiau EID er mwyn lleihau cyfraddau colli [**Q**].

A.37 Dylai Llywodraeth Cymru weithio'n agos gyda Defra a grwpiau / sefydliadau partner yn y diwydiant i ddatblygu cronfa ddata ddefaid genedlaethol sy'n briodol i anghenion y diwydiant yng Nghymru a fyddai'n cymryd lle'r systemau papur sydd ar waith ar hyn o bryd. Yn y pen draw, dylai'r gronfa ddata allu rhannu gwybodaeth a lanlwytho gwybodaeth o systemau rheoli diadellau ar ffermydd [**S**].

A.38 Rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i weithio gyda Defra a'r gweinyddiaethau eraill i ymchwilio ac archwilio'n drylwyr yr holl ddewisiadau o ran ynysu carcasau ar ffermydd [**S**].

# 9. Symleiddio Cofnodion

## Cadw cofnodion

9.1 Mae cadw ac archwilio cofnodion yn rhan allweddol o waith rheoleiddio ac arferion busnes da. Mae archwilio tystiolaeth ysgrifenedig a chroeswirio gyda chronfa ddata neu gofnodion canolog a/neu archwilio tir a da byw yn bersonol yn rhan annatod o lawer o reoliadau ffermio. Ar y rhan fwyaf o ffermydd, mae'r cofnodi'n dal i gael ei wneud yn ysgrifenedig ac mae'n broses lafurus. Mae symud i gofnodion electronig yn ennill ei blwyf yn raddol ond, yn y cyfamser, bydd rhaid i'r ddau ddewis fod ar gael i gwsmeriaid.

9.2 Mae cofnodion sy'n cael eu datblygu'n gŵyn reolaidd ymhlith cwsmeriaid. Gall gwahanol awdurdodau ofyn am gael archwilio'r un wybodaeth, fel Safonau Masnach a Gwarant Fferm yn gofyn am gael archwilio cofnodion symud a meddyginiaeth. Mae un cofnod yn ddigon ond nid yw hynny bob amser yn glir oherwydd gall y gwahanol gyrff ddarparu llyfrau cofnodion ychydig yn wahanol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cofrestri buchesau a diadellau yn ddi-dâl yn y gorffennol, gydag undebau'r ffermwyr yn gwerthu eu fersiynau eu hunain. Weithiau, gofynnir am wybodaeth y tu hwnt i ofynion deddfwriaethol. Mae mwy a mwy o ffermwyr yn dangos diddordeb mewn cadw cofnodion at ddibenion rheoli, ond dim ond dewis ddylai hyn fod. Cafwyd rhywfaint o lwyddiant yn symleiddio pethau, er enghraifft, Llywodraeth Cymru'n derbyn un cynllun rheoli adnoddau pridd ar gyfer gwahanol gynlluniau. Mae methiant systemau i siarad â'i gilydd wedi ychwanegu at faich cofnodi cwsmeriaid, er enghraifft mae Ffurflen y Cais Sengl yn gofyn am fanylion niferoedd gwartheg, er bod y wybodaeth hon eisoes gan y BCMS. Mae'n ymddangos efallai nad yw cronfa ddata'r CTS yn cadw'r data fel sy'n ofynnol neu mewn fformat sy'n golygu y gellir croesgyfeirio'n uniongyrchol gyda chwsmeriaid Llywodraeth Cymru.

9.3 Mae manylion llyfrau cofnodion yn dueddol o newid wrth i'r llyfrau gael eu hailargraffu dro ar ôl tro, ac nid yw hi bob amser yn glir pam mae hyn yn digwydd. Gall y newidiadau i'r cynllun wneud y gwaith cofnodi'n fwy beichus (e.e. gwahanu'r cofnodion yn ymwneud â'r defnydd o feddyginiaethau a phrynu meddyginiaethau yn llyfr cofnodion FAWL; a dileu'r colofnau/rhesi cyfanswm yn y Llyfr Cofnodion Defaid a Geifr). Nid yw'n ymddangos bod yna ymgysylltu systematig â chwsmeriaid wrth gynllunio a phrawfddarllen llyfrau cofnodion.

## Argymhellion

A.39 Dim ond er mwyn bodloni gofynion deddfwriaethol y dylai rheoleiddwyr ei gwneud yn ofynnol i gwsmeriaid gadw cofnodion, a dylid caniatáu iddynt gadw cofnodion ychwanegol os byddant yn dymuno gwneud hynny (e.e. cyfansymiau yn y llyfr cofnodion defaid) [**S**].

A.40 Dylai'r gwaith o gadw cofnodion gael ei safoni'n rheolaidd a dylid gwneud hyn mewn cyfarfodydd bwrdd crwn o gyrff archwilio er mwyn rhannu protocolau archwilio a gofynion cofnodi, a dylid hefyd ofyn i ffermwyr brawfddarllen y llyfrau cofnodion. Dylai grŵp gorchwyl a gorffen ar archwiliadau a chofnodion (gweler A.20) arwain y gwaith o gynghori Llywodraeth Cymru ac asiantaethau ar gadw cofnodion nad ydynt yn hanfodol ar ffermydd ac ar ba gofnodion sy'n cael eu dyblygu/hatgynhyrchu y dylid eu dileu [**Q**].

A.41 Mae’r trefniadau rhannu data wedi’u hatal oherwydd materion yn ymwneud â hawlfraint, y gyfraith diogelu data a chronfeydd data / systemau anghydnaws. Rhaid i Lywodraeth Cymru oresgyn y rhwystrau i rannu data, gan leihau faint o ddata sydd ei angen a’r troeon y gofynnir i ffermwyr ddarparu’r un data yn union [**S**].

A.42 Dylid sicrhau bod dull cadw cofnodion electronig ar gael ar gyfer pob cynllun/rheoliad a’i fod yn cael ei annog, er y dylai fod yn ddewisol. Ni ddylid mynnu bod copïau papur yn cael eu cadw hefyd.

Yn ail, os yw hynny’n bosibl, dylid ehangu’r cyfle i leihau nifer yr archwiliadau fferm trwy archwilio o bell, fel sy’n digwydd gydag archwiliadau tir IACS, i archwiliadau eraill, er enghraifft monitro a gwirio cofnodion fferm [**M**].

# 10. Gwella'r ddealltwriaeth o reoliadau amgylcheddol

## Pwysigrwydd yr amgylchedd tir fferm

10.1 Cafwyd sawl ymdrech i fesur gwerth amgylchedd Cymru ac mae'n ymddangos bod yna rywfaint o gonsensws ynghylch y ffigur o tua £6 biliwn (ffynhonnell: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru). Mae'r amgylchedd hefyd yn gyfrifol am un o bob chwe swydd yng Nghymru.

10.2 Mae'r rhestr o flaenoriaethau amgylcheddol cysylltiedig â thir fferm yn tyfu, gan gynnwys pryderon allweddol fel bioamrywiaeth, ansawdd dŵr, pridd ac aer, newid yn yr hinsawdd, rheoli carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynhyrchu ynni adnewyddadwy. Glastir yw cynllun blaenllaw Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r heriau hyn trwy weithredoedd ffermwyr ledled Cymru. Mae'r cynllun, sy'n dra gwahanol i'r cynllun blaenorol o gynnal a gwella'r amgylchedd, wedi bod yn destun cynnen. Er bod y CE wedi croesawu'r dull, mae'n newid mawr i ffermwyr sy'n credu bod y cynllun wedi'i ruthro a'i gyflwyno'n rhy fuan. Nid yw llawer yn deall sail y berthynas lle mae'r Llywodraeth – ar ran y trethdalwr – yn gweithredu fel y cwsmer sy'n derbyn gwasanaethau amgylcheddol a ddarperir gan y ffermwr gyda'r ffermwr yn derbyn iawndal am y gost o'u cyflenwi (incwm a ildiwyd a/neu gostau).

10.3 Y CE sy'n bennaf gyfrifol am reoleiddio amgylcheddol, gan gynnwys dau ddarn pwysig o ddeddfwriaeth: y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'n ofynnol bod Lywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cyfarwyddebau Ewropeaidd yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac mae hyn yn heriol., Mae perygl y gallai methiant i gydymffurfio â chyfarwyddebau, er enghraifft diffyg cynnydd gyferbyn â thargedau, greu achos o dor-ddyletswydd a fyddai'n arwain at gosb ariannol sylweddol gan y CE.

10.4 Nododd arolwg diweddar o lwybrau cerdded ger afonydd, a gynhaliwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ffynonellau llygredd a'r camau gweithredu y dylid eu cymryd, fod 132 o gyrsiau dŵr yn methu â bodloni safonau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr oherwydd llygredd amaethyddol; yn 2009, roedd 67% o gyrff dŵr yn methu. Hoffai Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru weld 'safonau sylfaenol' yn cael eu cyfathrebu i bob ffermwr trwy Lywodraeth Cymru a sefydliadau partner sy'n ymweld â'r ffermydd. Wrth gasglu tystiolaeth, mynegwyd pryderon am y perygl o greu mwy o ddeddfwriaeth amgylcheddol yng Nghymru na'r hyn sy'n ofynnol a'r farn bod Llywodraeth Cymru'n dilyn Defra'n 'gibddall'. Hefyd, mynegwyd pryder nad oes digon o ddulliau seiliedig ar risg a dulliau a dargedir, er enghraifft wrth weithredu deddfwriaeth Parthau Perygl Nitradau (NVZ).

10.5 Mae rhaglen Herio Biwrocratiaeth (Red Tape Challenge) Llywodraeth y DU yn ystyried rheoliadau amgylcheddol gan gynnwys gwastraff, cemegion, allyriadau diwydiannol, ynni, ansawdd aer, trwyddedau, sŵn a bioamrywiaeth. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda Defra ac mae'n awyddus i gynnal hyblygrwydd rheoleiddio. Gall Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol Llywodraeth Cymru gwmpasu rhywfaint o'r gwaith o symleiddio bioamrywiaeth (rheoli cadwraeth safleoedd a ddiogelir) a ddaw o ganlyniad i waith Herio Biwrocratiaeth.

**Diogelu'r amgylchedd**

10.6 Mae ffermwyr yn allweddol i gadwraeth yr amgylchedd ac yn falch o'r statws hwnnw, ond nid ydynt yn gweld y darlun cyflawn bob amser. Maent yn tueddu i fod yn fwy ymwybodol o fanteision i fywyd gwyllt a'r dirwedd, ond yn llai ymwybodol o ddŵr budr yn llifo i nentydd, sy'n rhywbeth a welwyd yn aml yn ystod arolwg Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

10.7 Cynhelir llai o archwiliadau amgylcheddol ar ffermydd nag y mae ffermwyr yn sylweddoli; yn ôl Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, dim ond 4% o ffermydd a archwilir yn flynyddol, gan gynnwys Parthau Perygl Nitradau, archwiliadau dŵr daear ac fel rhan o ymweliadau ar y cyd gydag Arolygiaeth Wledig Cymru ar drawsgydymffurfio. Yn ogystal, mae'r Cyngor Cefn Gwlad yn ymweld â thua 100 o ffermydd bob blwyddyn.

**Cyngor amgylcheddol**

10.8 Mae yna sawl ffynhonnell o gyngor amgylcheddol yng Nghymru, ond mae yna hefyd bryderon ynglŷn ag anghysondeb mewn perthynas ag ansawdd. Mae ffermwyr yn tueddu i ymddiried mwy yn y gwerthwr gwrtaith nag yn y rheoleiddiwr, mae'n debyg oherwydd perthynas sydd wedi datblygu dros amser ac efallai oherwydd bod y gwerthwr yn aml yn ffermio ei hun. Mae sgiliau ymgynghorwyr yn amrywio; dylai'r rhai sy'n cynnig cyngor ar faethynnau pridd a gwrtaith fod wedi'u cymeradwyo o dan y Cynllun Ardystio a Hyfforddi Cynghorwyr am Wrteithiau (FACTS) ond mae'n ymddangos nad yw hyn yn wir yn achos pob un. Mae ffermwyr wedi nodi bod rhai rheoleiddwyr amgylcheddol yn orfodwyr awdurdodol ac ychydig yn lletchwith yn hytrach nag yn gynghorwyr a hyrwyddwyr arferion gorau. Mae'n anodd i archwilwyr dynnu llinell rhwng gweithredu mesurau rheoli'n effeithiol a chynnig cyngor ar arferion gorau. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi llwyddo i ddatblygu fframwaith technegol i hyfforddi, mentora ac achredu ei staff rheoleiddio ym meysydd gallu a phrofiad, ac mae hyn wedi rhoi hwb sylweddol i'w perthynas â chwsmeriaid.

10.9 Mae yna hefyd ddiffyg eglurder ynglŷn â sut i fynd ati i gael cyngor. Mae Llywodraeth yr Alban wedi uno'r holl gyrff amgylcheddol o dan un ymbarél [Scotland's Environmental and Rural Services (SEARS)] ac mae'n cynnig un pwynt cyswllt i gwsmeriaid. Mae'r siop un stop hon yn cynnwys llawer o'r cyrff annibynnol a fersiwn yr Alban o Arolygiaeth Wledig Cymru. Yn ddiweddar, cefnogodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (DESD) y cais i uno Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth Cymru gan gyfuno adnoddau a chynnig gwell gwasanaethau (un pwynt cyswllt) i gwsmeriaid yn seiliedig ar egwyddorion 'Hwyluso'r Drefn', ac mae hyn hefyd yn debygol o arwain at lai o archwiliadau. Bydd hyn yn siŵr o gael derbyniad gwresog, er y bydd maint y dasg yn enfawr, a bydd hi'n bwysig ymchwilio i ffyrdd effeithiol o ymgorffori'r cyrff annibynnol. O ran gohebiaeth ysgrifenedig, mae gwefan NetRegs ar-lein Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn rhagorol a dylid ei haddasu ar gyfer rheoliadau eraill. Hefyd, cafodd dull ffeithlenni trawsgydymffurfio Taliadau Gwledig Cymru ei fabwysiadu gan Weithdy'r Amgylchedd.

10.10 Mae rheoliadau amgylcheddol yn codi braw ar ffermwyr ac maent yn eu hystyried yn rhwystr i ddatblygiad eu busnesau. Yn anffodus, mae gormod o ffermwyr yn credu bod rhaid iddynt ddewis rhwng cynhyrchu bwyd a sicrhau

buddiannau amgylcheddol ond, mewn gwirionedd, mae busnes da ac amgylchedd iach yn mynd law yn llaw. Yn aml, gall cydymffurfio â rheoliadau wella ac ychwanegu gwerthi fusnesau, yn hytrach na bod yn gost net iddynt. Fel y nodir mewn rhan arall o'r adroddiad hwn, mae angen datblygu'r achos busnes dros well rheoleiddio, sy'n ddiffygiol iawn ar hyn o bryd. Mae'r cynllun gwarant Linking Environment and Food (LEAF) wedi gweithio i brofi buddiannau o'r fath. Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu agwedd gyfannol at yr amgylchedd trwy Fframwaith Cenedlaethol yr Amgylchedd (NEF) sy'n rhoi gwerth ar yr amgylchedd yn seiliedig ar yr amrywiaeth eang o fuddiannau a gaiff cymdeithas, yn hytrach na chanolbwyntio ar reoleiddio/cydymffurfio yn unig. Mae NEF wrthi'n cael ei ddatblygu a rhaid iddo gynhyrchu llawer o astudiaethau achos ar fusnesau i gefnogi gwell rheoleiddio.

10.11 Hefyd, nododd ffermwyr bod rheoliadau amgylcheddol ymhlith y rhai mwyaf cymhleth. Nod y Gyfarwyddeb Atal a Rheoli Llygredd mewn Ffordd Integredig (IPPC) yw atal, lleihau a dileu llygredd trwy ganol bwyntio'n bennaf ar y gweithgareddau diwydiannol ac amaethyddol mwyaf arwyddocaol. Mae rheoliadau'n effeithio ar gynhyrchwyr moch a dofednod, ond roeddent yn ei chael hi'n anodd iawn deall y defnydd o iaith dechnegol, gan gynnwys fformiwlâu cemegol. Mae dull Netregs Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn hawdd ei ddeall, ac mae i'w gymeradwyo'n fawr.

**Parthau Perygl Nitradau**

10.12 Mae 3% o arwynebedd y tir amaethyddol yng Nghymru wedi'i ddynodi'n Barth Perygl Nitradau (NVZ), o gymharu â 24% yn yr Alban, 70% yn Lloegr a 100% yng Ngogledd Iwerddon, sy'n gosod rheoliadau ychwanegol ar oddeutu 1,000 o ffermwyr yng Nghymru. Cynhaliwyd ymgyrch gyfathrebu bwrpasol a chyflwynwyd cynllun grant cyfalaf i helpu ffermwyr i wella eu dulliau o storio slyri a thail fel eu bod yn cydymffurfio â rheolau'r NVZ. Un peth sy'n peri pryder yw bod llawer o ffermwyr yn y parth yn honni nad ydynt yn ymwybodol o'r ffaith hon ac, o ganlyniad, y cyfrifoldebau rheoleiddio; siomedig fu'r ceisiadau am grantiau. Mae rheoliad yr NVZ yn caniatáu peth hyblygrwydd o ran gweithredu ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fanteisio mwy ar yr hyblygrwydd hwnnw; er enghraifft trwy rannu'r boblogaeth ffermydd yn yr NVZ yn ffermydd mwy dwys a llai dwys, a gofyn am lai o gofnodion gan y grŵp llai dwys. Mae yna hefyd ddryswch a dyblygu diangen rhwng y rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol (SSAFO) a rheoliad yr NVZ. Mae yna risg o ofyn am fwy o wybodaeth nag sydd ei hangen yn y gofynion cadw cofnodion mewn NVZ, ac efallai y byddai dull seiliedig ar risg yn fwy priodol. Fodd bynnag, mae'r materion hyn yn cael eu hystyried ac yn destun ymgynghori.

**Argymhellion**

A.43 Dylid ymgorffori blaenoriaethau 'dŵr' amgylcheddol (safonau sylfaenol) yn yr holl gyngor amgylcheddol a gyfathrebir ar y ffermydd gan yr holl sefydliadau sy'n darparu cyngor ar reoleiddio a mesurau rheoli ar ffermydd [**S**].

Mae'r safonau sylfaenol yn cynnwys y canlynol:

- o Rhaid i storfeydd slyri fod yn addas i'r diben, o ran eu capasiti a'u hansawdd.
- o Rheoli maethynnau a'r gwaith o wasgaru slyri ar y tir yn gywir.
- o Gwaredu cemegau'n gywir e.e. dip defaid sydd wedi'i ddefnyddio.
- o Atal sathru ar lannau afonydd.
- o Osgoi pridd yn cael ei gywasgu.
- o Rheoli glannau afonydd.

A.44 Rhaid adolygu'r gwaith o ddefnyddio/gweithredu rheoliadau amgylcheddol yng Nghymru (gan gynnwys NVZ) i sicrhau bod hyblygrwydd wedi'i ystyried, nad ydynt yn ceisio gwneud mwy nag sy'n ofynnol ac nad yw dull Defra wedi'i fabwysiadu'n ddi-gwestiwn pan fyddai dull gwahanol wedi bod yn fwy priodol yng Nghymru [**S**].

A.45 Dylai dull targedu sy'n seiliedig ar risg fod yn sail i sut y caiff rheoliadau amgylcheddol eu cymhwyso yng Nghymru [**S**].

A.46 Mae angen i bob corff archwilio roi sylw o'r newydd i hyfforddiant a chymwyseddau staff. Dylid trafod gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn dysgu oddi wrth ei ddull llwyddiannus [**S**].

A.47 Mae'n ymddangos y byddai Un Corff Amgylcheddol yn cynnig llawer o fuddiannau i gwsmeriaid. Ni ddylid colli'r pwyslais ar symleiddio a 'Hwyluso'r Drefn'. Mae angen ystyried yn ofalus y dulliau o ymgysylltu â chyrff amgylcheddol, gan gynnwys cyrff anllywodraethol, ac mae angen rhoi ystyriaeth lawn i ddull SEARS [**M**].

A.48 Mae NEF yn dechrau ystyried rheoleiddio amgylcheddol o safbwynt model busnes. Mae hyn yn beth clodwiw ac mae angen llawer o enghreifftiau cadarn bellach i ddangos bod arferion amgylcheddol da yn gwbl gydnaws â dulliau cynhyrchu bwyd ac yn mynd law yn llaw â gwella perfformiad a phroffidioldeb busnes [**M**].

## 11. Galluogi arallgyfeirio

### Arallgyfeirio yng Nghymru

11.1 Mae'r Arolwg o Fusnesau Fferm (FBS) yn casglu gwybodaeth ffisegol ac ariannol fanwl gan oddeutu 550 o fusnesau fferm ledled Cymru ac yn cyhoeddi adroddiadau cyfnodol ar incwm (elw) ac allbwn (refeniw) trwy weithgareddau arallgyfeirio. Yn ôl y data diweddaraf o gofnodion 2009-10, rhoddodd oddeutu 24% o ffermydd Cymru gynnig ar weithgareddau arallgyfeirio yn ystod y flwyddyn honno, o gymharu ag 20% yn 2006-07 a 50% o ffermydd yn Lloegr yn ystod yr un flwyddyn.

11.2 Ar gyfartaledd, £7,100 oedd yr allbwn arallgyfeirio yn 2009-2010 (yn seiliedig ar y ffermydd hynny a arallgyfeiriodd yn unig). Roedd allbwn arallgyfeirio'n gyfrifol am lai na chwarter o allbwn 99% o ffermydd a oedd wedi arallgyfeirio yng Nghymru. Er mawr syndod, y gweithgarwch mwyaf cyffredin oedd rhentu allan adeiladau fferm at ddefnydd heblaw ffermio.

11.3 Mae'n ymddangos bod nifer y ffermydd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau arallgyfeirio'n amrywio yn dibynnu ar fathau a meintiau'r ffermydd, gyda ffermydd godro'n llai tebygol o gymryd rhan na ffermydd da byw sy'n pori ac mae ffermydd 'Mawr Iawn' neu 'Fach Iawn' yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn gweithgarwch arallgyfeirio na ffermydd o feintiau eraill.

11.4 Mae'r diwydiant bwyd yn bwysig iawn i economi Cymru ac mae rhai ffermwyr wedi dewis ychwanegu gwerth at gynnyrch sylfaenol trwy arallgyfeirio i brosesu bwyd. Mae cymorth ariannol wedi bod ar gael trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig i gefnogi'r gweithgarwch hwn a bydd strategaeth newydd y llywodraeth (Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru a Phanel y Sector Ffermio a Bwyd) yn annog datblygiad pellach yn y dyfodol. Mae diwydiant bwyd Cymru wedi datblygu'n fawr dros y 10 mlynedd diwethaf ac mae wedi ennill enw da am ei safon. Caiff hyn ei ategu gan Ddynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) cig oen ac eidion a'r nifer fawr o fusnesau a chynhyrchion sydd wedi ennill gwobrau Gwir Flas. Mae cynhyrchion wedi'u brandio, gan gynnwys bwyd organig, yn fath pwysig o arallgyfeirio i rai ac mae wedi derbyn cefnogaeth Llywodraeth Cymru. Yn ystod yr astudiaeth hon, roedd yn ymddangos bod ffermydd yn y categori 'bwyd gwerth ychwanegol' yn llai amheus o reoleiddio, yn rhannol gan eu bod yn ymwneud yn fwy uniongyrchol â'r cwsmer, sy'n aml â gofynion mwy caeth. Fodd bynnag, nododd rhai o'r sawl a holwyd fod problemau cynllunio'n cyfyngu ar eu cynlluniau busnes.

11.5 Mae'n amlwg nad yw arallgyfeirio'n addas i bawb, dewis ydyw na ddylai rhwystrau rheoleiddio ei atal. Dylai llunwyr polisi a rheoleiddwyr bob amser ystyried effaith polisïau arfaethedig ar wahanol gategorïau o ffermwyr; er enghraifft, efallai y bydd tenantiaid mewn perygl o dorri eu cytundebau tenantiaeth wrth geisio ailwampio adeilad neu fanteisio ar ynni'r haul.

11.6 Mae gan Croeso Cymru (hen Fwrdd Croeso) hanes o gefnogi arallgyfeirio ac, ar hyn o bryd, mae'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) yn

cynnig cymorth grant i fusnesau fferm a busnesau eraill ac mae'r meini prawf cymhwysedd yn llacio (ystyrir cefnogi 3 uned llety yn y dyfodol o gymharu â'r 5 presennol).

**Cynllunio**

11.6 I lawer, mae arallgyfeirio'n golygu cael caniatâd cynllunio ac mae'n ymddangos mai dyma'r gŵyn fwyaf cyffredin gan ffermwyr. Mae arweinwyr polisi cynllunio Llywodraeth Cymru wedi gweithio i wella canlyniadau cynllunio i gwsmeriaid. Mae diwygio Nodyn Cyngor Technegol (TAN 6 - Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy) wedi cyflwyno'r syniad o weithiwr gwledig sy'n creu cyfleoedd ehangach i fusnesau arallgyfeirio. Yn ddiweddar, creodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy 'Grŵp Cynghori Annibynnol' i edrych ar strwythur sut rydym yn darparu gwasanaethau cynllunio yng Nghymru. Mae ymchwil hefyd ar y gweill i sut y darperir gwaith cynllunio mewn tirweddau gwarchodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol). Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar ddadboblogi gwledig ac mae materion cynllunio / adfywio yn cael eu hystyried.

11.7 Mae ffermwyr yn nodi bod oedi maith ac anghysondebau tybiedig rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol a chyngor digyswllt yn peri problemau. Mae rhwystredigaeth arweinwyr polisi cynllunio Llywodraeth Cymru'n deillio o'r ffaith bod 25 o Awdurdodau Lleol (gan gynnwys Parciau Cenedlaethol) yn gweithredu'n anghyson, er gwaethaf yr hyfforddiant a ddarperir ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r anghysondeb i'w weld yn yr amrywiaeth o becynnau ymgeisio a ffurflenni heb dempled safonol. Mae yna enghreifftiau o arfer da, gyda rhai ALlau yn darparu gwasanaethau cymorth am ddim fel y gellir ystyried cynigion cynllunio yn eu cyfnodau cynnar. Mae Llywodraeth Cymru ar fin cwblhau canllawiau a fydd yn helpu ALlau wrth iddynt gynnig cyngor i bobl cyn iddynt gyflwyno cais cynllunio. Mae ffurflen cais cynllunio safonol ar-lein (1APP) wedi'i datblygu ac mae angen ei hyrwyddo ymhob ALl. Mae cymorthfeydd cynllunio Cyswllt Ffermio yn darparu canllawiau ar bob math o faterion cynllunio.

11.8 Mae rhai swyddogion cynllunio'n poeni bod agweddau ar y polisi'n caniatáu defnyddio disgresiwn lleol (e.e. y diffiniad o weithiwr gwledig yn TAN 6) sy'n arwain at ddehongliad mwy neu lai caeth yn dibynnu ar amgylchiadau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi canllawiau pellach ac wedi trefnu hyfforddiant penodol ar gyfer Swyddogion Rheoli Datblygu, asiantau ac undebau'r ffermwyr. Mae arweinwyr polisi cynllunio a chynllunwyr lleol wedi mynegi eu pryderon ynglŷn ag ansawdd gwael y ceisiadau a ddaw i law, o ganlyniad i'r cymysgedd amrywiol o ymgynghorwyr cynllunio sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Argymhellodd Adolygiad Killian Pretty o gynllunio yn Lloegr yn 2008 y dylid sefydlu cynllun achredu asiantau ac mae rhai ALlau yng Nghymru'n ystyried gwneud hyn.

11.9 Mynegir llawer o bryderon ynglŷn â nifer yr arolygon ac adroddiadau ategol sydd eu hangen i gefnogi cais cynllunio, gyda llawer ohonynt o ganlyniad uniongyrchol i ddeddfwriaeth amgylcheddol y CE. Arolygon bywyd gwyllt, ac yn enwedig arolygon ystlumod, sy'n bennaf o dan y lach. Mae'n ymddangos bod astudio ystlumod yn waith cymhleth, gyda llawer o rywogaethau'n dibynnu ar bob math o wahanol amodau amgylcheddol. Mae'r arolygon yn dymhorol ac yn cael eu

cynnal yn y nos. Er hynny, mae'n ymddangos bod yna oedi hir yn aros am arolwg a gall y gost fod yn sylweddol. Mae syrfewyr ystlumod yn weithredwyr arbenigol a drwyddedir gan y Cyngor Cefn Gwlad. Nid yw'n glir a yw diffyg ymgeiswyr neu ddiffyg darpariaeth hyfforddiant yn cyfyngu ar ddarpariaeth y gwasanaeth.

**Argymhellion**

A.49 Dylai Llywodraeth Cymru barhau i annog arallgyfeirio, yn enwedig yn y gadwyn cyflenwi bwyd. Dylai unrhyw weithgarwch arallgyfeirio gael ei arwain gan y farchnad a'i gefnogi gan gynllun busnes ac ni ddylai fod yn ddibynnol ar gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru e.e. bwyd organig. [**S**].

A.50 Dylai Croeso Cymru gwblhau'r newidiadau i'r Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS) cyn gynted â phosibl a rhoi cyhoeddusrwydd eang i'r cynllun. Byddai'n ddefnyddiol cynnwys cyfeiriadau at ganllawiau cynllunio [**S**].

A.51 Mae angen i Croeso Cymru wrth gyfathrebu'n fwy clir â busnesau fferm fel y gall ffermwyr wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn ag a ddylent roi cynnig ar arallgyfeirio ai peidio. Mae hefyd angen i Croeso Cymru gynnal arolwg ymhlith cwsmeriaid er mwyn cael eu hadborth. Byddai cyhoeddi data ar y gwasanaethau a ddarperir a'r gyllideb yn hybu tryloywder [**S**].

A.52 Rhaid i Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ddatblygu'r 'Grŵp Cynghori Annibynnol' i edrych ar strwythur darparu gwasanaethau cynllunio yng Nghymru [**S**].

A.53 Dylai Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid (ALlau, Parciau Cenedlaethol) i weithredu argymhellion yr adroddiad ar y prosiect ymchwil 'Delivery of Planning in Special Designated Areas' [**Q**].

A.54 Rhaid i Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn darparu hyfforddiant digonol, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol trwy ALlau, gan ei ymestyn i bob swyddog cynllunio. Bydd hyn yn sicrhau dealltwriaeth drylwyr a chyson o reoliadau ac yn ennyn hyder a dealltwriaeth gyffredin pan fo swyddogion yn cyfathrebu â ffermwyr [**S**].

A.55 Dylai Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru weithio gydag ALlau i ddatblygu cysondeb mewn ffurflenni cais cynllunio a thrwy weithredu, monitro a diwygio'r dull ar-lein (1APP) os bydd angen [**S**].

A.56 Dylai Adran yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru weithio gydag ALlau i annog arferion gorau, gan gynnwys cwblhau a diweddaru, yn ôl yr angen, y canllawiau cyn cynllunio ac ymestyn y cymorthfeydd cynllunio am ddim a ddarperir i ymgeiswyr yng nghyfnod archwilio'r cynigion [**S**].

## 12. Datblygu Gwasanaeth Cwsmeriaid

12.1 Mae'r adroddiad drwyddo draw yn frith o enghreifftiau o'r angen am wasanaeth cwsmeriaid o fewn cadwyn gymhleth o gyfranogwyr a diwydiant sy'n dameidiog. Yn y gadwyn benodol hon, mae yna gwsmeriaid mewnol ac allanol. Nid yw'r gadwyn ffermio'n gwbl gyfochrog â diwydiant gwasanaeth cystadleuol. Ond, yn ystod cyfweliadau a chyfarfodydd gyda'r llywodraeth ac asiantaethau, gwelwyd mai prin oedd eu dealltwriaeth o'r syniad o ddarparu gwasanaeth cyson i'r cwsmer terfynol.

12.2 Ar hyn o bryd, gellir cael syniad o safonau gwasanaeth mewn llythyrau, ymatebion dros y ffôn, prydlondeb ac yng ngwybodaeth staff rheng flaen allweddol. Maent yn amrywio o fod yn rhagorol i fod yn wael neu'n elyniaethus hyd yn oed.

12.3 Yn ddieithriad, mae'r safon uchel mewn unrhyw sefydliad sydd wedi'i feincnodi yn deillio o'r brig lle gwelir arweinwyr yn datblygu a chynnal gwasanaeth cwsmeriaid o safon uchel mewn ffyrdd mesuradwy fel cwrteisi, agwedd, eglurder, cyfathrebu, cywirdeb a phrydlondeb – boed hynny ar lafar neu ar bapur.

12.4 Mae'r dasg o wella safonau gwasanaeth cwsmeriaid yn fewnol ac yn allanol yn un sylweddol ac ni ddylid tanbrisio ei maint na'r rhaglen o welliant.

### Argymhellion

A.57 Dylai'r swyddogaeth Blaen Swyddfa ddarparu cyfleuster siop un stop i gwsmeriaid, a dylai gynnwys amrywiaeth gynhwysfawr o wasanaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru i ffermwyr ac eraill mewn ardaloedd gwledig. Dylai'r rôl newydd hon uno'r Swyddfeydd Blaen cyfredol, yr FLS, Cyswllt Ffermio a'r FAS o dan un corff rheoli [**M**].

A.58 Dylai lleoliad daearyddol y siopau un stop ddarparu mynediad hawdd i ffermwyr, a dylent ateb y galw gydol y flwyddyn ac yn ystod cyfnodau prysur. Ar hyn o bryd, mae yna fwlch yn narpariaeth y gwasanaeth yn y Gogledd-ddwyrain a'r De-ddwyrain (gweler Atodiad 5) a dylid llenwi'r bwlch hwn [**M**].

A.59 Dylid sicrhau bod gan swyddogion sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol â ffermwyr ddealltwriaeth go iawn o ffermio trwy brofiad uniongyrchol a/neu hyfforddiant parhaus penodol. Rhaid i staff gael y newyddion diweddaraf am gynlluniau a rheoliadau a rhaid sicrhau bod cyfarwyddiadau desg cywir a chryno ar gael bob amser [**M**].

A.60 Dylid sefydlu grŵp Gorchwyl a Gorffen i wella'r cyfathrebu a datblygu gwasanaeth cwsmeriaid. Dylai'r ddau fod o safon uchel [**M**].

A.61 Rhaid gwella fformat a thôn llythyrau a anfonir at ffermwyr, a rhaid iddynt gynnwys defnydd y ffermwr o iaith. Rhaid i sicrwydd ansawdd, gan gynnwys adolygiad gan gymheiriaid ac adolygiad annibynnol, fod yn rhan safonol o'r broses [**M**].

## 13. Cymharu 'Hwyluso'r Drefn' â'r adroddiad 'A report on better regulation in farming and food businesses' (adroddiad Richard Macdonald)

13.1 Mae Hwyluso'r Drefn yn rhannu'r un nod cyffredinol ag adroddiad Macdonald, sef cynghori'r Llywodraeth ar ddull newydd o reoleiddio o safbwynt y ffermwr.

13.2 Ymgynghorodd Macdonald yn eang iawn, gan wahodd sylwadau ar unrhyw fater rheoleiddio beichus. Hefyd, gan fod y diwydiant yn fwy amrywiol yn Lloegr, gan gynnwys tir âr llai dwys a garddwriaeth, roedd adroddiad Macdonald yn fwy eang ei gwmpas. Oherwydd bod gan Hwyluso'r Drefn amserlen llawer mwy tynn, canolbwyntiodd ar reoleiddio a oedd yn berthnasol i ffermio hyd at y pwynt prosesu, ac ni fu'n ystyried rheoliadau oedd yn ymwneud â bwyd, trafnidiaeth, iechyd a diogelwch, y gyfraith tenantiaeth, llafur amaethyddol a deddfau bwyd anifeiliaid. Un eithriad oedd archwiliadau hylendid cig a gafodd eu cynnwys yn y ddwy astudiaeth ac a ddaeth i gasgliad tebyg, sef bod angen gwneud mwy o waith a rhoi mwy o ystyriaeth i'r cynigion ar sut mae'r FSA yn adfer ei chostau. Roedd Hwyluso'r Drefn ac adroddiad Macdonald yn cael eu harwain gan y galw ac, o ganlyniad, ychydig iawn o sylw a roddwyd i reoliadau'n ymwneud â ffermio yn yr adroddiad hwn gan na chododd y mater wrth gasglu tystiolaeth, er enghraifft, deddfwriaeth tir comin. Nid yw'r ffaith nad yw rheoliadau wedi'u cynnwys, naill ai'n fwriadol neu oherwydd na chafodd y mater ei godi, yn golygu eu bod yn llai pwysig ac mae deddfau iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth gyson.

13.3 Yn yr un ffordd â Macdonald, mae Hwyluso'r Drefn yn argymell gweithio mewn partneriaeth agos gyda'r diwydiant a mwy o archwiliadau a dargedir / archwiliadau seiliedig ar risg (cydnabyddiaeth a enillir), sydd eisoes ar waith yng Nghymru ac mae hynny'n ganolog. Mae lleihau'r gwaith papur ar bob lefel yn flaenoriaeth, o'r 3,000 o dudalennau o wybodaeth a all cael eu hanfon at ffermwyr yng Nghymru bob blwyddyn i'r cadw cofnodion ailadroddus ar gyfer gwahanol gyrff rheoli. Mae symleiddio archwiliadau trwy rannu data'n effeithiol yn thema amlwg yn y ddwy astudiaeth.

13.4 Mae cynllunio'n cael sylw yn y ddwy astudiaeth, ond mae'r pwyslais yn wahanol. Er bod Macdonald yn gwneud argymhellion ar fanylion penodol yn cynnwys datblygu a ganiateir ac adrodd ymlaen llaw yn ogystal â hyfforddiant, mae Hwyluso'r Drefn yn canolbwyntio ar dryloywder y system gynllunio a sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y deellir rheoliadau, gwell hyfforddiant a gwella ansawdd ceisiadau cynllunio. Wrth ymateb i wahanol flaenoriaethau, mae Macdonald hefyd yn gwneud argymhellion ar dwnelau polythen garddwriaethol, meysydd pentrefi a llwybrau cerdded.

13.5 O dan y pennawd 'yr amgylchedd', mae Hwyluso'r Drefn yn croesawu datblygiad yr Un Corff Amgylcheddol fel yr un pwynt cyswllt i gwsmeriaid a dull o symleiddio, ond mae hefyd yn rhybuddio bod rhaid cynnal dadansoddiad trylwyr o effaith. Mae Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn glodwiw hefyd ond, yn fuan iawn, rhaid iddo gyflwyno llawer o enghreifftiau o achosion busnes i esbonio'r syniad a phrofi manteision gwell cydymffurfiaeth amgylcheddol i fusnesau. Mae atal llygredd dŵr ar ffermydd yn cael blaenoriaeth yn Hwyluso'r Drefn, ond mae Macdonald yn rhoi sylw i fwy o faterion, gan gynnwys tynnu dŵr a materion dŵr

arfordirol. Rhoddir sylw i'r pwysigrwydd o beidio ag ychwanegu mwy nag sy'n ofynnol at reoliadau NVZ (Parthau Perygl Nitradau) yng Nghymru; yn Lloegr, mae'r NVZ yn llawer ehangach ac mae yna lawer mwy o argymhellion. Roedd Macdonald yn canolbwyntio ar ddeddfau gwastraff ac ynni a'r system trwyddedu gwastraff gysylltiedig ond ni chawsant eu nodi fel problem wrth gasglu tystiolaeth yng Nghymru.

13.6 Mewn perthynas â'r PAC, mae Macdonald yn argymell y dylid cynnal mwy o asesiadau seiliedig ar risg, datblygu dulliau ar-lein gan gynnwys synhwyro o bell, symleiddio (yn cynnwys y system fapio), talu'r Taliad Sengl i ffermwyr actif, defnyddio dull trawsgydymffurfio sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau a dileu SMRs a GAECs penodol. Mae Hwyluso'r Drefn hefyd yn argymell y dylid prysuro tuag at brosesau a cheisiadau ar-lein, talu'r Taliad Sengl i ffermwyr actif yn unig, gweithio'n fwy effeithiol gyda rhanddeiliaid, osgoi casglu tystiolaeth nad yw'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, defnyddio dulliau mwy hwylus o ddarparu gwybodaeth am y cynllun a gwella gwasanaeth cwsmeriaid. Mae Macdonald yn hyrwyddo hawliadau grŵp i gominwyr sy'n hawlio'r Taliad Sengl. Mae'r dull hwn eisoes ar waith yng Nghymru gydag elfen Tir Comin cynllun Glastir.

13.7 Adnabod a symud anifeiliaid oedd yn peri'r pryder mwyaf i ffermwyr yng Nghymru. Roedd angen sicrhau bod mwy o wybodaeth ar gael am hanes TB buchol a bod cymhlethdodau'r system adnabod Rhif y Daliad yn cael eu symleiddio. Rhaid ymchwilio i ddewisiadau amgen a gwelliannau i'r gwaharddiad symud 6 niwrnod a'r gofyniad cofnodi symudiadau 3 diwrnod. Pwysleisir yr angen i lobïo Ewrop i ddatrys y problemau'n ymwneud ag EID defaid a mynd ati ar fyrder i gyflwyno cronfa ddata defaid genedlaethol. Ar y cyfan, mae Macdonald yn rhoi blaenoriaeth i'r un materion, gydag argymhellion penodol ar symudiadau mwy rhydd rhwng ffermydd, cofnodi electronig a defnyddio cyfleusterau gwahanu. Mae'r ffaith bod llawer o dda byw yn symud yn ôl ac ymlaen dros y ffin, ynghyd â'r ffaith bod llawer o ffermydd o boptu'r ffin â Lloegr, yn pwysleisio'r flaenoriaeth i ddod i gytundeb gyda Defra ar bolisi ymarferol ar gyfer symudiadau anifeiliaid.

13.8 Ar lawer ystyr, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn esiampl o arfer gorau o geisio sicrhau gwell rheoleiddio yn y ffordd mae'n cynnig mwy o gymorth i helpu ffermwyr i gydymffurfio â'r rheoliadau, o gymharu â Defra. Mae gwasanaethau fel y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm, Cyswllt Ffermio a'r cyhoeddiad Gwlad wedi cael canmoliaeth uchel yn hyn o beth. Llwyddodd Grŵp Adolygu Biwrocratiaeth yng Nghymru yn ystod Llywodraeth ddiwethaf Cymru i wneud cynnydd yn fuan iawn, gan gynnwys rhesymoli archwiliadau ar ffermydd, a gellir adeiladu ar y gwaith hwn bellach.

13.9 Mae Macdonald yn gwneud 215 o argymhellion ac mae Hwyluso'r Drefn yn gwneud 74. Fodd bynnag, nid cyfanswm yr argymhellion sy'n bwysig; yr hyn sy'n hollbwysig yw bod y Llywodraeth, sefydliadau partner, undebau'r ffermwyr a'r ffermwyr eu hunain yn barod i weithredu ar yr argymhellion er mwyn sicrhau gwell rheoleiddio yn y dyfodol. Yn y bôn, rhaid i Lywodraeth Cymru a Defra weithio'n agosach gyda'i gilydd i roi newid ar waith a mabwysiadu dull tebyg pan fo hyn er lles y diwydiant, er enghraifft, gyda materion fel trawsgydymffurfio.

## 14. Annog Twf Busnesau

14.1 Mae'n amlwg bod y diwydiant ffermio'n dameidiog ac y dylid ei ystyried yn fwy fesul segmentau o safbwynt cynllunio a thwf yn y dyfodol h.y. yn ôl maint y daliad, yn ôl y cynnyrch neu'r fenter (defaid, eidion, llaeth, âr). Mae perygl o roi sylw i'r holl agweddau ar ffermio o dan un ymbarél. Mae angen ystyried y perchnogion / rheolwyr tir yn ôl eu diffiniadau a'u huchelgeisiau eu hunain.

14.2 Mae'r rheini sydd ag uchelgeisiau o'r fath ac sy'n gweld cyfleoedd i ehangu ac arallgyfeirio'n awyddus i ddatblygu eu busnesau. Ar y llaw arall, nid oes gan rai ffermwyr uchelgais i dyfu. Mae angen i bob un ohonynt reoli eu daliadau mewn ffordd broffidiol trwy gynyddu cynhyrchiant, gan gynnwys ceisio lleihau costau, sy'n cynnwys amser a wastreffir ar fiwrocratiaeth ormodol.

14.3 Er mwyn mesur cynnydd mewn proffidioldeb, mae yna ddangosyddion allweddol fel cyfrif elw a cholled, rheoli llif arian, maint elw gros a net ynghyd ag allbwn yr uned. Felly, mae angen cymhwyso yn ôl segmentau cliriach o ran daliadau a chynhyrchion. Fel gyda llawer o ddiwydiannau, mae'r 30% mwyaf yn gyfrifol am 70% o'r trosiant. Nid yw hyn yn broblem o gwbl, ond mae angen ei gydnabod.

14.4 Rhaid i ni ragdybio y bydd cynhyrchu bwyd yn flaenoriaeth am y blynyddoedd sydd i ddod, felly mae'n rhaid i wasanaethau cymorth fel Cyswllt Ffermio a'i holl wasanaethau trosglwyddo gwybodaeth barhau. Mae cynhyrchu bwyd a hybu'r cyflenwad o fwyd o Gymru i'r gadwyn gyflenwi (o fewn Cymru a thu hwnt) yn fodd pwysig i sicrhwu twf busnesau. Bydd Panel y Sector Ffermio a Bwyd yn edrych yn fanylach ar hyn.

14.5 Rhaid i Lywodraeth Cymru annog a chefnogi olyniaeth mewn ffermio; mae'r genhedlaeth iau'n fwy tebygol o ymuno â'r diwydiant gydag addysg dda ac yn fwy tebygol o allu manteisio ar gyfleoedd technolegol a chyfleoedd yn y farchnad ac yn llai amheus o reoliadau. Mae YESS yn glodwiw; ers ei gyflwyno yn 2009, mae tua 250 o ffermwyr ifanc wedi ymuno â'r diwydiant ac mae llawer mwy o ymgeiswyr yn aros eu cyfle.

14.6 Mae mwy o fyfyrwyr yn gwneud cais i ddilyn cyrsiau amaethyddol ac mae cyfradd uchel o'r rheini sy'n graddio'n ymuno â'r diwydiant, sy'n awgrymu eu bod yn gweld dyfodol disglair a chalonogol. Yn y cyd-destun hwn, mae yna berygl y bydd oedran cyfartalog ffermwyr yn hŷn nag ydyw mewn gwirionedd. Y rheswm am hyn yw bod arolygon a data'r cyfrifiad yn cofnodi'r unigolyn sydd â phrif reolaeth dros fusnes y fferm ac yn anwybyddu eraill, gan gynnwys aelodau iau o'r teulu sy'n gweithio yn yr un busnes.

14.7 Mae gan Lywodraeth Cymru gyfraniad i'w wneud tuag at annog twf busnes trwy ddatblygu'r Cynlluniau Cymorth i gynghori'r rheini ag uchelgais, yn hytrach na dal eu llaw. Mae hefyd angen i'r Llywodraeth sicrhau bod ganddi ei chynllun o reoli olyniaeth ar waith i sicrhau bod yna hyfforddiant digonol a bod staff gwybodus yn cael eu meithrin i barhau â'r gwaith hwn. Mae'r astudiaeth hon wedi dangos bod yr holl staff sy'n gweithio ym maes ffermio a datblygu a darparu polisïau cefn gwlad yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu'n fwy gan gwsmeriaid os oes ganddynt ddealltwriaeth dda o'r diwydiant. Ni ddylid anwybyddu'r ffaith hon.

14.8 Mae'r diffyg cysylltiadau band eang cyflym cyffredinol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru'n atal twf busnesau ac oni chaiff y broblem ei datrys yn gyflym iawn bydd yn amharu ar y systemau ar-lein / prosesau ymgeisio y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu cyflwyno yn 2014. Ers 2005, mae'r cyhoedd wedi gallu hunan-gofrestru mannau lle nad oes band eang. Mae'r Cynllun Cymorth Band Eang yn darparu grant o £1,000 i breswylwyr, busnesau a sefydliadau trydydd sector tuag at gostau sefydlu cysylltiad gydag isafswm trothwy cymhwysedd o 2Mbps. Bydd polisi Band Eang y Genhedlaeth Nesaf i Gymru yn ceisio sicrhau y bydd gan bob eiddo preswyl a busnes fynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn 2015, gyda 50% neu fwy ar gyflymder o 100Mbps.

14.9 Mae gwaith diwygio'r PAC yn 2014 bellach yn y cyfnod trafod dwys ac mae'r bwriad i dalu cymorth y PAC i ffermwyr actif yn unig wedi'i gynnig, er gwaethaf y cymhlethdod o lunio diffiniad boddhaol o ffermwr actif. Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r cynigion i'r carn gan fod rhai ffermwyr yn derbyn taliadau'r PAC am iddynt hawlio yn y gorffennol er nad ydynt bellach yn hau'r un had.

14.10 Ychydig iawn o wrthddadleuon a gyflwynwyd i'r cyfeiriad uchod, ond roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu yn pwysleisio bod pob fferm yn BBaCh. Mae hyn yn wir ond mae angen yr amgylchedd busnes cywir ar BBaChau, gan gynnwys gwell rheoleiddio, anogaeth i arallgyfeirio a gwell gwasanaeth cwsmeriaid, er mwyn tyfu, a gwneud hynny'n broffidiol. Mae'n amlwg nad oes unrhyw reolaeth dros ffactorau allanol, ond mae'r Banciau'n ystyried bod y sectorau ffermio, bwyd ac amaethyddol yn sectorau risg isel yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni.

**Argymhellion**

A.62 Dylid adolygu'r ffordd mae'r diwydiant amaethyddiaeth yn cael ei rannu'n segmentau ar hyn o bryd mewn perthynas â datblygu polisi a'r fframwaith rheoleiddio. Dylid sefydlu gwell dull segmentu sy'n cydnabod gwahanol uchelgeisiau [**Q**].

A.63 Dylid sicrhau bod dangosyddion perfformiad allweddol y diwydiant yn cael eu hesbonio mewn iaith sy'n gyfarwydd i'r ffermwr, yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol ac, o ganlyniad, yn cael eu deall yn eang [**S**].

A.64 Dylid annog y genhedlaeth nesaf trwy annog y Llywodraeth i weithio'n agosach gyda Cholegau Amaethyddol a gwella cynlluniau cymorth e.e. yr FLS, Cyswllt Ffermio a YESS. Dylid ystyried defnyddio'r cynllun mentora o dan YESS yn ehangach fel model i annog twf busnesau [**S**].

A.65 Dylid sicrhau bod hyfforddiant digonol a system olyniaeth rheoli ar waith fel y gall Llywodraeth Cymru barhau i gynnig cyngor cefnogol, gwella'r ffordd y caiff polisïau eu datblygu a gweithredu rheoliadau priodol [**Q**].

A.66 Ar y cyd â Defra a'r gweinyddiaethau eraill, dylid lobïo'r CE i sicrhau bod y Taliad Sengl yn cael ei dalu i ffermwyr actif yn unig [**S**].

A.67 Rhaid mynd ati ar fyrder i ddatblygu rhaglen band eang y genhedlaeth nesaf er mwyn osgoi'r llu o anfanteision sy'n wynebu busnesau mewn ardaloedd lle nad oes band eang [**M**].

A.68 Yn y dyfodol, dylai twf a datblygiad y diwydiant ffermio yng Nghymru fod yn gyfrifoldeb i bawb sy'n ymwneud â'r maes. O ystyried eu rôl ddylanwadol, dylai undebau'r ffermwyr gynghori a helpu'r diwydiant i dyfu trwy gydymffurfio â'r rheoliadau [**S**].

## 15. Sicrhau gwell rheoleiddio

15.1 Mae sawl agwedd i sicrhau bod gwell rheoleiddio'n cael ei gyfathrebu a'i gyflawni, gan gynnwys rheoli risgiau a mesur llwyddiant, ac maent yn cael sylw ym mhenodau 16 ac 17.

15.2 Amlinellir sut beth yw ffermio heddiw a'r prif faterion i'w datrys ym mhenodau 2 a 3. Disgrifir prif feysydd yr argymhellion ym mhenodau 5 i 12, 14 ac 15, ac mae cyfeiriad Llywodraeth Cymru'n cael ei gymharu ag adroddiad Richard Macdonald ar well rheoleiddio ym mhennod 13. Mae'r diwydiant ffermio yng Nghymru'n dameidiog, gydag oddeutu 30 o Grwpiau Rhanddeiliaid, dros 50 o Asiantaethau ac mae'n bosibl y gallai fferm dderbyn bron i 3,000 o dudalennau o wybodaeth bob blwyddyn. Nid oedd hi'n bosibl cofnodi nifer y cyfarfodydd eraill a drefnir mewn mis neu flwyddyn. Mae'r diwydiant yn un tameidiog, ac felly hefyd y ffordd y caiff ei gydgysylltu.

15.3 Y cam cyntaf tuag at well rheoleiddio yw sicrhau bod y diwydiant ffermio'n ymgysylltu'n llawn â llunwyr polisi, asiantaethau, undebau'r ffermwyr a rheoleiddwyr. Yr amddiffyniad yw bod grwpiau rhanddeiliaid yn bodoli a bod y llywodraeth yn gofyn am gyngor yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Ond mae'r dull yn un anghyson ac mae yna elfen o ymgynghori heb wrando; nid yw rhai grwpiau rhanddeiliaid wedi cyfarfod ers misoedd. Dylai'r bwlch cyfathrebu hwn arwain at sefydlu Grwpiau Cynghori Gorchwyl a Gorffen allweddol â chylch gorchwyl y mae'r partïon perthnasol yn rhan ohonynt, gan ddangos partneriaethau, ysgwyddo cyfrifoldeb, a sicrhau darpariaeth gyda Llywodraeth Cymru yn hwyluso'r cyfan. Mae yna enghreifftiau cyfatebol eisoes yn bodoli, fel y Cyngor Adnewyddu'r Economi a'r Grŵp Sgiliau newydd, ac ar wefan Llywodraeth Cymru, www.inspectwales.com sy'n disgrifio egwyddorion gweithio ac archwilio ar y cyd.

15.4 Er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith i leihau biwrocratiaeth a symud tuag at ddiwydiant mwy proffidiol, rhaid i undebau'r ffermwyr a'r CLA ymrwymo a chyfrannu'n llawn at y grwpiau gorchwyl a gorffen, ochr yn ochr â ffermwyr annibynnol ac asiantaethau gyda'r Gweinidogion a'r swyddogion dan sylw. Mae hyn yn ychwanegol at eu cysylltiadau rheolaidd â Gweinidogion a swyddogion. Undebau'r ffermwyr a'r CLA fydd yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn cyfrannu at y gwaith o arwain a rheoli gwell rheoleiddio a chefnogi'r newidiadau yn y diwydiant a fydd yn arwain at fwy o broffidioldeb, gan gydnabod a derbyn sefyllfa orfodol a chytundebol y ffermwyr.

15.5 Dylai'r Cyfarwyddwyr dan sylw adolygu'r angen am grwpiau rhanddeiliaid, gan gynnal y grwpiau hynny sy'n effeithiol. Bydd rhai'n diflannu'n gyfan gwbl ac eraill yn dod yn Grwpiau Cynghori Gorchwyl a Gorffen. Mae angen adolygu ac ailddiffinio'r dull o ddatblygu grwpiau rhanddeiliaid a gweithio gyda llywodraeth er mwyn dilyn dull systematig i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i'w llawn botensial.

15.6 Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw awdurdod dros Asiantaethau annibynnol ond dylai ei Hasiantaethau ei hun gael eu hadolygu'n rheolaidd, yn union fel Grwpiau Rhanddeiliaid.

15.7 Pan fo hynny'n bosibl, mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru a'r diwydiant ffermio'n unedig gerbron y CE a bod Cymru'n cyfrannu yn ystod y cyfnod cychwynnol – gyda Defra a'r CE – ar unrhyw fenter neu bolisi newydd.


15.8 Yn wahanol i ddiwydiannau eraill, nid oes gan y diwydiant ffermio Gonsortiwm neu Ffederasiwn. Mae hyn wedi'i ystyried ond wedi'i wrthod gan y byddai'r cynnwys yn rhy eang. Dylai'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth alw a threfnu Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ddisgrifio a thrafod polisi Amaethyddol y Llywodraeth gyda'r Grwpiau Cynghori Gorchwyl a Gorffen yn cyflwyno eu cynigion cytûn i'r cyfarfod hwn. Llywodraeth Cymru yw'r tâl-feistr a'r rheoleiddiwr, felly hi ddylai arwain y ffordd.

15.9 Gellid gwella'r broses reoleiddio o ran datblygu, cynllunio, gweithredu a rheoli rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn rheolaidd fel rhan o'r broses ddatblygu ond nid ydynt bob amser yn rhoi ystyriaeth ddigonol i'r baich tebygol (gan gynnwys y baich gweinyddol) ar y cwsmer. Yn ogystal, mae prosesau gweinyddu a rheoli wedi datblygu dros amser, i leihau'r risg fel arfer, ac nid ydynt mor effeithlon ag y gallent fod bob amser. Ymarfer cynhyrchu yw'r fethodoleg LEAN sy'n credu bod defnyddio adnoddau ar gyfer unrhyw nod, heblaw creu gwerth i'r cwsmer terfynol, yn wastraffus ac felly yn darged ar gyfer dileu. Mae LEAN wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus i symleiddio darpariaeth Cyswllt Ffermio a rhaid ei ddefnyddio'n fwy eang ym maes Materion Gwledig.

**Argymhellion**

A.69 Dylid adolygu grwpiau Rhanddeiliaid cyfredol gyda'r nod o resymoli a chyflwyno dull systematig gorfodol o sefydlu unrhyw grwpiau Rhanddeiliaid newydd [**S**].

A.70 Dylid cyflwyno Grwpiau Cynghori Gorchwyl a Gorffen (TFAG) ar well rheoleiddio, yn unol â'r 'materion allweddol' a drafodir yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys Grwpiau i Leihau Archwiliadau a Symleiddio Cofnodion, Diwygio'r PAC a Gwella Gwasanaethau a Chysylltiadau Cwsmeriaid. Gall y Grwpiau fod yn hyblyg o ran niferoedd a rhaid iddynt fod yn agored a thryloyw a chyflwyno adroddiadau'n uniongyrchol i'r Gweinidog [**Q**].




A.71 Dylai'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd gyflwyno cynhadledd ffermio flynyddol i ddisgrifio polisi amaethyddol. Dylai'r gynhadledd gynnwys cynrychiolaeth gan Weinidogion o Adran yr Amgylchedd a chael ei lansio gan y Prif Weinidog [**Q**].

A.72 Dylid trefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd gyda Defra, gan sicrhau bod yr amserlenni'n diwallu'r angen i ddylanwadu ar bolisïau'r DU, polisïau trawsffiniol a pholisïau'r UE [**Q**].

A.73 Dylid defnyddio methodoleg LEAN ar draws Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r broses reoleiddio a darparu polisïau. Mae'r manteision wedi'u profi (Cyswllt Ffermio) yn cyfiawnhau defnyddio'r fethodoleg hon yn eang [**M**].

A.74 Rhaid addasu Asesiad Effaith Rheoleiddiol safonol Llywodraeth Cymru, a'r canllawiau cysylltiedig i staff, i gynnwys asesiad o'r baich gweinyddol i gwsmeriaid [**Q**].

## 16. Rheoli risgiau rhoi'r newidiadau ar waith

16.1 Yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cyfeiriwyd at waith blaenorol gan Lywodraeth Cymru ar leihau biwrocratiaeth a lwyddodd ar lawer ystyr, ac at ddogfennau ar ddatblygu ffermio yn y dyfodol e.e. Adolygu Biwrocratiaeth; Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad tuag at 2020. Ond mae'r gwaith dilynol a'r ddarpariaeth wedi arafu, gan adael argymhellion ar gyfer llai o fiwrocratiaeth a chyfeiriadau twf ar y silff. Roedd y rhesymau a roddwyd am hyn yn cynnwys diffyg perchnogaeth, arweinyddiaeth annigonol ar brydiau, gwrthwynebu newid mewn rhai meysydd, agwedd amddiffynnol neu anhyblyg ac amharodrwydd i symud oddi wrth yr hyn a oedd yn gyfarwydd. Mae hyn, ynghyd â chyfathrebu gwael ar draws y Gweinyddiaethau a'r Adrannau, yn llesteirio brwdfrydedd ac awydd y rheini sydd am wneud cynnydd a sicrhau newid.

16.2 Mae Llywodraethau a Gweinyddiaethau hefyd yn newid, ac weithiau ni fydd y to newydd am barhau â gwaith eu rhagflaenwyr. O ystyried yr angen i gyflawni rhai o'r newidiadau yn yr adroddiad hwn yn y tymor canolig, argymhellir y dylai newidiadau i Weinidogion, Llywodraethau a Gweinyddiaethau fod yn amherthnasol iddo. Mae'r nodau'n rhai anwleidyddol.

16.3 Argymhellir y dylai'r gwaith darparu ar ran y Gweinidogion gael ei oruchwylio gan y Cyfarwyddwyr Cyffredinol, a fydd yn cyflwyno adroddiadau i'r Gweinidogion bob tri mis hyd at fis Gorffennaf 2013 a phob chwe mis ar ôl hynny.

16.4 Rhaid i'r Grwpiau Cynghori Gorchwyl a Gorffen sy'n cynnwys llunwyr polisi, rheoleiddwyr, undebau'r ffermwyr, ffermwyr annibynnol ac asiantaethau a argymhellwyd yn y bennod flaenorol arwain at bartneriaeth waith a fydd yn goresgyn unrhyw agweddau gwrthwynebus diangen. Mae bod yn agored, yn onest, yn gadarn ac yn deg wrth drafod yn ennyn parch; ond nid felly datgeliadau rhannol ac agwedd wrthwynebus. Mae'n werth nodi mai dim ond dwywaith y crybwyllwyd y gair 'partneriaeth' yn ystod y gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn.

16.5 Mae cyfathrebu a pherchnogaeth glir o du'r Cyfarwyddwyr a'r Dirprwy Gyfarwyddwyr yn hollbwysig i'w timau. Dylai cyflawni'r newidiadau hyn fod yn rhan o Adolygiad o Berfformiad unigolyn o'r Cyfarwyddwr i lawr.

16.6 Mae yna alwadau brith am newid yn y Llywodraeth yn yr adroddiad hwn ond mae'n glir bod angen newid dybryd yn y diwydiant hefyd. Mae angen i ffermwyr a phawb arall sy'n gysylltiedig â'r diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros reoli newid a lleihau risg.

16.7 Mae gan Defra Dîm Rheoleiddio ar wahân i fonitro argymhellion a darpariaeth. Ni argymhellir hyn ar gyfer Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd oherwydd ei maint, ei hyblygrwydd ac, yn bwysicaf oll, i osgoi'r diffyg perchnogaeth gan y rhai sy'n gyfrifol mewn Timau Polisi a Chyflenwi. Fodd bynnag, dylid adolygu'r sefyllfa ar ôl blwyddyn i asesu'r cynnydd sydd wedi'i wneud. Efallai y bydd angen defnyddio dull tîm rheoleiddio os bydd perchnogaeth wedi methu â datrys y broblem.

16.8 Fel rhan o'r adolygiadau rheolaidd, dylai rheoli risg fod yn rhan o'r broses honno, gan sicrhau bod unrhyw wrthwynebiad i newid a diffyg arweinyddiaeth yn cael ei oresgyn.

## 17. Mesur llwyddiant

17.1 Mae gan y 74 o argymhellion amserlenni ac maent yn perthyn i un o dri chategori, sef Enillion Cyflym (Q), Tymor Byr (S), neu Dymor Canolig (M).

- o Erbyn mis Gorffennaf 2012, rhaid i'r 20 o enillion cyflym fod ar waith, gan nodi cynnydd a pharodrwydd i ddatblygu.
- o Erbyn mis Gorffennaf 2013, rhaid i'r 35 o argymhellion tymor byr fod ar waith, rhai ohonynt yn allweddol i'r cyfnod terfynol.
- o Erbyn mis Gorffennaf 2015, rhaid i'r 19 o argymhellion tymor canolig fod ar waith yn llawn.

Dylid ystyried unrhyw beth yn llai na'r canlyniadau hyn yn fethiant oni bai bod polisïau wedi pennu bod canlyniad gwahanol yn ddymunol.

17.2 Mae yna fuddiannau ac arbedion pendant yn gysylltiedig â mesur llwyddiant: erbyn haf 2015, bydd y 3,000 o dudalennau wedi lleihau'n sylweddol; dim ond grwpiau rhanddeiliaid effeithiol fydd ar waith; bydd y gwaith o resymoli Asiantaethau Llywodraeth Cymru wedi ei gwblhau a bydd yr holl argymhellion wedi'u cyflawni o fewn yr amserlen briodol. Rhaid i'r costau rhedeg blynyddol cyfredol o £24 miliwn gael eu lleihau, gan adlewyrchu gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Rhaid i arbedion cost net y dull newydd o reoli rheoleiddio a thechnoleg newydd arwain at fwy o fuddsoddiad mewn gwasanaeth cwsmeriaid a chyfathrebu.

17.3 Mae yna brosesau pendant i fesur llwyddiant: buddsoddiad mewn gwell hyfforddiant, cysylltiadau a gwasanaethau cwsmeriaid; cyflwyno systemau ar-lein; Grwpiau Cynghori Gorchwyl a Gorffen a Grwpiau Rhanddeiliaid yn cyflawni eu swyddogaethau yn unol â'r diffiniad newydd ohonynt; cynyddu twf busnesau a'u gwneud yn fwy proffidiol.

17.4 Ni ellir gwella ar weledigaeth adroddiad 2020, *Ffermio ac Amgylchedd Cynaliadwy*, sef “Diwydiant amaethyddol proffidiol, cystadleuol a chynaliadwy sy'n ymateb i alw cwsmeriaid, yn helpu i gynnal amgylchedd Cymru ac yn cefnogi'r gwaith o gynnal cymunedau gwledig iach a chytbwys.” Mae'r adroddiad hwn yn gofyn am i'r weledigaeth hon fod ar waith erbyn mis Gorffennaf 2015.

17.5 I grynhoi, mae'r adroddiad hwn wedi'i ysgrifennu ar adeg ddelfrydol ar gyfer newid a thwf: mae'r diwydiant amaethyddiaeth yn perfformio'n dda yn y rhan fwyaf o sectorau; mae Gweinidogion yn awyddus i sicrhau newid a gwella proffil y diwydiant trwy Ffermio a Bwyd; mae'r prif faterion wedi'u trafod gydag argymhellion ar gyfres symud ymlaen; a'r Llywodraeth i weithio mewn partneriaeth â'r diwydiant ffermio. Yn ogystal â lleihau costau a biwrocratiaeth, bydd gwneud y newidiadau a argymhellir yn caniatáu i'r sector dyfu ac yn hwyluso arallgyfeirio, gan arwain at ddiwydiant ffermio mwy proffidiol. Mae'n bosibl y bydd gan bob ochr - y tu mewn a'r tu allan i'r Llywodraeth - sy'n gweithio mewn partneriaeth fel hyn wahanol safbwyntiau ar rai atebion, ond bydd yn ffordd o ennyn ymddiriedaeth ymhlith pawb gyda'r nod o gyflawni amcanion cyffredin polisïau Llywodraeth Cymru ym maes ffermio. Bydd y gyfres integredig hon o argymhellion yn arwain at y weledigaeth a'r newidiadau dymunol sydd eu hangen ac yn helpu pawb i Hwyluso'r Drefn.

**Atodiad 1**

## Aelodaeth Grwpiau Rhanddeiliaid a Phartneriaid Hwyluso'r Drefn

**Grŵp Partneriaid:**

| **Sefydliad** | | **Aelod** |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Cynghorydd Annibynnol ar Hwyluso'r Drefn | Gareth Williams |
| AHVLA | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol | David Pugh |
| AHVLA | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol | Martin Sharples |
| BBNP | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Matthew Williams |
| CCGC | Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Hazel Drewett |
| CLILC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Zoe Lewis |
| CLILC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Simon Wilkinson |
| EAW | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | Bob Merriman |
| FAWL | Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru | Moss Jones |
| FAWL | Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru | Don Thomas |
| FC | Comisiwn Coedwigaeth | Richard Siddons |
| FSA | Asiantaeth Safonau Bwyd | Collin Willson |
| FSA | Asiantaeth Safonau Bwyd | Steve Wearne |
| LIC | Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Datblygu Ffermydd | Gary Haggaty |
| LIC | Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Datblygu Ffermydd | David Morris |
| TFA | Cymdeithas y Ffermwyr Tenant | Sara Crocombe |

**Grŵp Rhanddeiliaid:**

| **Sefydliad** | | **Aelod** |
|---|---|---|
| Cadeirydd | Cynghorydd Annibynnol ar Hwyluso'r Drefn | Gareth Williams |
| CFfI | Clwb Ffermwyr Ifanc | Marc Jones |
| CLBA | Cymdeithas Tirfeddianwyr a Busnesau Cefn Gwlad | Sue Evans |
| Ffermwr | | John Davies |
| Ffermwr | | Huw Davies |
| FUW | Undeb Amaethwyr Cymru | Nick Fenwick |
| LIC | Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Datblygu Ffermydd | Gary Haggaty |
| LIC | Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Datblygu Ffermydd | David Morris |
| NFU Cymru | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymru | Dylan Morgan |
| NFU Cymru | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, Cymru | Kevin Owen |
| TFA | Cymdeithas y Ffermwyr Tenant | Sara Crocombe |
| TFA | Cymdeithas y Ffermwyr Tenant | Dennis Mathesen |
| WFU | Undeb Ffermio'r Menywod | Ionwen Lewis |

**Atodiad 2**

**Rhestr o ffurflenni / canllawiau / llyfrau cofnodion**

| **Sefydliad** | **Ffurflenni** | **Tud** | **Llyfrynnau** | **Tud** |
|---|---|---|---|---|
| Safonau Masnach Awdurdod Lleol | 4 | 2 | 1 | 50 |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | 3 | 4 | 29 | 248 |
| Asiantaeth Safonau Bwyd | 9 | 21 | 2 | 49 |
| Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru | 1 | 22 | 1 | 24 |
| Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol | 18 | 112 | 27 | 458 |
| Twbercwlosis (TB) - Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol | 0 | 0 | 2 | 69 |
| Yr Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'r Farchnad | 1 | 4 | 3 | 203 |
| Tir Gofal (Taliadau Gwledig Cymru) | 5 | 36 | 6 | 104 |
| Cynllun Coetir Ffermydd | 1 | 4 | 0 | 0 |
| Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd | 1 | 4 | 0 | 0 |
| Tir Cynnal | 0 | 0 | 3 | 84 |
| Cynllun Cynefinoedd | 1 | 3 | 0 | 0 |
| Cynllun Ardaloedd Amgylcheddol Sensitif (ESA) | 1 | 4 | 0 | 0 |
| Tir Mynydd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Taliadau Gwledig Cymru – Swyddfa Ranbarthol | 12 | 113 | 33 | 957 |
| Glastir | 1 | 13 | 14 | 454 |
| Ffurflen y Cais Sengl | 2 | 60 | 8 | 153 |
| Y Cynllun Troi at Ffermio Organig | 1 | 8 | 2 | 24 |
| Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru | 1 | 6 | 14 | 125 |
| **Cyfanswm** | **62** | **416** | **145** | **3002** |

**Atodiad 3**

**Amaethyddiaeth yng Nghymru: y prif asiantaethau a rhanddeiliaid allweddol**

**Acronymau**

| | | |
|---|---|---|
| AHVLA | - | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol |
| AHWS | - | Grŵp Llywio Strategaeth Iechyd a Lles Anifeiliaid |
| BCMS | - | Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain |
| BWMB | - | Bwrdd Marchnata Gwlân Prydain |
| CAAV | - | Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol |
| CADW | - | Is-adran yr Amgylchedd Hanesyddol |
| CCGC | - | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| CFfI | - | Clwb Ffermwyr Ifanc |
| CLA | - | Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad |
| CLlLC | - | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| EAW | - | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| FAWL | - | Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru |
| FCW | - | Comisiwn Coedwigaeth Cymru |
| FSA | - | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| FUW | - | Undeb Amaethwyr Cymru |
| HCC | - | Hybu Cig Cymru |
| HSE | - | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| ICF | - | Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig |
| ALl | - | Awdurdod Lleol |
| LEAF | - | Linking Environment and Food |
| MAB | - | Menter a Busnes |
| NBA | - | Y Gymdeithas Cig Eidion Genedlaethol |
| NFU Cymru | - | Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru |
| NSA | - | Y Gymdeithas Ddefaid Genedlaethol |
| OCW | - | Canolfan Organig Cymru |
| RICS | - | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| RTPI (Wales) | - | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru |
| Soil Assoc | - | Cymdeithas y Pridd |
| TFA | - | Cymdeithas y Ffermwyr Tenant |
| TS | - | Safonau Masnach |
| | - | Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach yng Nghymru |
| WEL* | - | Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| WFU | - | Undeb Bwyd a Ffermio’r Menywod |

***Mae WEL yn sefydliad ambarél ar gyfer y cyrff canlynol:**

Afonydd Cymru
Amgylchedd Cymru
Cadwch Gymru’n Daclus
Coed Cadw
Cyngor Archaeoleg Brydeinig Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Cyngor Mynydda Prydain

Cymdeithas Mynyddoedd Cambria
Cymdeithas y Cerddwyr
Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid
Gwarchod Ieir Bach yr Haf
Gwarchod Ystlumod
Oxfam Cymru
Plantlife
RSPB Cymru
Sefydliad y Gwy a'r Wysg
Sustrans Cymru
WWF Cymru
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Y Gymdeithas Mannau Agored
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain Cymru
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

**Atodiad 4**

**Rhestr o'r grwpiau rhanddeilaid allweddol:**

**Statudol (S)**

1. Pwyllgor Monitro Rhaglenni'r CDG
2. Panel Apeliadau Annibynnol i Ffermwyr a Choedwigwyr Cymru
3. Grŵp Llywio Rhwydwaith Gwledig Cymru
4. Grŵp Thematig Rhwydwaith Gwledig Cymru

**Grwpiau Cynghori'r Gweinidog (CA)**

5. Y Grŵp Adolygu Bwirocratiaeth
6. Fforwm yr Ucheldir
7. Partneriaeth Cynghori Bwyd a Diod
8. Grŵp Cynghori Pysgodfeydd Morol Cymru
9. Grŵp Cynghori Pysgodfeydd Glannau De Cymru
10. Grŵp Cynghori Pysgodfeydd Glannau Canolbarth Cymru
11. Grŵp Cynghori Pysgodfeydd Glannau Gogledd Cymru

**Busnes Arferol (BA)**

12. Grŵp Rhanddeiliad y PAC
13. Grŵp Rhanddeiliaid Dethol y PAC
14. Grŵp Thematig Colofn 2 y PAC
15. Grŵp Thematig Colofn 3 y PAC
16. Grŵp Thematig Tsytiolaeth a Monitro'r PAC
17. Grŵp Rhanddeiliaid Taliadau Gwledig Cymru
18. Grŵp Strategaeth Laeth
19. Grŵp Strategaeth Garddwriaeth
20. Grŵp Strategaeth Organig
21. Grŵp Hyfforddiant a Sgiliau
22. Partneriaethau Bwyd-amaeth Rhanbarthol
23. Grŵp Datblygu Masnach
24. Grŵp Pysgodfeydd a Dyframaethu
25. Panel Cronfa Pysgodfeydd Ewrop
26. Grŵp Cynghori Deddf Tiroedd Comin 2006
27. Grŵp Rhanddeiliaid Glastir
28. Grŵp Rhanddeiliaid Dethol Glastir
29. Grŵp Rhanddeiliaid Hwyluso'r Drefn
30. Grŵp Partneriaid Hwyluso'r Drefn
31. Grŵp Datblygu Polisi Cyswllt Ffermio

Atodiad 5

# Swyddfeydd Materion Gwledig




This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationary Office © Crown copyright.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Assembly Government, License Number GD 100017916, 2010.
Cartography by Rural Payments Cartographic Branch, Aberystwyth.

Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron.
Mae atgynhyrchu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil.
Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhif Trwydded GD 100017916, 2010.
Cartograffeg gan Cangen Gartograffeg Taliadau Gwledig, Aberystwyth.

Graddfa/scale: 1:1,000,000 Dyddiad/date: 13/12/2011

Cangen Gartograffeg Talidau Gwledig
Rural Payments Cartographic Branch

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**Atodiad 6**

## Cydnabyddiaethau

## Wrth grynhoi'r adroddiad hwn, casglodd Gareth Williams dystiolaeth gan y bobl ganlynol:

### Llywodraeth Cymru:

| | |
|---|---|
| Adriana Kiss Davies | SEED |
| Aedan Davies | Tîm Canolog y We |
| Alan Dearman | DEFRA |
| Alun Davies AC | Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd |
| Chris Hale | OCVO |
| Chris Lea | Dirprwy Gyfarwyddwr, SEED |
| Dr. Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Claire Bennett | Dirprwy Gyfarwyddwr, DESD |
| Dafydd Glyn | OCVO |
| Dai Smith | Gweithredu'r Polisïau Anifeiliaid – Yr Is-adran Datblygu Ffermydd |
| David Bussell | Pennaeth Arolygiaeth Wledig Cymru |
| Dianna Reynolds | DESD |
| Elaine Debono | Dirprwy Gyfarwyddwr, Taliadau Gwledig Cymru |
| Gary Douch | Pennaeth y Tîm Cyswllt Ffermio |
| Gary Haggaty | Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Is-adran Datblygu Ffermydd |
| Helen Minnie-Smith | Yr Is-adran Polisi Cefn Gwlad |
| Huw Jones | OCVO |
| Isabel Owen | Rheolwr Swyddfa Ranbarthol Caernarfon |
| James Price | Cyfarwyddwr Cyffredinol – BETS |
| Jane Bonner | Rheolwr RhNgCC |
| Janis Mainwaring | Rheolwr Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin a Llandrindod |
| Jo Williams | Pennaeth Tîm Materion Gwledig y We |
| John Griffiths AC | Gweinidog yr Amgylchedd |
| John Kirkham | DESD |
| John Watkins | DESD |
| Jonathan Jones | Cyfarwyddwr, Croeso Cymru |
| Julia Richards | Pennaeth Uned Apelau'r PAC |
| Kay Davies | Pennaeth Cangen, Taliadau Gwledig Cymru |
| Les Eckford | OCVO |
| Lorna Thompson | LBRO |
| Matthew Quinn | Cyfarwyddwr, DESD |
| Paul Roach | Taliadau Gwledig Cymru |

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Adolygu Biwrocratiaeth – Cynghorydd Allanol |
| Richard Griffiths | OCVO |
| Richard Jones | Pennaeth Cangen, Taliadau Gwledig Cymru |
| Richard Macdonald | Adroddiad Macdonald (Awdur) |
| Rita Jones | Pennaeth y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm |
| Roger Williams AS | Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| Rory O'Sullivan | Cyfarwyddwr, Adran Materion Gwledig |
| Rosemary Thomas | Dirprwy Gyfarwyddwr, Cynllunio |
| Sian Hughes | Polisi Amaeth-amgylchedd – Yr Is-adran Datblygu Ffermydd |
| Spencer Conlon | Gweithredu'r Polisïau Anifeiliaid – Yr Is-adran Datblygu Ffermydd |
| Stuart Brailsford | Taliadau Gwledig Cymru, Achredu |
| Stuart Neil | Y Gyfarwyddiaeth Ystadegau |
| Terri Thomas | Dirprwy Gyfarwyddwr, CPD |
| Tony Joss | OCVO |
| Tony Mizen | Rheolwr RhNgCC |
| Wynford James | Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Datblygu Bwyd, Pysgodfeydd a'r Farchnad |

**Asiantaethau a chwmnïau:**

| | |
|---|---|
| Andrew Morgan | Siop Fferm |
| Bob Merriman | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Brian George | Prosesydd Cig |
| Chris Jones | Arwerthwr |
| Chris Mills | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Colin Wilson | FSA Cymru |
| Dai Davies | HCC |
| Dan Thomas | WLBP |
| Delyth Davies | DairyCo |
| Dyfrig Siencyn | Arwerthwr |
| Euryn Jones | HSBC |
| Fiona Jones | Marchnadoedd Ffermwyr |
| Gethin Havard | BWMB |
| Gwyn Howells | HCC |
| Helen Davies | NSA |
| Jill Gibson | FCN |
| Jim Dobson | Dunbia, Prosesydd Cig |
| Joanne Pugh | NBA |
| John Michael Warren | Prifysgol Aberystwyth |
| Jonathan Williams | Prosesydd Cig |
| Judith Stone | WCVA |
| Kath Whitrow | Banc Barclays |

| | |
|---|---|
| Moss Jones | FAWL |
| Norman Bagley | AIMS |
| Paul Edwards | Dunbia, Prosesydd Cig |
| Peter Hewson | AIMS |
| Phil Fiander | WCVA |
| Phil Jarrold | WCVA |
| Richard Davies | DairyCo |
| Richard Jones | IOSH |
| Richard Lewis | Busnes Garddwriaethol |
| Simon Neale | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Steve Wearne | FSA Cymru |
| Wyn Williams | Dunbia, Prosesydd Cig |

**Undebau'r ffermwyr:**

| | |
|---|---|
| Dafydd Jarret | NFU Cymru |
| Dylan Morgan | NFU Cymru |
| Edward Bailey | NFU Cymru |
| Emyr Jones | FUW |
| Gareth Vaughan | FUW |
| Kevin Owen | NFU Cymru |
| Nick Fenwick | FUW |
| Peter Howells | NFU Cymru |
| Rhian Nowell-Phillips | FUW |

**Agrisgôp a Ffermwyr:**

| |
|---|
| 30+ o ffermwyr ledled Cymru |
| Grŵp Agrisgôp Eidion Du Cymreig |
| Grŵp Agrisgôp Menywod |

**Eraill:**

| | |
|---|---|
| Canon Robin Morrison | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Christine Lewis | |
| Dr Haydn Edwards | Cadeirydd Ffermio a Bwyd |

Cafwyd llawer o gyfarfodydd atodol rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru (a oedd wedi ymrwymo i raglen Hwyluso'r Drefn) a swyddogion eraill o'r Llywodraeth ac asiantaethau a ffermwyr.

Hoffwn ddiolch o galon i bawb a enwir uchod ac i'r rheini nad ydynt wedi'u henwi ond a wnaeth gyfraniad anffurfiol at yr adroddiad hwn.